# Gwerddon

## *Cyfnodolyn Academaidd Cymraeg*

*Golygydd: Dr Anwen Jones*

Rhif 23 Mawrth 2017 • ISSN 1741-4261 • Golygydd: Dr Anwen Jones

*Cyhoeddwyd gyda chymorth:* Coleg Cymraeg Cenedlaethol

# Gwerddon

CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

Golygydd: **Dr Anwen Jones**

Rhif 23 Mawrth 2017 • ISSN 1741-4261

# Bwrdd Golygyddol

| | |
|---|---|
| Golygydd: | Dr Anwen Jones, Prifysgol Aberystwyth |
| Is-Olygydd: | Dr Hywel M. Griffiths, Prifysgol Aberystwyth |
| Cynorthwywyr Golygyddol: | Mari Fflur a Dr Angharad Watkins |
| Cadeirydd y Bwrdd Golygyddol: | Yr Athro Eleri Pryse, Prifysgol Aberystwyth |
| Aelodau'r Bwrdd Golygyddol: | Yr Athro Jane Aaron, Prifysgol De Cymru<br>Dr Myfanwy Davies, Prifysgol Bangor<br>Dr Noel A. Davies<br>Yr Athro Arwyn Jones, Prifysgol Caerdydd<br>Yr Athro Carwyn Jones, Prifysgol Metropolitan Caerdydd<br>Dr Hefin Jones, Prifysgol Caerdydd<br>Yr Athro Rhys Jones, Prifysgol Aberystwyth<br>Yr Athro R. Gwynedd Parry, Prifysgol Abertawe<br>Gwerfyl Roberts, Prifysgol Bangor<br>Yr Athro Enlli Thomas, Prifysgol Bangor<br>Wyn Thomas, Prifysgol Bangor<br>Yr Athro Daniel Williams, Prifysgol Abertawe<br>Yr Athro Ioan M. Williams<br>Dr Prysor Williams, Prifysgol Bangor<br>Dr Eryn White, Prifysgol Aberystwyth |

E-gyfnodolyn academaidd cyfrwng Cymraeg yw *Gwerddon*. Y mae'n cyhoeddi ymchwil ysgolheigaidd yn y Gwyddorau, y Celfyddydau a'r Dyniaethau. Cyhoeddir *Gwerddon* ar y we o leiaf ddwywaith y flwyddyn. Arfernir cyfraniadau gan arbenigwyr yn y meysydd perthnasol yn y modd arferol. Ceir gwybodaeth lawn am amcanion, polisïau golygyddol, canllawiau i awduron a chanllawiau i arfarnwyr ar y wefan: www.gwerddon.cymru

Cyllidir *Gwerddon* gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.

Cysylltwch â *Gwerddon* drwy e-bostio gwybodaeth@gwerddon.cymru neu drwy'r post: Gwerddon, Coleg Cymraeg Cenedlaethol, Y Llwyfan, Heol y Coleg, Caerfyrddin, SA31 3EQ.

ISSN 1741-4261

Hawlfraint *Gwerddon*

www.gwerddon.cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Golygyddol | 5 |
| Crynodebau | 6 |
| Summaries | 8 |
| Erthygl 1: Ben Screen, 'Effaith defnyddio Cofion Cyfieithu ar y broses gyfieithu: Ymdrech a chynhyrchiant wrth gyfieithu i'r Gymraeg' | 10 |
| Erthygl 2: Nia Davies Williams, 'Canu i'r Cof: Effeithiau prosiect *Singing for the Brain* ar gof ac ansawdd bywyd pobl sydd â dementia yng ngogledd Cymru' | 36 |
| Erthygl 3: Gareth Evans-Jones, 'Y Seren yn y Groes: effaith deddfau imperialaidd cynnar Rhufain ar y berthynas rhwng yr Eglwys a'r Iddewon' | 58 |
| Erthygl 4: Cynan Llwyd, '"Byd newydd ymha un y preswylia cyfiawnder": Gweledigaeth Morgan John Rhys (1760–1804)' | 85 |
| Cyfranwyr | 99 |

# Golygyddol

Mae'n bleser cyhoeddi rhifyn 23 o Gwerddon ar ddechrau blwyddyn newydd; blwyddyn dathlu dengmlwyddiant y cyfnodolyn a deng mlynedd o gyhoeddi gwaith ysgolheigaidd ar draws rhychwant eang o ddisgyblaethau'r academi yn y Gymraeg. Fel rhagflas o ddathlu'r degawd, lansiwyd rhifyn arbennig rhithiol; y cyntaf mewn cyfres newydd a fydd yn dod â chyfraniadau thematig o archif Gwerddon at ei gilydd ac yn eu cyhoeddi fel cyfrolau arbennig. Cerddoriaeth yw maes y rhifyn arbennig rhithiol cyntaf. Fe'i cyhoeddwyd ar Ddydd Gŵyl Dewi, gan ychwanegu at y cyffro a grëwyd yn ddiweddar yn sgil dwy fenter arall sy'n ymwneud â cherddoriaeth Gymraeg: Dydd Miwsig Cymru (Llywodraeth Cymru) a Phrosiect Wicipop (Wikimedia UK a Llyfrgell Genedlaethol Cymru).

Bid a fo am ddathliadau'r dyfodol, mae'n fraint nawr cael cyfarch cyfres o bedair erthygl gan ymchwilwyr gyrfa gynnar ym meysydd athroniaeth, cyfieithu a pholisi iaith, moeseg ac astudiaethau ar ddementia. Fel arfer, mae'r cyfraniadau'n amrywiol ond ceir edafedd arian yn clymu'r ddwy erthygl gyntaf, sef astudiaeth Ben Screen o'r berthynas rhwng Cofion Cyfieithu a'r broses o gyfieithu sydd ar waith yng Nghymru ac archwiliad Nia Williams i ddylanwad canu ar y cof ymysg pobl sydd â dementia. Mae'r ddwy erthygl yn gofyn cwestiynau treiddgar am ddulliau o adnabod ac o wybod a hynny mewn cyd-destunau pan mae'n ofynnol i wthio'r ffiniau. Gellir ystyried dadl Screen y gall Cofion Cyfieithu gael effaith bositif ar gyfieithu a chynllunio ieithyddol yng Nghymru, law yn llaw â'r dystiolaeth a gynigia Williams o blaid grym adferol canu yng nghyd-destun colli cof, yn ymatebion adeiladol i'r un argyfwng diwylliannol sylfaenol; colli gafael ar agweddau ar orffennol sy'n angori'r hunaniaeth feidrol yn ei chymdeithas a'i hamgylchfyd.

Mae erthyglau Gareth Evans-Jones a Cynan Llwyd yn mentro i feysydd tra gwahanol, y gyntaf yn trafod perthynas moeseg deddfau Imperialaidd cynnar Rhufain â gwahaniaethu hiliol, a'r olaf yn ymdrin â Williams Pantycelyn a Morgan John Rhys yng nghyd-destun eu hagweddau goleuedig tuag at gaethwasiaeth, y Chwyldro Ffrengig ac America. Ymdrinnir â chyfnodau a thestunau gwahanol gan y ddau awdur ac eto mae eu gwaith yn gofyn cwestiynau tebyg am foeseg ac athroniaeth dynoliaeth yn wyneb rhai o heriau mwyaf blinderus a chyson ein hoes, sef sicrhau'r hawl i gydraddoldeb a chyfiawnder ymhlith dynion.

Mae'n braf gweld cyfraniadau cyfoes yn ymdrin â'r dechnoleg ddiweddaraf ochr yn ochr ag astudiaethau hanesyddol sydd yr un mor berthnasol. Yn wir, efallai y gellid dadlau bod y cyfraniadau oll, yn eu dulliau a'u methodolegau unigryw, yn ymdrin â'r un maes sylfaenol, sef dyrys ffyrdd dynion yng nghyd-destun yr elfennau a'r rhinweddau sydd wrth wraidd y gymdeithas a'r gwareiddiad dynol.

Dr Anwen Jones

# Crynodebau

## Ben Screen, 'Effaith defnyddio Cofion Cyfieithu ar y broses gyfieithu: Ymdrech a chynhyrchiant wrth gyfieithu i'r Gymraeg'

Mae cyfieithu i'r Gymraeg wedi tyfu bellach yn ddiwydiant pwysig, ac mae nifer o ymchwilwyr wedi cysylltu cyfieithu ag ymdrechion ehangach ym maes cynllunio ieithyddol. Mae'r oes dechnegol hefyd wedi gwyrdroi sut y mae cyfieithu'n digwydd yn rhyngwladol, ac mae nifer o'r datblygiadau hyn hefyd wedi cyrraedd Cymru. Bwriad yr erthygl hon felly, gan gadw mewn cof bwysigrwydd cyfieithu i gynllunio ieithyddol yng Nghymru, yw ymchwilio i'r effaith y mae Cofion Cyfieithu yn ei chael ar agweddau penodol ar y broses o gyfieithu i'r Gymraeg, gan ofyn a oes lle i'r dechnoleg hon mewn cyd-destun proffesiynol. Pa gyfraniad a all y dechnoleg ei wneud, felly, i gyfieithu a chynllunio ieithyddol yng Nghymru?

## Nia Davies Williams, 'Canu i'r Cof: Effeithiau prosiect *Singing for the Brain* ar gof ac ansawdd bywyd pobl sydd â dementia yng ngogledd Cymru'

Pwrpas yr erthygl hon yw darganfod pa fudd y mae canu mewn grŵp yn ei gael ar bobl sydd â dementia, yn benodol drwy edrych ar sesiynau *Singing for the Brain* (*SftB*) a gynhaliwyd yng ngogledd Cymru yn ystod 2012–13 gan y Gymdeithas Alzheimer. Cychwynnir drwy drafod ymchwil sydd eisoes wedi ei gwblhau ar ganu mewn grŵp ym maes cerddoriaeth a dementia, yn ogystal ag olrhain tarddiad y prosiect *Singing for the Brain* ar draws Prydain. Yna, adroddir ar y gwaith maes gan gyflwyno'r casgliadau, ac yna eir ymlaen i ymdrin â gwerthuso'r casgliadau.

## Gareth Evans-Jones, 'Y Seren yn y Groes: effaith deddfau imperialaidd cynnar Rhufain ar y berthynas rhwng yr Eglwys a'r Iddewon'

Tymhestlog fu hanes perthynas yr Eglwys Gatholig Rufeinig a'r Iddewon, ac yn yr erthygl hon archwilir y modd yr effeithiodd deddfau imperialaidd cynnar Rhufain ar y berthynas honno. Gan gymryd detholiad o ddeddfau, ystyrir y modd y cawsant effaith ar safle cymdeithasol yr Iddew mewn byd a oedd yn troi'n fwyfwy Cristnogol. Eir ymlaen i drafod y modd yr ailgyflwynwyd ambell ddeddf wrth-Iddewig yn ystod yr Oesoedd Canol yn ogystal ag yn ystod y digwyddiad erchyll a oedd yn dyngedfennol i'r Iddew a'r Cristion, yr Holocost. Daw'r erthygl i ben gan bwyso a mesur gwir arwyddocâd y deddfau imperialaidd cynnar a chan gwestiynu perthynas yr Iddew â'r Cristion yn yr unfed ganrif ar hugain.

## Cynan Llwyd, '"Byd newydd ymha un y preswylia cyfiawnder": Gweledigaeth Morgan John Rhys (1760–1804)'

Yn yr erthygl hon, dadleuir sut y dylanwadodd credoau Morgan John Rhys (1760–1804) ynghylch yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant ar ei ymwneud ef â'r ymgyrch yn erbyn caethwasiaeth, y Chwyldro Ffrengig ac America. Dangosaf sut yr oedd Milflwyddiaeth yn rym a luniai fydolwg Morgan John Rhys ac a lywiai ei weithredoedd a'i ymgyrchoedd cymdeithasol. Yn ogystal â hyn, dangosir sut y bu i William Williams, Pantycelyn (1717–91), ragflaenu Morgan John Rhys yn y cyd-destun hwn. Dadleuir, wrth astudio Williams a Rhys, na ellir cyfrif Efengyliaeth a'r Oleuedigaeth yn elynion deallusol i'w gilydd, ac mai Milflwyddiaeth oedd un o'r grymoedd pwysicaf ym mywydau'r ddau ddyn hyn a chwaraeodd ran dylanwadol iawn ym mywyd Cymru'r ddeunawfed ganrif.

# Summaries

## Ben Screen, 'The effect of Translation Memories on the translation process: Effort and productivity in Welsh translation'

Translation into Welsh has now grown into an important industry, and a number of researchers have linked translation to wider efforts in the field of language planning. This article therefore, keeping in mind the importance of translation to language planning in Wales, intends to investigate the effect that Translation Memories have on particular aspects of the process of translating into Welsh, asking whether there is a place for this technology in a professional context. What contribution can this technology make, then, to translation and language planning in Wales?

## Nia Davies Williams, 'Music for the Memory: The effects of the *Singing for the Brain* project on memory and the quality of life of people with dementia in north Wales'

The purpose of this article is to determine the benefits of group singing for people who have dementia, specifically through the *Singing for the Brain* sessions held in North Wales during 2012–13 by the Alzheimer's Association. Previous research into group singing in the field of music and dementia will be discussed as well as looking at how *Singing for the Brain* first started in Britain. The article will then focus on the fieldwork that was undertaken, presenting conclusions, and finally dealing with and evaluating these conclusions.

## Gareth Evans-Jones, 'The Star in the Cross: the effect of the early imperial laws of Rome on the relationship between the Church and the Jews'

The relationship between the Roman Catholic Church and the Jews has always been difficult, and this article explores the way in which the early imperial laws of Rome influenced that relationship. Having discussed a selection of laws, consideration is given to how they affected the social standing of the Jews in a growingly Christianised world. There is also a discussion of how a few of the early anti-Jewish laws seemed to be reintroduced during the Middle Ages, as well as during the horrific event which proved to be fateful to the Jewish-Christian relationship, the Holocaust. The article concludes by examining the significance of those imperial laws and questions the relationship of the Church and the Jews in the twenty-first century.

## Cynan Llwyd, '"A new world where justice dwells": The vision of Morgan John Rhys (1760–1804)'

This article argues how Morgan John Rhys' (1760–1804) belief in the Second Coming and Millennium influenced his participation in the campaign to abolish slavery, the French Revolution and America. It is shown how Millenarianism was a force that shaped Morgan John Rhys' worldview and influenced his social action and campaigns. Also, it is shown how William Williams, Pantycelyn (1717–91), preceded Morgan John Rhys in this context. It is argued, with comparative reference to Williams and Rhys, that Evangelicalism and the Enlightenment were not intellectual enemies, and that Millenarianism was one of the most important driving forces in the lives of these two men, who were integral to the life of eighteenth century Wales.

Ben Screen

# Effaith defnyddio Cofion Cyfieithu ar y broses gyfieithu: Ymdrech a chynhyrchiant wrth gyfieithu i'r Gymraeg

Gwerddon
CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG
Golygydd: **Dr Anwen Jones**

# Effaith defnyddio Cofion Cyfieithu ar y broses gyfieithu: Ymdrech a chynhyrchiant wrth gyfieithu i'r Gymraeg

*Ben Screen*

## 1. Cyflwyniad

Mae cyfieithu i'r Gymraeg wedi tyfu bellach yn ddiwydiant pwysig, ac mae'r berthynas rhwng cyfieithu proffesiynol a chynllunio ieithyddol ehangach wedi cael sylw academaidd yn ddiweddar ochr yn ochr â hyn (cf. Gonzalez 2005, O'Connall a Walsh 2006, Kaufmann 2010, 2012, Nunez 2013). Mae cyfieithwyr yn hwyluso ac yn cynorthwyo ymdrechion i amddiffyn hawliau iaith siaradwyr lleiafrifol ac yn cyfrannu at y gwaith ehangach o adfer yr ieithoedd hyn, trwy ddarparu cyfieithiadau o destunau amrywiol ac wrth alluogi siaradwyr ieithoedd lleiafrifol i siarad eu hiaith. O ganlyniad i bwysigrwydd cyfieithwyr i lwyddiant polisïau iaith a'u lle canolog yn y broses o amddiffyn hyfywedd y gymuned Gymraeg, mae'r dulliau y mae cyfieithwyr y Gymraeg yn cyfieithu drwyddynt hefyd yn ystyriaeth berthnasol i gynllunwyr iaith. A all technolegau cyfieithu penodol gyflymu cyfieithu, gan leihau'r ymdrech sydd ynghlwm wrth greu cyfieithiad a chan gynyddu cynhyrchiant cyfieithwyr proffesiynol? Mae hyn yn ystyriaeth berthnasol yng nghyd-destun datblygiadau polisi diweddar, gyda safonau cyntaf Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 wrthi'n cael eu gweithredu. Bydd yr erthygl hon yn mynd i'r afael â'r effaith y mae golygu allbwn Cofion Cyfieithu ar ffurf Cyfatebiaethau Rhannol yn ei gael ar y broses o ffurfio cyfieithiad, ar y cyd ag ystyried yr effaith ar brosesau cynhyrchu testun, gan gynnwys ystyried hefyd nifer y geiriau a gynhyrchir. Gwneir hynny o fewn fframwaith cymharol, lle y defnyddir cyfieithu heb gymorth allbwn o'r cof cyfieithu yn waelodlin.

## 2. Beth yw system Cof Cyfieithu?

Mae'r ystod o dechnolegau cyfieithu sydd bellach ar gael i'r cyfieithydd yn eang, ac yn cynnwys systemau Cof Cyfieithu, Cyfieithu Awtomatig ar ei amryfal ffurfiau, cronfeydd terminoleg a chorpora electronig i enwi ond ychydig.[1] Yn yr erthygl hon, canolbwyntir ar systemau Cof Cyfieithu yn benodol. Defnyddir 'y cof cyfieithu' wrth gyfeirio at y gronfa ei hun sy'n cynnwys y cyfieithiadau mewn corpws, a 'systemau Cof Cyfieithu' wrth gyfeirio at y rhyngwynebau eu hunain y mae'r cyfieithydd yn cyfieithu ynddynt (cf. Ffigwr 1). Bydd y cyfieithydd yn defnyddio sawl technoleg wrth gyfieithu, ond penderfynwyd canolbwyntio ar systemau Cof Cyfieithu oherwydd eu cyfraniad mawr i'r broses gyffredinol o baratoi cyfieithiad (gallant *wneud* llawer o'r cyfieithu mewn rhai achosion), ac oherwydd eu defnydd cymharol isel yng nghyd-destun cyfieithu proffesiynol Cymraeg (gweler Watkins 2010 am ystadegau diweddar am y defnydd o systemau Cof Cyfieithu yng nghyd-destun y Gymraeg). Mae systemau Cof Cyfieithu hefyd yn un o gymhorthion electronig pwysicaf y cyfieithydd proffesiynol yn ôl Somers (2003: t. 31) a'r un a ddefnyddir amlaf yn y diwydiant (Reinke 2013: t. 27).

[1] Gweler Quah (2006) am gyflwyniad defnyddiol i wahanol dechnolegau cyfieithu yn gyffredinol.


Esgorwyd ar y syniad y byddai modd datblygu rhaglen gyfrifiadurol i storio ac atgynhyrchu rhannau o destunau a gyfieithwyd eisoes gan gyfieithydd dynol yn y 1970au, yn dilyn syniadau a wyntyllwyd gyntaf gan gyfieithwyr blaengar y cyfnod, sef Arthern (1979) a Melby (1981). Erbyn y 1990au, roedd systemau 'Cof Cyfieithu' (gan ddefnyddio'r term mwyaf cyffredin)[2] ar gael i'w prynu ar y farchnad (Hutchins 1998: t. 9, Somers 2003: t. 31). Mae'r systemau hyn yn debyg iawn i gronfa ddata, sy'n cynnwys corpws o gyfieithiadau a wnaed ynghynt gan gyfieithydd dynol. Prif swyddogaeth systemau Cof Cyfieithu felly yw galluogi cyfieithydd dynol i ailgylchu deunydd y mae wedi ei weld a'i drin eisoes. Bwriad hyn yw cyflymu cyfieithu a lleihau'r ymdrech sydd ynghlwm wrtho, gan fod modd ailddefnyddio cyfieithiadau parod yn hytrach na gorfod cyfieithu'r un segment(au) eto (Prys 2014; Prys a Prys 2015). Sgil-effaith arall defnyddio systemau Cof Cyfieithu yw gwell cysondeb yn y testun a gwell cysondeb rhwng testunau, gan fod y feddalwedd yn medru 'cofio' sut y cyfieithwyd elfennau ieithyddol tebyg yn yr iaith ffynhonnell o'r blaen. Canlyniad hirdymor hyn oll wedyn yw cynnydd yng nghynhyrchiant cyfieithwyr (Comisiynydd y Gymraeg 2012, Prys 2014, Prys a Prys 2015).[3] Mae systemau Cof Cyfieithu yn atgynhyrchu segmentau, neu rannau o segmentau, y maent wedi eu gweld o'r blaen ar ffurf Cyfatebiaethau (*Matches*). Daw systemau Cof Cyfieithu o hyd i'r Cyfatebiaethau hyn gan ddefnyddio algorithm cydweddu, sy'n cymharu'r segmentau ffynhonnell newydd â chyfieithiadau o segmentau ffynhonnell tebyg eraill y mae'r system wedi eu gweld o'r blaen. Er nad yw'r cwmnïau masnachol sy'n datblygu a gwerthu systemau Cof Cyfieithu yn tueddu i gyhoeddi sut y mae eu halgorithmau cydweddu'n gweithio, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn gweithio ar sail algorithm sy'n cymharu tebygrwydd nodau mewn cyfres (Somers 2003: t. 38), sef Pellter Levenshtein (*Levenshtein Distance*). Gall y system Cof Cyfieithu ddod o hyd i dri phrif fath o Gyfatebiaeth gan ddefnyddio'r algorithm cydweddu hwn, ac yn y broses o gynhyrchu'r Cyfatebiaethau mae hefyd yn dosrannu sgôr iddynt ar ffurf canran. Yn fras, ceir Cyfatebiaeth Lawn (neu Gyfatebiaeth Berffaith), Cyfatebiaeth Rannol a Dim Cyfatebiaeth.[4] Mae segmentau ar ffurf Cyfatebiaethau Llawn yn cydweddu'n llwyr i'r segment ffynhonnell newydd (h.y. mae eisoes yn y cof), a chyfeiria 'Dim Cyfatebiaeth' at achosion lle na fu modd i'r system adnabod segment tebyg oherwydd bod y trothwy ar gyfer dod o hyd i'r Cyfatebiaethau yn rhy uchel, neu oherwydd na ddaethpwyd o hyd i ddeunydd yn y cof sy'n cyfateb i'r segment ffynhonnell newydd. Mae Cyfatebiaethau Rhannol yn fwy cymhleth na'r ddau fath arall ac yn cyfuno elfennau o'r ddau; mae Cyfatebiaethau Rhannol yn *eithaf tebyg* i segmentau ffynhonnell newydd ond ceir gwahaniaethau penodol rhwng hen segmentau a segmentau ffynhonnell newydd. Ond er gwaethaf y gwahaniaethau hyn, gallant fod yn ddefnyddiol i'r cyfieithydd o hyd (Bowker 2002: t. 99). Caiff lefel y gyfatebiaeth rhwng hen gyfieithiadau a segmentau ffynhonnell newydd ei chyfleu ar ffurf canran a gall y ganran hon amrywio

2 *Repetitions Processing Tool* oedd enw gwreiddiol y dechnoleg cyn '*Translation Memory*' (Somers 2003: t. 33).

3 Mae'r syniad bod cynnydd mewn cynhyrchiant yn debygol o gael ei weld yn y tymor hir, serch hynny, yn allweddol; nid yw cynnydd mewn cynhyrchiant yn bosibl os nad yw'r gronfa ddata (h.y. y cof cyfieithu) yn cynnwys cyfieithiadau o ansawdd uchel yn y lle cyntaf. Mae datblygu'r cof hwnnw yn digwydd dros gyfnod o amser, os na ddefnyddir adnodd alinio i greu corpws cyfochrog i greu cof newydd (sef *Post-Translation Alignment* yn hytrach nag *Interactive Translation* (cf. Bowker, 2002: tt. 107–11).

4 Mae rhai systemau hefyd yn darparu'r hyn a elwir yn *Context Match* (SDL Trados), *Guaranteed Match* (Déjà Vu X3) a *101% Match* (MemoQ), sef cyfatebiaethau llawn a ymddangosodd hefyd ar ôl y segment diwethaf. Ond mewn gwirionedd, amrywiadau ydynt ar gyfatebiaethau llawn.

o 1% i 99% yn achos Cyfatebiaethau Rhannol (Bowker 2002: t. 99). Mae modd ffurfweddu systemau Cof Cyfieithu i rwydo cyfatebiaethau, neu *rannau* o hen segmentau sy'n cyfateb i *rannau* o segmentau newydd, trwy osod y trothwy i wahanol ganrannau. Bydd gosod y trothwy ar 70% i 99%, er enghraifft, yn debyg o rwydo hen segmentau y mae rhannau ohonynt yn ddigon defnyddiol i gynorthwyo'r cyfieithydd i greu cyfieithiad llwyddiannus, ac o ganlyniad mae defnyddio trothwy o 70% i 99% yn gyffredin. I'r gwrthwyneb, byddai gosod y trothwy yn rhy isel, rhwng 1% i 60% er enghraifft, yn annhebygol iawn o fod yn ddefnyddiol gan y byddai gormod o wahaniaeth rhwng cynnig y cof cyfieithu a'r segment ffynhonnell newydd. Gellir gweld yn Ffigwr 1 uchod ryngwyneb system Cof Cyfieithu poblogaidd. Hefyd, mae modd gweld chwe chyfatebiaeth o wahanol lefelau a gynigiwyd gan y system. Pa effaith a gaiff addasu cyfatebiaethau fel hyn ar y broses gyfieithu? Os am ddarganfod hyn, pa newidynnau dibynnol y dylid eu dewis a sut y medrir eu mesur?




***Ffigwr 1: Cyfatebiaethau yn system Cof Cyfieithu SDL Trados 2015***

### 3. Y broses gyfieithu

Er mwyn dethol pa newidynnau i'w mesur, mae angen diffinio'r broses gyfieithu a'i dadelfennu. Beth sy'n digwydd pan gyfieithir testun o'r naill iaith i'r llall a beth yw'r gwahanol gamau sydd ynghlwm wrth gyfieithu Testun A i Destun B? Yn bwysicach, a yw addasu neu dderbyn cyfatebiaethau o'r cof mewn systemau Cof Cyfieithu yn effeithio ar y camau hyn?

Gellir ystyried cyfieithu yn broses ag iddi dri phrif cam, sef (1) darllen yr iaith ffynhonnell, (2) ffurfio cyfieithiad meddyliol a'i ysgrifennu wedyn trwy broses o gynhyrchu testun, a (3) hunanadolygu lle y caiff yr hyn a gafodd ei gynhyrchu ei wirio, gan amlaf yn syth ar ôl iddo gael ei ysgrifennu. Mae'r disgrifiad bras hwn o'r broses yn debyg i'r disgrifiad a ddefnyddia Englund-Dimitrova (2005) yn ei hastudiaeth empeiraidd o'r broses gyfieithu, ac sydd yn ei dro'n seiliedig ar waith cynharach gan Hayes (1996) ar y broses ysgrifennu unieithog. Gan ddilyn Englund-Dimitrova (2005), amlinellir isod brif gamau'r broses gyfieithu.

### *3.1 Y cam cyntaf – y cyfnod darllen*

Nod cyfieithu ysgrifenedig yw creu testun targed yn iaith B o destun penodol sydd eisoes yn bodoli yn iaith A. Yn wahanol i ysgrifennu unieithog, bydd y cyfieithydd yn seilio ei destun ar destun arall, ac yn hynny o beth bydd perthynas gref rhwng y testun targed (sef y cyfieithiad) a'r testun ffynhonnell y mae'n seiliedig arno. Er mwyn creu'r testun targed hwnnw sy'n gwbl ddibynnol ar y testun ffynhonnell, mae angen caffael ystyr y testun ffynhonnell ac ni ellir gwneud hynny onid ymrwymir yn gyntaf i gyfnod dechreuol a hollol hanfodol, a fydd yn cynnwys darllen y testun ffynhonnell. Mae'r termau a ddefnyddiwyd ar gyfer y rhan gychwynnol hon o gyfieithu'n cynnwys *Orientation Time* (Jakobsen 2002, 2005) a *Translation Onset Time* (Vandepitte et al. 2015). Mae'r strategaethau y mae cyfieithwyr yn eu defnyddio i wneud hyn yn amrywio; bydd rhai'n darllen y testun yn ei gyfanrwydd cyn dechrau ar y broses gyfieithu, a bydd eraill yn penderfynu darllen segment fesul segment (Englund-Dimitrova 2005: t. 24). Serch hynny, ni waeth pa ddull bynnag sy'n well gan y cyfieithydd, mae'r broses hon o ddarllen yr iaith ffynhonnell, y bydd angen trosi ei gwahanol ystyron yn ffyddlon i iaith arall, yn gorfod digwydd bob tro. Mae pwysigrwydd darllen er mwyn medru cyfieithu yn golygu bod darllen-er-cyfieithu yn wahanol i ddarllen arferol; wrth ddarllen bydd cyfieithwyr yn tynnu '*translation relevant information*' ar y cyd â gwybodaeth ieithyddol arferol (ibid.) o'r testun. Byddai cyfieithu, felly, yn amhosibl heb y broses gychwynnol hon. Yn unol â dealltwriaeth Englund-Dimitrova (2005) o'r broses gyfieithu broffesiynol fel proses y gellir ei modelu ar sail model derbyniedig o'r broses ysgrifennu unieithog, yr enw a rydd ar y broses gychwynnol hon yw 'Cynllunio' (yn hytrach na'r ddau derm arall a nodwyd uchod); bydd cyfieithwyr, fel awduron arbenigol, yn *cynllunio* ymlaen llaw yr hyn y byddant yn ei gynhyrchu yn seiliedig ar eu dealltwriaeth o'r testun ffynhonnell. Wrth ddarllen yr iaith ffynhonnell felly, neu rannau ohoni, bydd y cyfieithydd yn cynllunio'r hyn y bydd yn ei gynhyrchu fel cyfieithiad wrth fynd yn ei flaen; bydd cyfieithwyr yn adnabod rhannau o'r segmentau a allai fod yn heriol a byddant yn *dechrau* ffurfio cyfieithiadau posibl i dermau neu i isrannau o'r segment wrth ddarllen. Ar ôl caffael ystyr yr iaith ffynhonnell yn ei chyfanrwydd y bydd y cyfieithydd yn ffurfio cyfieithiad, a chan amlaf ar lefel lai na'r frawddeg neu'r segment y bydd hynny. Bydd y cyfieithydd yn gorfod segmenteiddio'r rhan o'r iaith ffynhonnell sydd dan sylw a chaiff y cyfieithiad ei gynhyrchu wedyn mewn rhannau yn aml. I'r rhan honno o'r broses y troir yn awr.

### *3.2 Segmenteiddio gwybyddol, ymdrech wybyddol a chynhyrchu testun*

Gan ganolbwyntio ar gyfieithu testunau mewn cyd-destun proffesiynol, ni all cyfieithiad fodoli oni chaiff ei ffurfio'n feddyliol yn gyntaf, cyn iddo gael ei gynhyrchu ar sgrîn trwy broses o gynhyrchu testun. Ceir dwy brif nodwedd i'r broses hon gan ddibynnu ar gymhlethdod y dasg gyfieithu. Gall y cyfieithydd ffurfio cyfieithiad meddyliol a'i deipio trwy broses o gynhyrchu testun yn gwbl ddirwystr a didrafferth; bydd y cyfieithydd yn caffael ystyr rhan neilltuol o'r testun ffynhonnell ac yn ei throsglwyddo i'r iaith darged heb unrhyw broblemau, cyn ei chynhyrchu ar y sgrîn. Yr enw ar y math hwn o brosesu gwybyddol wrth gyfieithu yw '*Automatic Processing*' (ibid.), ac wrth i brofiad a gallu cyfieithydd gynyddu, gellir disgwyl hefyd i'w allu i brosesu segmentau bron yn awtomatig gynyddu hefyd. Bydd gwybodaeth y cyfieithydd am ei bâr o ieithoedd yn gwella a bydd ei stôr fewnol o gyfieithiadau y mae wedi eu gwneud o'r blaen yn cynyddu, ac o ganlyniad bydd ei brosesau cyfieithu yn dibynnu i raddau mwy ar gynnwys ei Gof Tymor Hir (*Long*

*Term Memory*).[5] Golyga hyn y gall oddiweddyd cyfyngiadau capasiti'r Cof Gweithredol (*Working Memory*) sydd yn ei dro yn hwyluso prosesau cynhyrchu testun a nodweddir gan absenoldeb cyfnodau o ddiffyg teipio. Yn aml, serch hynny, nodweddir prosesau cyfieithu cyfieithwyr gan nifer o seibiannau mewnol a phatrymau cynhyrchu testun 'herciog', lle y bydd y cyfieithydd yn gorfod stopio ei brosesau cynhyrchu testun cyn ailddechrau eto, ac ati, hyd yn oed ar ôl darllen yr iaith ffynhonnell (cf. Ffigwr 3 isod). Hynny yw, caiff y frawddeg dan sylw ei 'segmenteiddio'; bydd y cyfieithydd yn cynhyrchu cyfieithiad mewn darnau gwybyddol, a chyfetyb y cyfnodau 'tawel' hyn o brosesu gwybyddol i seibiannau 'mewnol'. Mae'r segmenteiddio gwybyddol hwn yn anorfod; gorfodir cyfieithwyr gan gapasiti eu Cof Gweithredol i brosesu brawddegau i'w cyfieithu mewn darnau llai (ibid.: t. 27). Wrth gyflawni tasg, bydd yr ymennydd yn dibynnu ar swyddogaeth y Cof Gweithredol a'i wahanol rannau i gofio elfennau o'r dasg honno, adalw gwybodaeth ieithyddol o'r Cof Tymor Hir trwy gyfrwng y Byffer Cyfnodol a phrosesu'r wybodaeth angenrheidiol (Anderson 2009).

Mae'r broses wybyddol amlweddog hon yn arwain at ymdrech wybyddol (*cognitive effort*); gan fod y graddau y gall y Cof Gweithredol ddelio ag unrhyw nifer o ysgogiadau (*stimuli*) yn gyfyngedig, ac wrth i'r wybodaeth y bydd angen ei phrosesu gynyddu neu wrth i gymhlethdod yr ysgogiad (h.y. darn penodol o'r dasg gyfieithu) gynyddu, cynyddu hefyd y bydd yr ymdrech wybyddol gan y bydd y gwahanol brosesau hyn yn cystadlu am adnoddau gwybyddol y Cof Dynol. Amlyga'r ymdrech wybyddol hon ei hun wedyn ar ffurf cyfnodau o 'seibio' *yn ystod* y broses gynhyrchu. Hynny yw, gan fod yr hyn y gall y Cof Gweithredol ei brosesu o fewn cyfnod penodol yn gyfyngedig, disgwylir i rai tasgau ieithyddol symlach gael eu cwblhau heb lawer o gyfnodau o seibio, ond os bernir bod tasg yn gymhleth gall hyd y seibiannau fod yn hwy neu'n fwy niferus (Kumpulainen 2015). Mae'r cysyniad hwn yn seiliedig ar ddamcaniaethau dylanwadol Butterworth (1980) a Schilperoord (1996).[6] Bydd rhai tasgau ieithyddol cymhleth, megis cyfieithu, yn ddarostyngedig i broses o segmenteiddio gwybyddol lle y gwneir y dasg fesul cam, gan na all y Cof Gweithredol ddosrannu'r un adnoddau gwybyddol i fwy nag un ysgogiad heriol ar yr un pryd (Dragsted 2005: t. 50).[7] Os yw nifer y seibiannau mewn segment yn uchel, ac felly cyfanswm eu hyd hefyd yn uchel, roedd yn rhaid i'r Cof Gweithredol segmenteiddio yn gyson, sy'n golygu mai ymdrech wybyddol uchel a fuddsoddwyd wrth brosesu'r segment. Yng ngeiriau Shreve a Diamond (1997: t. 243):

> Frontal systems may employ the central executive to initiate more effortful processing and allocate attentional and other resources when we become aware of what we might loosely call 'information processing problems'.[8]

---

5 Yn ei ddisgrifiad o'r broses gyfieithu, yr enw a rydd Gile (1995) ar hon yw '*Knowledge Base*' y cyfieithydd, yn hytrach na'r Cof Tymor Hir.

6 Fel y dywed Butterworth (1980: t. 156) '*The more the delays (e.g. pause time), the more cognitive operations (e.g. processing effort) are required by the output*'. Mae'r dyfyniad hwn yn crynhoi craidd cysyniadol y ddamcaniaeth.

7 Gwneir y pwynt hwn gan Newell a Simon (1972: t. 89) hefyd pan ddywedant na all yr ymennydd ddatrys problem yn llwyddiannus wrth wneud tasgau eraill sydd hefyd yn gofyn am sylw'r Cof Gweithredol.

8 Ystyr '*frontal systems*' yw'r llabed flaen a'u swyddogaethau, sef rhan flaenaf yr ymennydd yn y cortecs cerebrol. Mae'n cynnwys nifer o rannau sy'n bwysig i'r broses gyfieithu ac i brosesau ieithyddol yn gyffredinol, gan gynnwys rhan iaith Broca a'r cortecs echddygol (*motor cortex*) sy'n gyrru gweithrediadau gwirfoddol megis teipio. Mae'r llabed flaen yn ganolog i waith y Cof Gweithredol hefyd, ac mae difrod i'r rhan hon o'r ymennydd yn amharu ar nifer o dasgau gwahanol (Anderson 2009: t. 156).

Bydd hynny yn ei dro yn arwain at gynnydd yng nghyfanswm yr amser a dreulir yn seibio yn y segment yn gyffredinol, a llai o amser yn cynhyrchu testun, sef '*reductions in the efficiency with which a particular task is performed*', chwedl Shreve a Diamond (ibid.). Defnyddiwyd y ddamcaniaeth hon hefyd gan ymchwilwyr eraill ym maes Astudiaethau Cyfieithu (cf. Jakobsen 2002, Dragsted 2005, Vandepitte et al. 2015), a hefyd gan ymchwilwyr a ymchwiliodd i'r berthynas rhwng ymdrech wybyddol a'r defnydd o Gyfieithu Awtomatig (cf. Krings 2001, O'Brien 2006a, 2006b, Lacruz a Shreve 2014, Screen 2016).

Ffurfio cyfieithiad meddyliol a chynhyrchu testun yw ail ran y broses gyfieithu felly, ac yn ystod y broses hon y mae'r rhan fwyaf o ymdrech sydd ynghlwm wrth gyfieithu i'w chael (Jakobsen a Jensen 2008, Sharmin et al. 2008, Pavlović a Jensen 2009, Jensen 2011), naill ai o ganlyniad i seibio mwy cyson wrth geisio dod o hyd i gyfieithiad meddyliol ar ôl caffael ystyr yr iaith ffynhonnell, neu oherwydd y gwaith teipio yn gyffredinol. Nodweddir y broses cynhyrchu testun gan seibiannau cyn teipio, sy'n cyd-fynd â segmenteiddio gwybyddol, ac felly bydd hyd a nifer y seibiannau hyn yn ddefnyddiol iawn wrth fesur yr ymdrech wybyddol a fuddsoddwyd yn y dasg gan y cyfieithydd. Nid Englund-Dimitrova (2005) yw'r unig ymchwilydd i adnabod y broses gynhyrchu hon fel un o brif dasgau cyfieithu chwaith; yr enw a rydd Jakobsen (2002) arni yw '*Drafting Phase*' a defnyddia Carl et al. (2010) derm tebyg, sef '*Drafting*'. Dilynir y broses gynhyrchu wedyn gan gyfnod o werthuso, neu 'hunanadolygu'.

### *3.3 Adolygu*

Nid darllen a chynhyrchu testun bob yn ail yw'r unig broses wrth gyfieithu; yn aml caiff y segment gorffenedig ei ddarllen yn ei gyfanrwydd mewn ymgais i wirio'r hyn a gynhyrchwyd. Wrth wneud hynny, bydd y cyfieithydd yn gwirio ei fod yn ramadegol gywir, ond bydd hefyd yn sicrhau bod cywerthedd rhwng y testun ffynhonnell a'r testun targed. Yn ôl Mossop (2014: tt. 183–6), ceir dau fath o 'hunanadolygu' mewn cyd-destun proffesiynol. Bydd y cyfieithydd yn adolygu ei waith ei hun wrth ddrafftio cyfieithiad, fel y dangosir gan y seibiannau terfynol ar ôl y rhan fwyaf o segmentau a broseswyd, ond gall ddigwydd hefyd yn syth ar ôl gwneud drafft cyntaf o'r testun yn ei gyfanrwydd. Yn ychwanegol at hyn, gellir cynnwys trydydd math o adolygu, sef gwirio wrth gynhyrchu (h.y. ar ôl pob segment) *ac* adolygu ar ôl cwblhau drafft cyntaf. Mae'r strategaethau hyn hefyd wedi eu darganfod gan ymchwilwyr eraill ym maes Astudiaethau Cyfieithu; canfu Alves a Vale (2011) fod cyfieithwyr yn tueddu i ffafrio strategaethau adolygu gwahanol, yn debyg i'r hyn a welir yn nata'r astudiaeth gyfredol, a bod y tri math hyn hefyd i'w gweld yn eu hastudiaeth hwythau. Wrth gyfuno technolegau Tracio Llygaid a Chofnodi Trawiadau Bysell, bu modd i Dragsted a Carl (2013) adnabod nifer o strategaethau cyfieithu ac adolygu, y bu 'adolygu wrth fynd' ac 'adolygu ar ôl cwblhau drafft cyntaf' hefyd yn gynwysedig ynddynt. Gall y broses derfynol hon o 'hunanadolygu' hefyd fod yn ymateb awtomatig yn ôl Martín (2012), yn seiliedig ar arbrawf a wnaed gan Duckworth et al. (2002). O ran y broses cynhyrchu testun, bydd y cyfnod hwn o 'hunanadolygu' (a all arwain at newidiadau i'r testun) yn esgor ar 'seibiannau terfynol', neu gyfnodau o ddiffyg teipio ar ddiwedd y segment lle y bydd y cyfieithydd yn darllen ac yn gwerthuso ei waith. Gall hefyd arwain at gyfnod o fynd drwy'r testun eto ar ôl gorffen y segment olaf. Mae enwau y mae ymchwilwyr eraill wedi eu rhoi ar y broses derfynol hon yn cynnwys '*Online*

*Revision*' (Jakobsen 2003), '*Monotoring Pauses*' (Dragsted 2010) a '*Post-editing*'[9] (Carl et al. 2010).

Gyda phrif gamau cyfieithu proffesiynol wedi'u hamlinellu, mae bellach yn bosibl nodi pa newidynnau dibynnol y dylid eu dadansoddi, a sut y medrir eu mesur.

**4. Ymchwilio i effaith systemau Cof Cyfieithu ar gyfieithu o'r Saesneg i'r Gymraeg**

Yn dilyn y drafodaeth am brif isdasgau cyfieithu proffesiynol, nodir isod pa elfennau o'r tasgau hyn sydd o ddiddordeb yn yr astudiaeth hon, cyn mynd ymlaen wedyn i ddisgrifio sut y cânt eu mesur. Ychwanegir hefyd ystyriaeth o amser a chynhyrchiant; er nad ydynt yn rhan o'r broses gyfieithu fel y cyfryw, maent yn newidynnau pwysig o safbwynt yr effaith y gall systemau Cof Cyfieithu eu cael ar brosesau cyfieithu cyfieithwyr proffesiynol. Amlinellir yn Nhabl 1 isod bob Newidyn Dibynnol a ddewiswyd.

| **Newidynnau Dibynnol i'w mesur** | | |
|---|---|---|
| ***Is-dasg*** | ***Newidynnau Dibynnol*** | ***Diffiniad*** |
| Y Cyfnod Darllen | Cyfanswm hyd Seibiannau Cychwynnol a gofnodir cyn unrhyw gynhyrchu testun | Unrhyw seibiant ar ôl i'r segment ymddangos a chyn y trawiad bysell cyntaf yn y segment hwnnw |
| Ffurfio Cyfieithiad Meddyliol a Chynhyrchu Testun | Cyfanswm hyd Seibiannau Mewnol a gofnodir wrth gynhyrchu'r cyfieithiad<br><br>Nifer unrhyw nodau alffaniwmerig a drewir wrth gynhyrchu testun<br><br>Nifer unrhyw fysellau a ddefnyddir i drin a chyrchu testun, a chliciadau llygoden | Unrhyw seibiant ar ôl y trawiad bysell cyntaf a chyn y trawiad bysell olaf<br><br>Unrhyw lythyren, rhif neu atalnodi a gynhyrchir yn y broses o deipio'r testun targed<br><br>Y bysellau DELETE, BACKSPACE, y gwahanydd, y saethau a chyfluniadau CTRL, ar y cyd â chliciadau llygoden |
| Adolygu | Cyfanswm hyd Seibiannau Terfynol a gofnodir wrth ddarllen dros segment a gyfieithwyd<br><br>Amser a dreuliwyd yn adolygu a pherfformio newidiadau ar ôl creu drafft cyntaf | Unrhyw seibiant ar ôl y trawiad bysell olaf ac ymddangosiad y segment nesaf<br><br>Cyfanswm yr amser a gofnodir ar ôl cwblhau drafft cyntaf o *bob* segment |

[9] Ni ddylid drysu'r term hwn ag ôl-olygu cyfieithiadau awtomatig, sef y broses o gywiro allbwn systemau Cyfieithu Awtomatig er mwyn ei wneud yn dderbyniol fel cyfieithiad (Allen 2003: t. 297).

| | | |
|---|---|---|
| Cynhyrchiant | Amser Prosesu | Cyfanswm yr amser a gymerwyd i gwblhau drafft cyntaf o segment neilltuol |
| | Cyfanswm Amser Prosesu | Yr amser a dreuliwyd yn cwblhau drafft gorffenedig, felly cyfieithu + adolygu |
| | Geiriau Fesul Munud | Cyfrifir GFM drwy rannu Cyfanswm yr Amser Prosesu gan gyfanswm nifer y geiriau a broseswyd |

***Tabl 1: Newidynnau Dibynnol***

Gwelir yn Nhabl 1 felly y caiff sawl elfen o waith cyfieithwyr proffesiynol eu mesur. Maent yn cynnwys darllen yr iaith ffynhonnell, eu hymdrech wybyddol wrth gyfieithu, eu prosesau cynhyrchu testun (sef teipio cyfieithiad gan ddefnyddio caledwedd y cyfrifiadur), eu harfer o ddarllen dros eu gwaith, ar y cyd â'r amser y bydd hynny oll yn ei gymryd. Defnyddir Geiriau Fesul Munud hefyd fel metrig i fesur cynhyrchiant. Yr ystyriaeth nesaf yw sut yn union y gellir mesur hyn oll mewn ffordd ddilys a manwl gywir, a hynny heb ymyrryd yn ormodol yng ngwaith y cyfieithydd. Pwnc yr adran nesaf fydd dull ymchwil o'r enw Cofnodi Trawiadau Bysell a sut y mae wedi'i gymhwyso at y Gymraeg.

## 5. Cofnodi Trawiadau Bysell fel dull ymchwil

Diffinnir Cofnodi Trawiadau Bysell a sut y mae'r dull ymchwil arbennig hwn yn gweithio yn Adran 5.1 isod. Yna, yn Adran 5.2, manylir ar un Cofnodwr Trawiadau Bysell penodol, cyn disgrifio'n fanwl yn Adran 6 sut y cafodd ei ddefnyddio.

### *5.1. Diffinio Cofnodi Trawiadau Bysell*


Mae mynd i'r afael â chwestiwn ymchwil yr erthygl hon yn golygu bod angen defnyddio dull ymchwil o'r enw Cofnodi Trawiadau Bysell (*Keystroke Logging*). Diffinnir Cofnodi Trawiadau Bysell fel y broses o gofnodi ar gyfrifiadur, trwy feddalwedd arbenigol, brosesau cyfansoddi testun unigolyn, lle y cofnodir gweithrediadau cynhyrchu testun megis teipio nodau alffaniwmerig, dileu a mewnosod testun ar y cyd â'r amser y digwyddodd y gweithrediadau hyn (Miller a Sullivan 2006: t. 1). Gan fod y feddalwedd yn cofnodi gweithrediadau cynhyrchu testun wrth i'r testun gael ei gyfansoddi, defnyddir dau derm ar gyfer y weithred o gofnodi prosesau awduro unigolyn, sef Monitro Cynhyrchu Testun a Chofnodi Trawiadau Bysell. Penderfynwyd defnyddio un term yma er cysondeb, sef Cofnodi Trawiadau Bysell.

### *5.2 Translog II*

Mae Cofnodi Trawiadau Bysell yn fethodoleg boblogaidd yn y maes ymchwil ar y broses ysgrifennu unieithog hefyd, ac i'r maes ymchwil hwn y perthyn y rhan fwyaf o systemau Cofnodi Trawiadau Bysell, gydag *Inputlog 6.0* yn eu plith (cf. Leitjen a Van Waes 2013). Serch hynny, canolbwyntia'r adran hon ar *Translog II*, sef y system Cofnodi Trawiadau Bysell

a grëwyd yn benodol ar gyfer ymchwilwyr empeiraidd ym maes Astudiaethau Cyfieithu a'r un a ddewiswyd ar gyfer yr astudiaeth hon. Yn 1999 y cyhoeddwyd y fersiwn gyntaf o *Translog*. Mae *Translog II* yn ddull ymchwil poblogaidd ym maes Astudiaethau Cyfieithu erbyn hyn, a bu sawl fersiwn ohono (cf. Jakobsen 2006: tt. 96–7). Disgrifir *Translog II* isod. Mae'r disgrifiad yn seiliedig ar erthygl y datblygwr (cf. Jakobsen 2006).

Nod *Translog II* yw cofnodi pa fysellau a bwyswyd ar fysellfwrdd, ar y cyd â'r union amser (mewn milieiliadau) y pwyswyd y bysellau hyn, ac unrhyw seibiannau a geir rhyngddynt. Ni all *Translog II* gofnodi'r hyn a deipiwyd y tu allan i'r rhaglen, nac ychwaith weithrediadau cyfrifiadurol y cyfranogwr mewn rhaglenni eraill, e.e. porwyr gwe. Pa fysellau a phryd, felly, yn ogystal â'r amser a dreulir yn seibio, yw'r hyn y gellir ei gofnodi gyda *Translog II*. Mae gan *Translog II* ddwy ran annibynnol a chanddynt eu rhyngwyneb defnyddiwr eu hunain; sef *User* a *Supervisor*, ill dwy â'u swyddogaethau gwahanol. Crëir y prosiect ar gyfer y cyfranogwyr yn y rhan *Supervisor*, a gwneir yr arbrawf ei hun yn y rhan *User*. Bydd *User* yn arddangos y testun ffynhonnell (neu rannau ohono yn unol â sut y mae wedi'i segmenteiddio, os o gwbl), ac wedi i *Start Logging* gael ei bwyso, arddangosir sgrîn gyfochrog gyda'r testun ffynhonnell naill ai ar y brig neu ar y chwith. Ar ochr y sgrîn nad yw'n cynnwys y testun ffynhonnell (testun nad oes modd i'r cyfranogwr ei newid), bydd sgrîn wag yn barod ar gyfer cyfieithiadau'r cyfranogwr. Ar ôl gorffen a chlicio *Stop Logging*, disgwylir i gyfranogwyr gadw'r ffeil.




***Ffigwr 2: Rhyngwyneb* User*. Mae'r cyfranogwyr yn gweld y sgrîn hon yn yr arbrofion.***

Wrth i'r cyfranogwr gyflawni'r tasgau a grëwyd ar ei gyfer ymlaen llaw, bydd *Supervisor* yn casglu'r data ac yn eu dadansoddi. Arddangosir y data hyn wedyn naill ai yn y Swyddogaeth Ailchwarae (*Replay Function*), yr Ystadegau (*Statistics*) neu yn y Cynrychioliad Llinellol (*Linear Representation*). Yn y Swyddogaeth Ailchwarae, mae modd gwylio fideo mewn amser real o'r holl broses gyfieithu, o ddechrau'r cyfieithiad hyd at y

broses adolygu. Mae modd gweld popeth a wnaed wrth gynhyrchu testun, ac mae modd stopio’r recordiad ar unrhyw adeg yn ystod y broses o gyfansoddi testun a’i ailddechrau. Mae’r swyddogaeth hon yn caniatáu i’r ymchwilydd wylio sgrîn y cyfieithydd wrth iddo weithio ar gyfieithiad, sy’n darparu cyfle heb ei ail i ymchwilwyr sy’n ymddiddori yn y broses gyfieithu. Dengys Cynrychioliad Llinellol y *Supervisor* yr hyn a ddigwyddodd yn ystod y broses o gyfansoddi testun, mewn perthynas â’r bysellau a deipiwyd, pa bryd y’u teipiwyd, ynghyd ag unrhyw seibiannau rhwng cyfnodau o gynhyrchu testun:

(Start)•••••••Cyhoeddwyd•••adroddiad•gan•yr•UE•yr•wythnos•hon••••••
••◄••◄a•nodd◄pdd◄◄◄odd••••fod•dfr◄◄ros••••hanner•cymunedau•
De•Cy,r◄◄•mru•yn•ddifreint••edig.••(NextUnit)(Return)•••↓↓(•27.550)Canfu’
r•adoropd◄◄◄◄◄roddiad••fod••◄◄◄◄bod•dros••23%•o•garter◄◄refi•
mewn•••tlodi•tanwydd.••Golyga•hyn•na•allant•••••••f•◄•••••••dalu•e
u•bb•◄iliau•yni◄ni.(NextUnit)(Return)•••••••Mae•63•%•o•b;◄lant•ysgol•he
fyd•yn•derbyn•prydau•ysgol•am◄,m•◄◄◄m•ddim•,••••••••◄◄.•Ma’e◄
◄e’◄’r•ffigwr•hwn•wedi•dyblu•ers•(•11.669)cyhoeddi’r•adroddiad•ddw◄iw
ethaf•yn•2021◄◄13.(NextUnit)(Return)••••\maer◄◄◄◄◄Mae•Llyu◄wodre
◄aeth•Cymru•wedi•nodi•ei••f◄bpd•◄◄◄od••yn•••gwneud•••••pop•e
rth◄◄◄th•o•frw◄◄ewn•ei•gallu••i•atal•••amm◄•••ddifadedd•••••◄◄-
◄◄◄◄◄◄◄◄◄◄◄◄◄◄•••◄••◄◄•i•drec••◄◄◄◄◄•••a◄•atal•amddif
adedd••••gha◄◄an••ba◄enodi•gweinidog••••i•fymnd•◄◄◄◄bnd◄◄◄n
d•i’tr◄◄r•afaell•◄◄•a’r•bor◄◄roblem.(NextUnit)(Return)••••••H◄•Gan•fod•
y•gw•ein•idog•wedi•bod•yn•ei•le•ers•2010•,k•◄◄•mae’n•amlwg•fod•a••••
••◄◄◄◄◄••fod•my•◄◄wy•angen•ei•wneud••os•y◄◄◄◄eto•yw◄◄os•yw
’r•bg◄roblem•am•gael•ei•datruys◄◄

***Ffigwr 3: Cynrychioliad Llinellol* Supervisor**

Mae modd gweld llif gwybyddol y cyfranogwr drwy archwilio’r cynrychioliad hwn. Mae pob smotyn yn cyfateb i un eiliad, ac mae’r rhifau rhwng cromfachau hefyd yn ddata seibiannol. Gellir gweld, er enghraifft, fod sawl smotyn *ar ddechrau’r* segment; cyfetyb hynny i’r Cyfnod Darllen, lle y bydd cyfieithydd yn darllen segment ffynhonnell cyn bwrw ati i’w gyfieithu. Gwelir hefyd fod smotiau *yn* y segment; dengys hynny lle y mae’r cyfranogwr wedi gorfod atal ei brosesau teipio er mwyn ffurfio cyfieithiad meddyliol.

| Symbol | Ystyr |
|---|---|
| (Start) | Mae’r sesiwn wedi dechrau |
| ◄ | ‘BACKSPACE’ (Dileu Nod) |
| (Delete) | Pwyswyd y fysell ‘DELETE’ ar y fysellfwrdd (yn hytrach na ‘BACK-SPACE’) |
| (Interface) | Symudwyd ffenest Translog II ar y sgrîn gan y cyfranogwr |
| (▼)(▲)(▼)(▲) | Cliciwyd y llygoden unwaith |
| → | Cliciwyd y saeth ar y fysellfwrdd er mwyn symud trwy’r testun |
| ← | Cliciwyd y saeth ar y fysellfwrdd er mwyn symud trwy’r testun |
| • (coch) | Seibiant o 1.5 eiliad yn y broses gynhyrchu |
| • | Seibiant o 1 eiliad, nas defnyddiwyd wrth ddadansoddi’r Ymdrech Wybyddol |

| | |
|---|---|
| (NextUnit) | Pwyswyd y fysell angenrheidiol i weld y segment nesaf |
| arbedion | Teipiwyd yr union lythrennau hyn |
| (•14.430) | Cafwyd seibiant estynedig o 14 eiliad a 430 milieiliad |
| (Return) | Pwyswyd 'RETURN' |
| (Stop) | Pwyswyd 'Stop Logging' a daeth y sesiwn i ben |

***Tabl 2: Allwedd i symbolau'r Cynrychioliad Llinellol***

Crea *Supervisor* 'Ystadegau' hefyd, sef data rhifol o dan ddau bennawd, '*Events*' a '*Time*'. Cofnoda'r rhaglen sawl gwaith y cafodd y bysellau a restrir yn y tabl uchod eu taro, ac mae hefyd yn cofnodi data amseryddol am y broses. Er enghraifft, os oes rhif '8' ar ôl *Text Elimination*, golyga hyn i'r cyfranogwr ddileu 8 nod 8 o weithiau. Mae'r data hyn yn ymwneud yn fwy â gweddau ymarferol cynhyrchu testun, sef teipio ac amser y dasg, yn hytrach na'i wedd wybyddol, sef y seibiannau a gofnodir.

Heblaw am y metrig ar gyfer cynhyrchiant cyfieithwyr a ddewiswyd, sef Geiriau Fesul Munud, gall dull ymchwil Cofnodi Trawiadau Bysell a'r feddalwedd *Translog II* fesur pob Newidyn Dibynnol a ddisgrifiwyd uchod yn Nhabl 1. Eir i'r afael yn Adran 6 â dyluniad yr arbrawf a gynhaliwyd.

**6. Methodoleg**

Cymerodd naw chyfieithydd proffesiynol sy'n aelodau profiadol o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru ran yn yr arbrawf. Ni ellid cymryd rhan yn yr arbrawf os nad oedd y darpar gyfranogwr yn aelod o Gymdeithas Cyfieithwyr Cymru ar lefel Sylfaenol o leiaf ac yn ennill bywoliaeth fel cyfieithydd, gan gydymffurfio â diffiniad Palumbo (2009: tt. 93–5) o gyfieithydd proffesiynol. Crëwyd Grŵp Rheoli (n=4) a fyddai'n cyfieithu'r testun (Atodiad I), a Grŵp Arbrofol (n=4) a fyddai'n addasu 11 Cyfatebiaeth Rannol (Atodiad II) yn seiliedig ar yr un testun. Bu'n rhaid diystyru data un cyfranogwr oherwydd iddo ddifetha ei ddata. Penderfynwyd peidio â defnyddio Cynllun Ailadrodd Mesurau oherwydd bygythiad Effeithiau Ymarfer, sef y posibilrwydd y byddai gwybodaeth a gasglwyd am y testun wrth addasu deunydd o'r cof yn effeithio ar sut y byddai'r cyfranogwr yn cyfieithu wedyn, ac i'r gwrthwyneb. Er mwyn creu'r cyfatebiaethau ar gyfer yr arbrawf, defnyddiwyd *Déjà Vu X3 Professional*. Mewngludwyd cof cyfieithu Bwrdd yr Iaith Gymraeg o faes Adnoddau Dynol, sydd ar gael i'r cyhoedd am ddim, i'r system Cof Cyfieithu (Bwrdd yr Iaith Gymraeg 2009). Er mwyn creu'r Cyfatebiaethau Rhannol, cafodd testun o'r cof ei gopïo a'i ludo i ddogfen MS Word ac addasodd yr awdur y testun, gan ddileu ac ychwanegu elfennau o'r segmentau. Yna, crëwyd prosiect yn *Déjà Vu X3 Professional* gan ddefnyddio'r ddogfen hon. Adnabu'r system rannau o'r brawddegau yn y ddogfen, a chynhyrchwyd 11 o Gyfatebiaethau Rhannol. Roedd canran y Cyfatebiaethau hyn i gyd rhwng 70% a 99%. Gofynnwyd i'r Grŵp Arbrofol addasu set o Gyfatebiaethau Rhannol o system cof cyfieithu, a chyfieithodd y Grŵp Rheoli 11 segment ond heb gymorth deunydd o gof cyfieithu; y Newidyn Annibynnol felly oedd y defnydd neu ddiffyg defnydd o Gyfatebiaethau Rhannol rhwng 70% a 99%. Pwnc y testun oedd polisi Gwe2.0 sefydliadau. Wrth iddynt gwblhau'r tasgau ar gyfrifiadur bwrdd gwaith, cafodd eu trawiadau bysell a'r amser y digwyddodd y trawiadau hyn eu cofnodi gan *Translog II*, gan gynnwys y cyfnodau o seibio fesul 1.5 eiliad ar y cyd â chyfanswm yr amser a dreuliwyd yn prosesu testun. Defnyddiwyd seibiannau


o 1.5 neu'n uwch fel trothwy oherwydd cysylltiad seibiannau sy'n uwch na'r trothwy hwn â chapasiti damcaniaethol y Cylch Ffonolegol, sef y rhan o'r Cof Gweithredol sy'n gyfrifol am storio gwybodaeth ieithyddol yn y tymor byr. Wrth iddynt gyfieithu neu gywiro'r cyfatebiaethau yn *Translog II*, disgwyliwyd i'r cyfranogwyr bwyso `ESC' ar y bysellfwrdd er mwyn gweld y segment nesaf, unwaith iddynt benderfynu eu bod wedi gorffen prosesu'r segment blaenorol. Galluogodd hyn yr awdur i ddadansoddi'r broses gyfieithu fesul segment ac ar lefel y testun cyfan. Cafodd sgrîn pob cyfranogwr ei recordio hefyd. Ni osodwyd terfyn amser ar gyfer cwblhau'r tasgau a chaniatawyd i'r cyfranogwyr ddefnyddio geiriaduron electronig.

## 7. Canlyniadau

Disgrifir isod ganlyniadau'r arbrawf. Dilynir hyn wedyn gan drafodaeth am arwyddocâd y darganfyddiadau.

### *7.1 Y Cyfnod Darllen*


Treuliodd aelodau'r Grŵp Arbrofol fwy o amser yn y cyfnod dechreuol o gynhyrchu cyfieithiad nag a wnaeth aelodau'r Grŵp Rheoli. Mae'n gymharol hawdd esbonio'r gwahaniaeth amseryddol ar ffurf seibiannau cychwynnol sy'n cyfateb i'r Cyfnod Darllen rhwng addasu'r cof a chyfieithu; wrth addasu'r cof, disgwylir i'r cyfieithydd ddarllen dau destun yn hytrach nag un ac mae'r disgwyliad ychwanegol hwn yn ymestyn y broses gychwynnol. Mae pwysigrwydd gwirio cywirdeb cynnig y cof cyfieithu ar ffurf y Cyfatebiaethau yn golygu bod yr amser a dreulir yn darllen cyn bwrw ati i gynhyrchu yn hwy. Roedd y gwahaniaeth hwn hefyd o arwyddocâd ystadegol ($U$ = 1,508.5, $p$ = .000, Canolrif y Grŵp Rheoli = 3.75, Canolrif y Grŵp Arbrofol = 10.5). Dengys Ffigwr 4 isod y gwahaniaeth rhwng y ddau grŵp:




***Ffigwr 4: Cyfanswm yr Amser Darllen cyn 'Cynhyrchu'***

### *7.2 Segmenteiddio gwybyddol a chynhyrchu testun*

Cafodd y defnydd o'r cof cyfieithu effaith sylweddol ar y broses o ffurfio cyfieithiad meddyliol, ac effeithiodd hefyd ar brosesau cynhyrchu testun yn gyffredinol, sef teipio cyfieithiad. Wrth ddadansoddi data seibiannau mewnol y ddau grŵp a gynhyrchodd gyfieithiad o dan y ddwy amod wahanol, mae gwahaniaethau clir ac amlwg i'w gweld rhwng y ddwy set o seibiannau mewnol. Treuliwyd llawer llai o amser yn seibio *ar ôl* y Cyfnod Darllen wrth addasu'r cof nag a dreuliwyd wrth gyfieithu heb allbwn o'r cof cyfieithu. Yn dilyn y drafodaeth am yr ymdrech wybyddol yn seiliedig ar y duedd i seibio er mwyn canolbwyntio ar un elfen benodol o'r segment oherwydd capasiti storio cyfyngedig y Cof Gweithredol, gellir dadlau ar sail hynny y gall cyfieithu heb allbwn o'r cof cyfieithu fod yn dasg wybyddol anos. Hynny yw, mae addasu allbwn systemau Cof Cyfieithu, yn ôl canlyniadau'r arbrawf rheoledig hwn, yn lleihau'n sylweddol yr ymdrech wybyddol sydd ynghlwm wrth gyfieithu, a hynny oherwydd bod y broses wybyddol o ffurfio cyfieithiad meddyliol yn cael ei lleihau:





**Ffigwr 5: Seibiannau Mewnol a gofnodwyd ar gyfer y ddau grŵp o gyfieithwyr**

Dengys y llinell ddu yng nghanol y blychau llwyd yn Ffigwr 5 ganolrif y ddwy set o ddata. Darganfuwyd gwahaniaeth o arwyddocâd ystadegol rhwng y ddwy set o seibiannau mewnol a gofnodwyd o dan y ddwy amod hefyd; canlyniad prawf Mann-Whitney U oedd *U* = 450.500, *p*. = 000, Canolrif y Grŵp Rheoli = 28.5, Canolrif y Grŵp Arbrofol = 11.25.

Mewn perthynas â chynhyrchu cyfieithiad trwy ddefnyddio caledwedd y cyfrifiadur, darganfuwyd tuedd amlwg; cynhyrchodd y Grŵp Arbrofol a addasodd y Cyfatebiaethau Rhannol lai o nodau alffaniwmerig na'r Grŵp Rheoli a gyfieithodd heb gymorth allbwn o'r cof cyfieithu. Penderfynwyd canolbwyntio ar nodau alffaniwmerig oherwydd mai nodau, nid geiriau, sy'n cael eu cofnodi gan y feddalwedd cofnodi trawiadau bysell a

ddewiswyd. Wrth reswm, os caiff llai o nodau alffaniwmerig eu cynhyrchu (y mae'r fwyaf ohonynt yn cynnwys llythrennau), yna bydd nifer y geiriau a gaiff eu cynhyrchu hefyd yn llai. Dengys Ffigwr 6 isod y gwahaniaeth amlwg rhwng y Grŵp Arbrofol (Bariau Coch) a'r Grŵp Rheoli (Bariau Gwyrdd):




***Ffigwr 6: Nodau alffaniwmerig a gynhyrchwyd wrth gyfieithu ac wrth addasu'r Cof***

Darganfuwyd perthynas o arwyddocâd ystadegol hefyd rhwng y ddau grŵp; canlyniad prawf Mann-Whitney U oedd $U$ = 1.000, $p$ = .000, Canolrif y Grŵp Rheoli = 115.5, Canolrif y Grŵp Arbrofol = 9. Gan droi at drydydd Newidyn Dibynnol Cynhyrchu Testun, sef y defnydd o fysellau i drin, addasu a chyrchu testun, daeth i'r amlwg bod y defnydd o systemau Cof Cyfieithu, ynghyd â'r gwaith hanfodol o 'drwsio'r' cyfatebiaethau y maent yn eu cynhyrchu, yn arwain at fwy o ddefnydd o fysellau sy'n ymwneud â symud, addasu, dileu ac ailgylchu testun sydd eisoes ar y sgrîn. Yr enw ar y math hwn o gynhyrchu testun yw Cynhyrchu Testun Anlinellol, sef proses o addasu testun sy'n bodoli eisoes mewn modd dychweliadol gan symud yn ôl ac ymlaen trwy'r testun, yn hytrach na theipio'n ddirwystr (sef Cynhyrchu Testun Llinellol) (cf. Eklundh 1994: t. 203). Wrth gymharu canlyniadau prawf ystadegol amharamedrig Mann-Whitney U i fesur y tri phrif amlygiad o brosesau cynhyrchu testun anlinellol rhwng y Grŵp Rheoli ac Arbrofol, sef nifer y cliciadau llygoden ($U$ = 1,228, $p$ = .025, Canolrif y Grŵp Rheoli = 1, Canolrif y Grŵp Arbrofol = 1.5) a nifer y trawiadau cyrchu testun, sef bysellau saeth, Bar Gofod a chyfluniadau CTRL ($U$ = 1,245, $p$ = .014, Canolrif y Grŵp Rheoli = 0, Canolrif y Grŵp Arbrofol = 6.5), gwelir bod y gwahaniaeth rhwng cyfieithu ac addasu'r cof o arwyddocâd ystadegol a bod addasu Cofion Cyfieithu yn newid prosesau cynhyrchu testun yn sylweddol. O ran dileu testun serch hynny (defnydd o 'BACKSPACE' a 'DELETE'), tueddodd y cyfieithwyr yn y Grŵp Rheoli i ddileu testun yn amlach na'r cyfieithwyr yn y Grŵp Arbrofol, ac roedd y gwahaniaeth hwnnw o arwyddocâd ystadegol ($U$ = 685, $p$ = .018, Canolrif Grŵp Rheoli = 9.5, Canolrif y Grŵp Arbrofol = 4).


Cyflwyna Tabl 3 isod nifer yr holl drawiadau bysell a gofnodwyd ar gyfer pob cyfranogwr yn y ddau grŵp. Cyfeiria 'Cyrchu Testun' at gyfluniadau CTRL, y saethau, a'r gwahanydd.

| Seg. | Grŵp Rheoli (Cyfieithu) | | | | | Grŵp Arbrofol (Addasu'r Cof) | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | Nodau a gynhyrch-wyd | Dileu Testun | Clic-iadau | Cyrchu Testun | Cyfanswm Gweithred-iadau | Nodau a gynhyrch wyd | Dileu Testun | Clic-iadau | Cyrchu Testun | Cyfanswm Gweithred-iadau |
| **1** | 536 | 62 | 12 | 206 | 816 | 19 | 35 | 5 | 114 | 173 |
| **2** | 386 | 70 | 10 | 5 | 471 | 6 | 19 | 5 | 61 | 91 |
| **3** | 516 | 41 | 5 | 2 | 564 | 35 | 23 | 8 | 17 | 83 |
| **4** | 1017 | 67 | 8 | 77 | 1169 | 101 | 127 | 17 | 148 | 393 |
| **5** | 331 | 12 | 4 | 0 | 347 | 50 | 35 | 3 | 22 | 110 |
| **6** | 373 | 73 | 9 | 87 | 542 | 62 | 34 | 3 | 49 | 148 |
| **7** | 510 | 77 | 1 | 40 | 628 | 91 | 43 | 6 | 125 | 265 |
| **8** | 363 | 16 | 3 | 0 | 382 | 48 | 38 | 8 | 8 | 102 |
| **9** | 482 | 53 | 8 | 119 | 662 | 68 | 38 | 8 | 156 | 270 |
| **10** | 306 | 22 | 2 | 0 | 330 | 46 | 46 | 13 | 48 | 153 |
| **11** | 551 | 101 | 5 | 97 | 754 | 50 | 60 | 13 | 88 | 211 |
| **Cymedr** | 488 | 488 | 488 | 488 | 488 | 52 | 52 | 52 | 52 | 52 |
| **Canolrif** | 482 | 482 | 482 | 482 | 482 | 50 | 50 | 50 | 50 | 50 |
| ***Gwyriad Safonol*** | *187* | *27* | *3* | *64* | *234* | *27* | *27* | *27* | *27* | *27* |

***Tabl 3: Yr holl drawiadau bysell a gofnodwyd***

Ond er gwaethaf y cynnydd a welwyd yn nata'r Grŵp Arbrofol mewn perthynas â bysellau'n ymwneud â phrosesau cynhyrchu testun anlinellol, os ystyrir *cyfanswm* y bysellau y cawsant eu taro gan bob cyfranogwr yn y ddau grŵp, daw'n glir bod cywiro Cyfatebiaethau Rhannol systemau Cof Cyfieithu yn lleihau'r gwaith o deipio cyfieithiad gorffenedig yn sylweddol. Dengys Ffigwr 7 y duedd hon yn glir.


Gellir casglu o hyn hefyd mai teipio nodau alffaniwmerig wrth gynhyrchu geiriau yw'r *brif* ymdrech wrth gynhyrchu cyfieithiad ar wahân i'r broses o ffurfio cyfieithiad meddyliol, a bod nifer y geiriau a gynhyrchir wrth addasu allbwn Cofion Cyfieithu o fewn y trothwy 70% i 99% yn llai o lawer na nifer y geiriau y bydd angen eu cynhyrchu wrth gyfieithu.




***Ffigwr 7: Cyfanswm yr holl fysellau a gawsant eu taro wrth gyfieithu ac addasu'r Cof***

### *7.3 Adolygu*

Tueddodd y rhai a addasodd y Cyfatebiaethau Rhannol i hunanadolygu'n amlach ac am gyfnodau hwy yn syth ar ôl gorffen cyfieithu segment neilltuol (fel y dangosir gan hyd y seibiannau terfynol a gofnodwyd), ac o ganlyniad treuliasant lawer llai o amser wedyn yn adolygu ar ôl gorffen y testun yn ei gyfanrwydd. Roedd y gwahaniaeth hwn hefyd o arwyddocâd ystadegol ($U$ = 1,275, $p$ = .000, Canolrif y Grŵp Rheoli = 1.5, Canolrif y Grŵp Arbrofol = 3). Gellir gweld y duedd hon yn glir yn Ffigwr 8 isod:




***Ffigwr 8: Canolrif y Seibiannau Terfynol***

Mae amrywiaeth i'w chael rhwng pob cyfranogwr, ond eto mae'r brif duedd i'w gweld yn glir; tueddodd y cyfieithwyr yn y Grŵp Rheoli i adael yr adolygu tan ar ôl gorffen y testun yn ei gyfanrwydd. Pe na baent wedi penderfynu gohirio'r broses hanfodol hon o adolygu tan ddiwedd y cyfnod drafftio, mae'n ddigon posibl y byddai eu data seibiannau terfynol yn debyg i eiddo'r Grŵp Arbrofol. Penderfynodd 50% o'r Grŵp Arbrofol i beidio â darllen dros eu testunau gorffenedig drachefn; cofnodir hynny yn y tabl gan 'DA' (Dim Adolygu).


| | Grŵp Arbrofol | | | | Grŵp Rheoli | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfranogwr | 1 | 2 | 3 | 4 | 5 | 7 | 8 | 9 |
| Amser | 00:01:44 | DA | DA | 00:03:12 | 00:11:24 | 00:15:22 | 00:02:41 | 00:05:31 |

***Tabl 4: Amseroedd Adolygu Terfynol y ddau grŵp***

Daw hynny â ni at y Newidyn Dibynnol olaf sydd o ddiddordeb yma, sef Amser a Chynhyrchiant. A yw addasu Cyfatebiaethau Rhannol o system Cof Cyfieithu sydd â chanran cyfatebiaeth rhwng 70% a 99% yn cyflymu'r broses gyfieithu, a beth a ddywed hyn am gynhyrchiant?

### *7.4 Amser a Chynhyrchiant*


Pan addaswyd yr 11 Cyfatebiaeth Rannol gan y pedwar cyfieithydd proffesiynol yn y Grŵp Arbrofol (Bariau Gwyrdd, Ffigwr 9), roedd eu hamseroedd prosesu drafft (sef yr amser a gymerwyd i gynhyrchu cyfieithiad drafft o'r testun cyn ei adolygu) yn llai o lawer nag eiddo'r cyfieithwyr nad addasodd y Cyfatebiaethau hyn yn y Grŵp Rheoli (Bariau Coch, Ffigwr 9):




***Ffigwr 9: Amseroedd Prosesu Drafft***

Roedd y gwahaniaeth rhwng amseroedd prosesu drafft y ddau grŵp a gyfieithodd o dan y ddwy amod hefyd o arwyddocâd ystadegol yn ôl prawf Mann-Whitney U ($U$ = 396.00, $p$ = .000, Canolrif y Grŵp Rheoli = 73.5, Canolrif y Grŵp Arbrofol = 36.5).

Wrth ystyried *Cyfanswm* yr Amser Prosesu, sef cyfanswm yr amser a gymerwyd gan bob cyfranogwr i gynhyrchu cyfieithiad gorffenedig (cyfieithu/addasu ar y cyd ag amser adolygu ar ôl cwblhau drafft), mae'r duedd yr un mor amlwg, fel y dengys Ffigwr 10:




***Ffigwr 10: Cyfanswm amser prosesu pob cyfieithydd o dan y ddwy amod***

Mae'r Amser Prosesu ond yn un ystyriaeth bwysig mewn perthynas â chynhyrchiant cyfieithwyr. Mae angen gofyn: a fyddai cyfieithwyr sy'n defnyddio systemau Cof Cyfieithu yn eu llifoedd cyfieithu proffesiynol yn cynyddu nifer y geiriau y maent yn eu cynhyrchu fesul uned benodol o amser hefyd? Pa effaith a all systemau Cof Cyfieithu ei chael felly ar gynhyrchiant y cyfieithydd Cymraeg?


Un metrig derbyniedig yn y diwydiant cyfieithu ar gyfer mesur cynhyrchiant yw Geiriau Fesul Munud (GFM), sef faint o eiriau a gynhyrchir fesul munud. Fe'i cyfrifir yma fel a ganlyn:

$$Cynhyrchiant = \frac{Nifer\ y\ Geiriau\ yn\ yr\ Iaith\ Ffynhonnell}{Cyfanswm\ Amser\ Prosesu}$$

***Ffigwr 11: Yr hafaliad a ddefnyddir i gyfrifo cynhyrchiant cyfieithwyr***

Wrth gymhwyso'r hafaliad hwn at y data a gasglwyd yn yr arbrawf, mae'r duedd unwaith yn rhagor yn glir iawn; roedd cynhyrchiant y Grŵp Arbrofol a addasodd y Cyfatebiaethau Rhannol, yn ôl y metrig GFM, yn uwch o lawer nag eiddo cyfieithwyr y Grŵp Rheoli.

Dengys Ffigwr 12 y gwahaniaethau mawr rhwng y Grŵp Arbrofol a'r Grŵp Rheoli mewn perthynas â chynhyrchiant:




***Ffigwr 12: Geiriau Fesul Munud y ddau grŵp fesul cyfranogwr***

**8. Diweddglo**

Bwriad yr erthygl hon oedd dadansoddi'r effaith y mae'r defnydd o systemau Cof Cyfieithu yn ei gael ar y broses gyfieithu broffesiynol, ac er mwyn gwneud hynny defnyddiwyd dull ymchwil na ddefnyddiwyd o'r blaen yng nghyd-destun cyfieithu a'r Gymraeg hyd wybodaeth yr awdur, sef Cofnodwr Trawiadau Bysell o'r enw *Translog II*.[10] Trwy brif gwestiwn ymchwil yr erthygl, gofynnwyd hefyd a yw Cofion Cyfieithu yn arwain at arbedion gwybyddol wrth gyfieithu, ac a yw'r defnydd ohonynt yn gwneud y broses gyfieithu yn fwy effeithlon mewn perthynas â chynhyrchu testun, arbedion amseryddol a chynhyrchiant. Wrth wneud hyn, ceisiwyd cyfrannu o safbwynt y Gymraeg *yn y Gymraeg* at ymchwil empeiraidd ar y broses gyfieithu fel y mae'n digwydd mewn cyd-destunau proffesiynol, sy'n un o brif feysydd ymchwil Astudiaethau Cyfieithu erbyn hyn (cf. O'Brien a Saldanha 2013).[11]

Darganfuwyd bod addasu'r cof yn tueddu i ymestyn y broses 'gynllunio', lle y bydd y cyfieithydd yn darllen am ystyr. Damcaniaethwyd bod yr angen i wirio'r Cyfatebiaethau am gamgyfieithiadau'n gyfrifol am hyn. Sylwyd hefyd fod y broses derfynol o ddarllen dros segment yn syth ar ôl cwblhau'r cyfieithu yn fwy cyffredin yn achos y rhai a addasodd allbwn y cof cyfieithu. Serch hynny, mae'n debyg mai strategaeth adolygu bersonol oedd

10 Ceir sôn am gofnodi trawiadau bysell gan Watkins (2013) yn ei draethawd doethurol am systemau Cof Cyfieithu a'r Gymraeg. Hoffwn ddiolch i'r arfarnwr am dynnu hyn at fy sylw.

11 Cydnabyddir bod y grŵp yn un gweddol fychan, ond bu dod o hyd i gyfieithwyr proffesiynol y Gymraeg yn her. Yn ogystal, mae grwpiau ym maes Astudiaethau Cyfieithu empeiraidd yn tueddu i fod yn fach oherwydd argaeledd cyfieithwyr proffesiynol yn gyffredinol, pwynt a wneir hefyd gan O'Brien a Saldanha (2013: t. 35).

hon, oherwydd tueddodd y rhai a adolygodd yn syth ar ôl cwblhau segment i dreulio llai o amser wedyn yn adolygu'r testun gorffenedig yn ei gyfanrwydd. Gan gofnodi'r seibiannau a fesurwyd ar ôl darllen am ystyr a chyn adolygu, gwelwyd bod addasu'r cof cyfieithu yn wybyddol haws i'r cyfieithydd proffesiynol a bod y baich gwybyddol sydd ynghlwm wrth ffurfio cyfieithiad meddyliol yn uwch pan na ddefnyddir allbwn systemau Cof Cyfieithu. Mae hynny'n cyd-fynd â darganfyddiadau O'Brien (2007) hefyd. O ran defnyddio caledwedd y cyfrifiadur i gynhyrchu cyfieithiad, mae addasu Cyfatebiaethau Rhannol rhwng 70% a 99% yn lleihau'n sylweddol y gwaith cynhyrchu testun, ac felly nifer y geiriau sydd angen eu teipio, sydd mor ganolog i'r broses o gynhyrchu cyfieithiad gorffenedig. O ran data amseryddol, darganfuwyd hefyd wahaniaethau sylweddol mewn perthynas ag amser a chynhyrchiant; wrth brosesu Cyfatebiaethau Rhannol rhwng 70% a 99%, mae'r amser a dreulir yn paratoi cyfieithiad yn llai ac mae cynhyrchiant yn cynyddu o ganlyniad i hynny. Mae'r canlyniad hwn yn cyd-fynd â darganfyddiadau Guerberof (2009, 2012, 2014), Kanavos a Kartsaktis (2010) a Federico et al. (2012) sydd hefyd wedi dadansoddi'r berthynas rhwng arbedion amseryddol a'r defnydd o systemau Cof Cyfieithu.

Pam fod yr ymchwil a gyflwynir yma yn berthnasol felly? A beth, os o gwbl, yw arwyddocâd y canlyniadau? Nodwyd eisoes fod cyfieithwyr yn allweddol i Gynllunio Ieithyddol yng Nghymru. Dros y blynyddoedd nesaf, wrth i realiti gofynion Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 ddod i'r amlwg, nid yw'n afresymol disgwyl i faich gwaith y diwydiant cyfieithu gynyddu yn unol â hynny. Dengys y data a ddadansoddwyd ar gyfer yr erthygl hon, sef data a grëwyd gan brosesau cyfieithu cyfieithwyr proffesiynol mewn arbrawf rheoledig, fod deunydd o gof cyfieithu wedi effeithio'n sylweddol ar brosesau cyfieithu'r cyfieithwyr hyn. Cynnydd mewn effeithlonrwydd yw'r brif effaith hon, ac mae'r effeithlonrwydd hwn i'w weld ar draws holl brif agweddau'r broses gyfieithu, sef agweddau gwybyddol, agweddau cynhyrchu testun a chynhyrchiant. Mae hyn yn bwysig o ystyried polisïau diweddar, lle y tynnodd Comisiynydd y Gymraeg (2012) a Llywodraeth Cymru (2012, 2014, 2016) sylw at yr arbedion y gellir eu gwneud wrth fabwysiadu technoleg cyfieithu, gan gynnwys systemau Cof Cyfieithu. Yn ôl ymchwil ddiweddar, serch hynny, 54% yn unig o gyfieithwyr y Gymraeg a ymatebodd i holiadur Watkins (2010) a ddywedodd eu bod yn defnyddio Cofion Cyfieithu, ac yn ôl adroddiad diweddar Comisiynydd y Gymraeg (2016: t. 268):

Ymddengys nad yw defnyddio meddalwedd cof cyfieithu wedi'i fabwysiadu ar lefel helaeth fel y norm yn y byd cyfieithu Cymraeg/Saesneg.

Yn sgil y canlyniadau a gyflwynwyd, hwyrach ei fod yn amser ystyried hybu defnydd o'r dechnoleg a chynyddu ymwybyddiaeth ymysg cyfieithwyr proffesiynol am y manteision a'r buddion a ddaw o'i defnyddio'n briodol, neu gefnogi'r ymdrechion sy'n bodoli eisoes i wneud hynny. Gall y canlyniadau hyn fod yn berthnasol i addysg myfyrwyr Astudiaethau Cyfieithu hefyd, a sut yr ydym yn hyfforddi darpar gyfieithwyr y Gymraeg.

**Llyfryddiaeth**


Allen, J. (2003), 'Post-editing', yn Somers, H. (gol.), *Computers and Translation: A Translator's Guide* (Amsterdam/Philadelphia: John Benjamins' Publishing Company), tt. 297–319.

Alves, F., a Vale, D. C. (2011), 'On Drafting and Revision in Translation: A Corpus Linguistic Oriented Analysis of Translation Process Data', *Translation: Computation, Corpora, Cognition*, 1 (1), 105–22.

Anderson, J. R. (2009), *Cognitive Psychology and Its Implications*, 7fed argraffiad (New York: Worth Publishers).

Arthern, P. J. (1979), 'Machine translation and computerized terminology systems: a translator's viewpoint', papur a gyflwynwyd yng Nghynhadledd *Translating and the computer* (Llundain), 14 Tachwedd 1978.

Bowker, L. (2002), *Computer-Aided Translation Technology* (Ottowa: University of Ottowa Press).

Butterworth, B. (1980), 'Evidence from Pauses in Speech', yn Butterworth, B. (gol.), *Language Production. Volume 1: Speech and Talk* (London: Academic Press), tt. 155–77.

Bwrdd yr Iaith Gymraeg. (2009), *Cofiwch eich cyfieithiadau* <http://www.webarchive.org.uk/wayback/archive/20120306053839/http://www.byig-wlb.org.uk/Cymraeg/newyddion/Pages/COFiwcheichcyfieithiadauCymraeg.aspx> (Cyrchwyd: 12 Chwefror 2015).

Carl, M., Kay, M., a Hvelplund, K. T. (2010), *Long Distance Revisions in Draffting and Post-editing* <http://engerom.ku.dk/english/staff/?pure=files%2F131448111%2F2010_Long_Distance_Revisions_CarlKayJensen.pdf> (Cyrchwyd: 29 Medi 2015).

Comisiynydd y Gymraeg (2012), *Dogfen Cyngor: Drafftio Dwyieithog, Cyfieithu a Chyfieithu ar y Pryd* (Caerdydd: Comisiynydd y Gymraeg).

Comisiynydd y Gymraeg (2016), *Sefyllfa'r Iaith Gymraeg 2012–2015: Adroddiad 5-mlynedd* (Caerdydd: Comisiynydd y Gymraeg).

Dragsted, B. (2010), 'Co-ordination of Reading and Writing Processes in Translation: An Eye on Unchartered Territory', yn Shreve, G., ac Angelone, E. (goln), *Translation and Cognition* (Amsterdam/Philadelphia: John Benjamins' Publishing Company), tt. 41–63.

Dragsted, B. (2005), 'Segmentation in Translation: Differences across Levels of Experience and Difficulty', *Target*, 17 (1), 49–70.

Dragsted, B., a Carl, M. (2013), 'Towards a Classification of Translation Styles based on Eye-Tracking and Key-logging Data', *Journal of Writing Research*, 5 (1), 133–58.

Duckworth, K. L., Bargh, J. A., Garcia, M., et al. (2002), 'The Automatic Evaluation of Novel Stimuli', *Psychological Science*, 13 (6), 513–19.

Eklundh, K. (1994), 'Linear and Non-linear Strategies in Computer-Based Writing', *Computers and Composition*, 11, 203–16.

Englund-Dimitrova, B. (2005), *Expertise and Explication in the Translation Process* (Amsterdam/Philadelphia: John Benjamins' Publishing Company).

Federico, M., Cattelan, A., a Trombetti, M. (2012), 'Measuring user productivity in machine translation enhanced computer assisted translation', *Proceedings of the Second International Conference of the Association for Machine Translation in the Americas (AMTA)*. Ar gael: <http://amta2012.amtaweb.org/AMTA2012Files/papers/123.pdf> (Cyrchwyd: 7 Mawrth 2016).

Gile, D. (1995), *Basic Concepts and Models for Interpreter and Translator Training*, argraffiad 1af (Amsterdam/Philadelphia: John Benjamins' Publishing Company).

González, M. G. (2005), 'Translation of minority languages in bilingual and multilingual communities', yn Branchadell, A., a West, L. M. (goln), *Less Translated Languages* (Amsterdam/Philadelphia: John Benjamins Publishing Company), tt. 105–25.

Guerberof, A. A. (2009), 'Productivity and quality in the post-editing of outputs from translation memories and machine translation', *International Journal of Localization*, 7 (1), 11–21.

Guerberof, A. A., 'Productivity and Quality in the Post-editing of Outputs from Translation Memories and Machine Translation', traethawd PhD, Universitat Rovira I Virgili, Virgili, 2012.

Guerberof, A. A. (2014), 'The Role of Professional Experience in Post-editing from a Quality and Productivity Perspective', yn O'Brien, S., Balling, L. M., Carl, M., et al. (goln), *Post-editing of Machine Translation: Processes and Applications* (Newcastle: Cambridge Scholars Publishing), tt. 51–76.

Hayes, J. R. (1996), 'A New Framework for Understanding Cognition and Affect in Writing', yn Levy, C. M., a Ransdell, S. (goln), *The Science of Writing: Theories, Methods, Individual Differences, and Applications* (Mahwah, New Jersey: Lawrence Erlbaum Associates), tt. 1–27.

Hutchins, J. (1998), 'The Origins of the Translators' Workstation', *Machine Translation*, 13 (4), 287–307.

Jakobsen, A. L. (2003), 'Effects of Think Aloud on Translation Speed, Revision and Segmentation', yn Alves, F. (gol.), *Triangulating Translation* (Amsterdam/Philadelphia: John Benjamins' Publishing Company), tt. 69–97.

Jakobsen, A. L. (2005), 'Investigating Expert Translators' Processing Knowledge', yn Dam, H. V., Engberg, J., a Gerzymisch-Arbogast, H. (goln), *Knowledge Systems and Translation* (Berlin/New York: Mouton de Gruyter), tt. 173–93.

Jakobsen, A. L. (2006), 'Research Methods in Translation – Translog', yn Sullivan, K. P. H., a Lindgren, E. (goln), *Computer Keystroke Logging and Writing* (Oxford: Elsevier), tt. 95–107.

Jakobsen, A. L. (2002), 'Translation Drafting by Professional Translators and by Translation Students', yn Hansen, G. (gol.), *Empirical Translation Studies* (Copenhagen: Samfundslitteratur), tt. 191–204.

Jakobsen, A. L., a Jensen K. (2008), 'Eye movement behaviour across four different types of reading task', yn Göpferich, S., Jakobsen, A. L., a Mees, I. M. (goln), *Looking at Eyes: Eye-Tracking Studies of Reading and Translation Processing* (Copenhagen: Samfundslitteratur), tt. 103–24.

Jensen, K., 'Allocation of Cognitive Resources in Translation: An Eye-Tracking and Key-logging Study', traethawd PhD, Copenhagen Business School, Copenhagen, 2011.

Kanavos, P., a Kartsaklis, D. (2010), 'Integrating Machine Translation with Translation Memory: A Practical Approach', yn Zhechev, V. (gol.), *Proceedings of the Second Joint EM+/CNGL Workshop "Bringing MT to the User: Research on Integrating MT in the Translation Industry"*, American Machine Translation Association (AMTA), Denver, 4 Tachwedd, 11–20.

Kaufmann, J. (2010), 'Cyfieithu a Pholisi Iaith', *Contemporary Wales*, 23 (1), 171–83.

Kaufmann, J. (2012), 'The Darkened glass of bilingualism? Translation and interpreting in Welsh language planning', *Translation Studies*, 5 (3), 327–44.

Krings, H. P. (2001), *Repairing Texts: Empirical Investigations of Machine Translation Post-Editing Processes* (Kent, Ohio: Kent State University Press).

Kumpulainen, M. (2015), 'On the operationalisation of 'pauses' in Translation Process Research', *Translation and Interpreting*, 7 (1), 47–58.

Lacruz, I., a Shreve, G. (2014), 'Pauses and Cognitive Effort in Post-Editing', yn O'Brien, S., Balling, L. M., Carl, M., et al (goln), *Post-Editing of Machine Translation: Processes and Applications* (Newcastle: Cambridge Scholars Publishing), tt. 246–4.

Leitjen, M., a Van Waes, L. (2013), 'Keystroke Logging in Writing Research: Using Inputlog to Analyze and Visualize Writing Processes', *Written Communication*, 30 (3), 358–92.

Llywodraeth Cymru (2014), *Iaith fyw: iaith byw – Bwrw mlaen. Datganiad Polisi* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru).

Llywodraeth Cymru (2012), *Iaith fyw: iaith byw – Strategaeth y Gymraeg 2012–2017* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru).

Llywodraeth Cymru (2016), *Iaith, Gwaith a Gwasanaethau Dwyieithog: Adroddiad y Gweithgor ar yr Iaith Gymraeg a Llywodraeth Leol* (Caerdydd: Llywodraeth Cymru).

Martín, R. M. (2012), 'Just a Matter of Scope: Mental Load in Translation Process Research', *Translation Spaces*, 1, 169–88.

Melby, A. (1981), 'A bilingual concordance system and its use in linguistic studies', yn Gutwinski, W., a Jolly, G. (goln), *The Eighth LACUS Forum 1981* (Columbia: Honrbeam Press), tt. 541–9.

Miller, K. S., a Sullivan, K. P. H. (2006), 'Keystroke Logging: An Introduction', yn Sullivan, K. P. H., a Lindgren, E. (goln), *Computer Keystroke Logging and Writing* (Oxford: Elsevier), tt. 1–11.

Mossop, B. (2014), *Revising and Editing for Translators*, 3ydd argraffiad (London: Routledge).

Newell, A., a Simon, H. (1972), *Human Problem Solving* (New Jersey: Englewood Cliffs).

Núñez, G. G. (2013), 'Translating for linguistic minorities in Northern Ireland: A look at translation policy in the judiciary, healthcare and local government', *Current Issues in Language Planning*, 14 (3–4), 474–89.

O'Brien, S. (2007), 'Eye-tracking and Translation Memory Matches', *Perspectives: Studies in Translatology*, 14 (3), 185–205.

O'Brien, S., 'Machine-Translatability and Post-Editing Effort: An Empirical Study using Translog and Choice Network Analysis', traethawd PhD, Dublin City University, Dublin, 2006a.

O'Brien, S. (2006b), 'Pauses as Indicators of Cognitive Effort in Post-editing Machine Translation Output', *Across Languages and Cultures*, 7 (1), 1–21.

O'Brien, S., a Saldanha, G. (2013), *Research Methodologies in Translation Studies* (London: Routledge).

O'Connell, E., a Walsh, J. (2006), 'The Translation Boom: Irish and Language Planning in the Twenty-First Century', *Administration*, 54 (3), 22–43.

Palumbo, G. (2009), *Key Terms in Translation Studies* (London: Continuum).

Pavlović, N., a Jensen, K. (2009), 'Eye tracking translation directionality', yn Pym. A., a Perekrestenko, A. (goln), *Translation Research Projects 2* (Tarragona: Universitat Rovira i Virgili), tt. 101–19.

Prys, D. (2014), *Nodyn Cyngor*

<http://techiaith.bangor.ac.uk/nodyn-cyngor/> (Cyrchwyd: 6 Ionawr 2016).

Prys, G., a Prys, D. (2015), 'Meddalwedd a Thechnoleg Cyfieithu', yn Prys, D., a Trefor, R. (goln), *Ysgrifau a Chanllawiau Cyfieithu* <https://llyfrgell.porth.ac.uk/view2.aspx?id=1414~4k~jCaIVfFR> (Caerfyrddin: Coleg Cymraeg Cenedlaethol), tt. 67–76 (Cyrchwyd: 15 Awst 2016).

Quah, C. K. (2006), *Translation and Technology* (Basingstoke: Palgrave Macmillan).

Reinke, U. (2013), 'State of the Art in Translation Memory Technology', *T3: Computation, Corpora, Cognition*, 3 (1), 27–45.

Schilperoord, J. (1996), *It's About Time: Temporal Aspects of Cognitive Processes in Text Production* (Amsterdam: Rodopi).

Screen, B. (2016), 'What place for technology in the translation of Welsh? Language technology, language planning and the professional translation of Welsh', papur a gyflwynwyd yn ail gynhadledd Astudiaethau Celtaidd Poznán, Gwlad Pwyl, 5–6 Gorffennaf 2016 <http://orca.cf.ac.uk/92389/1/Papur%20Poznan.pdf> (Cyrchwyd: 15 Awst 2016).

Sharmin, S., Špakov, O., Räihä, K. J., et al. (2008), 'Where and for how long do translation students look at the screen while translating?', yn Göpferich, S., Jakobsen, A. L., a Mees, I. M. (goln), *Looking at Eyes: Eye-tracking Studies of Reading and Translation Processing* (Cophenhagen: Samsfundslitteratur), tt. 31–51.

Shreve, G., a Diamond, B. (1997), 'Cognitive Processes in Translation and Interpreting: Critical Issues', yn Darnks, J., Shreve, G., Fountain, S., et al (goln), *Cognitive Processes in Translation and Interpreting* (Thousand Oaks: Sage Publications), tt. 233–52.

Somers, H. (2003), 'Translation Memory Systems', yn Somers, H. (gol.), *Computers and Translation: A Translators' Guide* (Amsterdam/Philadelphia: John Benjamins' Publishing Company), tt. 31–49.

Vandepitte, S., Hartsuiker, R., a Van Assche, E. (2015), 'Process and Text Studies of a Translation Problem', yn Ferreira, A., a Schwieter, J. W. (goln), *Psycholinguistic and Cognitive Inquiries into Translation and Interpreting* (Amsterdam/Philadelphia: John Benjamins' Publishing Company), tt. 127–45.

Watkins, G. (2010), *Crynodeb o Ganlyniadau Holiadur Technoleg Iaith*

<http://gareth-watkins.co.uk/cymraeg/canlyniadau_arolwg_cyfieithwyr.html> (Cyrchwyd: 30 Medi 2015).

Watkins, G., 'Translation Tools and Technologies in the Welsh Language Context', traethawd PhD, Prifysgol Abertawe, Abertawe, 2013.

**Atodiad I – Y testun y gofynnwyd i'r Grŵp Rheoli ei gyfieithu**

1. This issue is not explored here as it is a web2.0 issue and organisation will have to decide where this boundary lies.
2. While web2.0 technologies take different forms, we can conceptualise their operation thus;
3. While the present report only refer to Welsh and English, there may be contexts where other languages must be included.
4. Messages are more substantial in terms of content (text, images, and video) which are much more likely to be subjected to quality Control and are less responsive (less formal, likely to be perceived of as being from the organisation instead of a member of staff).
5. Therefore there is more of an opportunity to take these through a translation Process or produce a bilingual version.
6. Messages will usually be discussion starters instead of a response.
7. The originating individual may be identified, but a message could well be presented as a collective output, e.g. from "the team".
8. One or more comments in response to the "message" for example may be posted by members of the public.
9. Any content that is created by the public (user-generated content) is referred to in this report as a comment.
10. One or more responses in response to the comments or messages may be posted by staff.
11. It is not likely that these will be subjected to any form of quality control and present more the personality of the individual member of staff.

**Atodiad II – Yr 11 Cyfatebiaeth Rannol y gofynnwyd i'r Grŵp Arbrofol eu haddasu**

1. Ni chaiff y mater hwn ei drafod yma gan ei fod yn fater ehangach i we2.0 a bydd angen i sefydliadau benderfynu drostynt eu hunain ble mae'r ffiniau i fod.
2. Er bod sawl ffurf i dechnoleg gwe2.0, gellir sôn am eu gweithredoedd cyffredin fel a ganlyn;
3. Er mai cyfeirio'n unig at y Gymraeg a'r Saesneg y mae'r adroddiad hwn, efallai bod cyd-destunau lle y mae angen cynnwys ieithoedd ychwanegol.
4. Mae negeseuon yn ddarnau mwy sylweddol o gynnwys (testun, delweddau, sain, fideo) sy'n fwy tebygol o fod yn destun rhyw fath o reolaeth ansawdd ac felly'n llai ymatebol (llai anffurfiol, mwy tebygol o gael eu hystyried yn rhywbeth gan y sefydliad yn hytrach nag oddi wrth aelod unigol o staff, llai o bersonoliaeth).
5. Felly mae mwy o gyfle i dywys y rhain drwy broses gyfieithu neu ddarparu fersiwn gyfochrog mewn iaith arall.
6. Fel arfer, bydd negeseuon yn agor rhyw drafodaeth yn hytrach nag yn sylwadau.
7. Gallai'r unigolyn sy'n ei hanfon fod wedi'i enwi, ond gellid hefyd gyflwyno neges fel petai'n allbwn ar y cyd, e.e. oddi wrth y "tîm" ehangach.
8. Gall un neu ragor o'r sylwadau mewn ateb i'r "neges" gael eu hanfon gan y cyhoedd.
9. Yn yr adroddiad hwn, cyfeirir at o'r cynnwys sydd wedi ei greu gan y cyhoedd (cynnwys a gynhyrchir gan y cyhoedd) fel "sylwadau".
10. Gall un neu ragor o'r ymatebion sy'n ateb y sylwadau, negeseuon neu ddigwyddiadau eraill, gael eu hanfon gan y staff.
11. Mae'n annhebygol y bydd y rhain yn gallu dod o dan unrhyw drefn rheoli ansawdd. Maent yn cyflwyno personoliaeth aelod o'r staff.

Nia Davies Williams

# Canu i'r Cof: Effeithiau prosiect *Singing for the Brain* ar gof ac ansawdd bywyd pobl sydd â dementia yng ngogledd Cymru

Gwerddon
CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG
Golygydd: **Dr Anwen Jones**

# Canu i'r Cof: Effeithiau prosiect *Singing for the Brain* ar gof ac ansawdd bywyd pobl sydd â dementia yng ngogledd Cymru

*Nia Davies Williams*

**Cyflwyniad: deall dementia**

Bwriad yr erthygl hon yw craffu ymhellach ar brosiect a lansiwyd gan y Gymdeithas Alzheimer yng ngogledd Cymru yn ystod 2012 fel rhan o gynllun cenedlaethol ganddynt o'r enw *Singing for the Brain*. (Defnyddir 'GA' ar gyfer y Gymdeithas Alzheimer a '*SftB*' ar gyfer *Singing for the Brain* o hyn ymlaen.) Prif amcan yr erthygl yw asesu'r berthynas rhwng amcanion a chyraeddiadau prosiect gwreiddiol *SftB* a'r prosiect penodol a gynhaliwyd yng ngogledd Cymru. Bydd hyn yn cynnwys ystyriaeth o brif fanteision yr ymarfer yng nghyd-destun cyfoethogi ansawdd bywyd y sawl sydd â dementia yng ngogledd Cymru, gan gynnwys archwilio unrhyw fuddiannau i'w cof tymor byr.

Mae cryn dystiolaeth yn bodoli'n barod fod canu mewn grŵp (ynghyd â rhyngweithio cymdeithasol yn gyffredinol) o fudd i bobl sy'n dioddef o iselder.[1] Fodd bynnag, mae edrych ar effeithiau canu mewn grŵp ar bobl sydd â dementia yn faes cymharol newydd. Mae'r gwaith ymchwil a wneir yma yn canolbwyntio ar ddwy brif elfen, felly. Yn gyntaf, effaith canu mewn grŵp ar ansawdd bywyd; ac yn ail, mater dadleuol ac anos ei brofi, sef a yw'n cael unrhyw effaith ar y cof tymor byr – a hynny drwy arsylwi, cynnal cyfweliadau a defnyddio holiaduron. Bydd yr erthygl hefyd yn trafod agweddau eraill a ddaeth o ganlyniad i'r gwaith maes a gynhaliwyd fel rhan o'r ymchwil. Fodd bynnag, cyn mynd ati i graffu'n fanylach ar y materion hyn, rhaid gofyn y cwestiwn amlwg: beth yw dementia?

Dengys ffigyrau a gyhoeddwyd yn 1994 fod 636,000 o bobl wedi derbyn diagnosis o ddementia ym Mhrydain, gyda'r mwyafrif o'r rhain yn dioddef o glefyd Alzheimer. Erbyn heddiw, ddeunaw mlynedd yn ddiweddarach, amcangyfrifir bod y ffigwr oddeutu 850,000. Mae dau brif reswm am y cynnydd hwn. Yn gyntaf, mae mwy o bobl yn byw yn hŷn, wrth gwrs; ac yn ail, oherwydd datblygiadau yn y byd meddygol, mae'n bosibl gosod diagnosis o ddementia ynghynt erbyn heddiw. Yn wir, amcangyfrifir y bydd dros filiwn o bobl yn byw gyda'r cyflwr dementia erbyn 2021.[2]

Dementia yw'r enw cyfunol a roddir ar afiechydon yr ymennydd megis clefyd Alzheimer a dementia fasgwlar. Mae'r afiechydon hyn yn effeithio'n bennaf ar iaith a chof, gan arwain at anhawster i gyfathrebu a rhesymu. Mae pobl sydd â dementia yn aml yn

---

1 Gweler, er enghraifft, Claire, Alicia Ann (2000), 'The Importance of Singing with Elderly Patients', yn Aldridge, David (gol.), *Music Therapy and Dementia Care* (London: Jessica Kingsley Publishers), tt. 81–101; ac Ifan, Gwawr, *Modd i Fyw: golwg ar gerddoriaeth mewn iechyd a lles yng Nghymru*, traethawd PhD, Prifysgol Bangor, Bangor, 2012.

2 Gweler <www.alzheimers.org.uk/site/scripts/documents_info.php?documentID=341> (Cyrchwyd: 9 Gorffennaf 2015) a <www.publichealth.bwdpct.nhs.uk/life-expectancy/> (Cyrchwyd: 22 Mai 2015).

ddryslyd ac yn mynegi eu hunain mewn iaith ddigyswllt ac elfennol; gall y cyflwr hefyd achosi iselder a hwyliau ansad (neu *mood swings*).[3]

Hyd at yr 1980au, adnabuwyd dementia fel clefyd lle nad oedd unrhyw obaith o wellhad. Credwyd bod pobl sydd â dementia megis cragen o'r hyn yr arferent fod. Roeddent yn cael eu ystyried yn analluog ac anatebol, a chan amlaf yn cael eu halltudio o gymdeithas ac yn cael eu cyfeirio at sefydliadau iechyd meddwl am weddill eu hoes. Fodd bynnag, o ganol yr 1980au ymlaen, yn raddol gwelwyd newid yn y meddylfryd cyffredinol tuag at y cyflwr. Bu ysgolheigion megis Bob Woods[4] a Tom Kitwood ar flaen y gad wrth geisio newid agwedd pobl tuag at y cyflwr, a hynny drwy gymell pobl i sylweddoli fod person *y tu ôl* i'r dementia – person â chymeriad, personoliaeth a'i hunaniaeth ei hun. Credent eu bod yn bwysig canolbwyntio ar y sgiliau a'r elfennau a oedd yn parhau i berthyn i bobl sydd â dementia yn hytrach na'r elfennau yr oeddent wedi'u colli.

Er enghraifft, yn ei lyfr *Dementia Reconsidered: the person comes first*, rhoddodd Kitwood sylw amlwg i'r hyn a elwir yn *personhood*, neu 'dynoldeb' – yr hyn sy'n ein gwneud yn unigolion â'n cymeriad unigryw ein hunain, ynghyd â'r hyn sy'n rhoi hunan-barch i ni fel unigolion mewn cymdeithas.[5] Adeilada Kitwood ddadl o amgylch y syniad o 'ddynoldeb' drwy geisio darbwyllo'r darllenydd mai'r ffordd ymlaen wrth ymdrin â phobl sydd â dementia yw drwy gynnig gofal sy'n unigryw i'r person dan sylw, gan fod pob person (ac felly pob 'cyflwr') yn wahanol i'w gilydd.

Defnyddir 'dynoldeb' yng nghyswllt dementia hefyd mewn llyfr a ysgrifennwyd gan fenyw a oedd ei hun yn byw gyda'r cyflwr, sef Christine Bryden o Awstralia. Mae adrannau allan o'i llyfr yn cynnig cipolwg prin ar y math o brofiadau a geir wrth fyw gyda'r cyflwr:

> How you relate to us has a big impact on the course of the disease. You can restore personhood, and give us a sense of being needed and value. Give us reassurance, hugs, support, a meaning in life. Value us for what we can still do and be, and make sure we retain social networks. It is very hard for us to be who we once were, so let us be who we are now – and realise the effort we are making to function.[6]

Er mai prif bwrpas ymchwil Kitwood oedd ceisio newid agwedd gofalwyr tuag at bobl sydd â dementia – yn enwedig mewn cartrefi preswyl a chartrefi nyrsio – gellir cymhwyso ei ddamcaniaeth ar gyfer prosiectau megis *SftB* gan y GA lle y daw pobl sydd â dementia a'u gofalwyr at ei gilydd i ganu caneuon sy'n gyfarwydd iddynt. Dyma a ddywedir ym 'Manyldeb Gwasanaeth' *SftB* gan y GA:

> People with dementia are considered to have an intact and functional emotion system, despite a host of other neurological, cognitive, and

[3] Holden, Una, a Stokes, Graham (2002), 'The Dementias', yn Stokes, Graham, a Goudie, Fiona (goln), *The Essential Dementia Care Handbook* (Bicester: Speechmark Press), t. 13. Gweler hefyd Williams, Nia Davies (2012), '"Y Golau a Ddychwel": Cerddoriaeth a dementia yng Nghymru', *Gwerddon*, 10/11, Awst, 113–31.

[4] Mae'r Athro Bob Woods yn Bennaeth ar Ganolfan Ddatblygu Gwasanaethau Dementia Cymru ym Mhrifysgol Bangor.

[5] Kitwood, Tom (1997), *Dementia Reconsidered: The Person Comes First (Rethinking Ageing)* (Buckingham: Open University Press), t. 8.

[6] Bryden, Christine (2005), *Dancing with Dementia* (London: Jessica Kingsley Publishers), t. 127.

behavioural impairments. This may well explain why music and singing, often associated with emotive reaction, has attracted so much attention among researchers and those who care for people with dementia.[7]

Dros yr ugain mlynedd diwethaf, daeth yn fwyfwy amlwg fod cerddoriaeth yn cael ei warchod a'i arbed i raddau yn ymennydd pobl sydd â dementia, ac felly fod gan gerddoriaeth – a chaneuon yn arbennig – rôl bwysig ac unigryw i'w chwarae. Gellir defnyddio cerddoriaeth, felly, fel ffordd amgen i bobl sydd â dementia fynegi eu hunain: i gyfathrebu, lleddfu ac ysgogi. Ond a yw cerddoriaeth hefyd o gymorth i'r ochr wybyddol, megis y cof? A yw cerddoriaeth yn gallu helpu pobl sydd â dementia i *gofio*?[8] Esbonia'r therapydd cerdd Robin Rio fod y broses o drosglwyddo gwybodaeth o dymor byr y cof i'r tymor hir yn un a effeithir gan afiechyd megis clefyd Alzheimer, ac o ganlyniad prin iawn yw gallu pobl sydd â dementia i ddysgu deunydd newydd. Dywed Rio fod rhai pethau yn medru bod o gymorth yma, fodd bynnag:

> Things that may improve this absorption of short-term events into the long-term memory are; associations with the other known things; an emotional reaction or enhanced mood; repetition; organization and categorization of information; the information having meaning; and information being provided with humor. This explains a lot of why music can be easier to remember than some other things.[9]

Fodd bynnag, cyn mynd ati i ddarganfod os cafodd sesiynau *SftB* effaith ar gof tymor byr y bobl sydd â dementia, mae'n rhaid yn gyntaf gynnig amlinelliad o fethodoleg yr erthygl, ynghyd ag egluro'r dulliau ymchwil a ddefnyddiwyd.

**1. Methodoleg ymchwil**

Cyfuniad o ymchwil empirig ac ymchwil ansoddol yw'r fethodoleg a ddefnyddir yn yr erthygl hon wrth ymdrin â'r gwaith maes. Dyma'r math o fethodoleg sy'n nodweddiadol o astudiaethau ymchwil tebyg, megis Aldridge, Ridder a Tomaino.[10] Mae ysgolheigion megis Ridder a Robson[11] wedi gwahaniaethu rhwng methodoleg 'gaeth' (*fixed*) a 'hyblyg' (*flexible*) ac ystyrir sut i gynnwys y cysyniadau hyn yng ngwaith maes yr ymchwil hon yn ogystal.

---

[7] *Alzheimer's Society. Service specification: Singing for the Brain®*, t. 3 (gellir derbyn copi o fanyleb y gwasanaeth oddi wrth Tracy Stockin, rheolwr gwasanaethau cynnal Cymdeithas Alzheimer's Gogledd Cymru; tracy.stockin@alzheimers.org.uk). Trafodir llawer mwy ar gefndir *SftB* yn nhrydedd ran yr erthygl hon.

[8] Aldridge, David, ac Aldridge, Gudrun (1992), 'Two Epistemologies: Music Therapy and Medicine in the Treatment of Dementia', *The Arts in Psychotherapy*, 19, 243–55; Sacks, Oliver (2007), *Musicophilia* (London: Picador), 335–47. Trafodir yr ymchwil yn ymwneud â chanu mewn grŵp yn ail ran yr erthygl hon.

[9] Rio, Robin (2009), *Connecting Through Music with People with Dementia: A Guide for Caregivers* (London: Jessica Kingsley Publishers), tt. 91–2.

[10] Aldridge ac Aldridge, 'Two Epistemologies'; Ridder, Hanne Mette Ochsner, 'Singing dialogue: Music therapy with persons in advanced stages of dementia: A case study research design', traethawd PhD, Aalborg University, Denmarc, 2003; Tomaino, Concetta M., 'Music on their Minds: a qualitative study of the effects of using familiar music to stimulate preserved memory function in persons with dementia', traethawd PhD, New York University, UDA, 1999.

[11] Robson, Colin (2002), *Real World Research: Second Edition* (Oxford: Blackwell).

Er enghraifft, dengys ymchwil Ridder – lle y cynhaliwyd gwaith maes yn Nenmarc – fod canu yn cael effaith gadarnhaol ar bobl sydd â dementia a'u bod yn cyfathrebu ar wahanol lefelau o ganlyniad i hynny. Mae Ridder yn trafod methodoleg ei hymchwil gan esbonio bod yn well ganddi ddefnyddio'r termau 'caeth' a 'hyblyg' yn hytrach na 'meintiol' (*quantitative*) ac 'ansoddol' (*qualitative*) ym maes therapi cerdd. Dywed Ridder fod nifer yn cysylltu'r dull 'hyblyg' â methodoleg 'ansoddol', ond y gwahaniaeth rhwng y ddau yw bod y dull 'hyblyg' yn caniatáu i ganfyddiadau'r astudiaeth esblygu'n raddol fel rhan o'r broses ymchwil. Disgrifia Ridder y fethodoleg fel dull cymysg a hyblyg ('*flexible mixed-method design*'), lle y defnyddir cyfres o astudiaethau achos ('*case studies*') i gadarnhau'r data a gesglir drwy broses o arsylwi.[12] Mae dulliau 'naratif' o ymchwilio yn gysylltiedig â'r dull cymysg a hyblyg. Trafodir hyn yn fanylach yn nes ymlaen.

Nodwyd eisoes mai cyfuniad o ymchwil empirig ac ymchwil ansoddol yw'r fethodoleg a ddefnyddir yma, a gwneir hynny drwy'r dull o arsylwi a dadansoddi wythnosol gan ddefnyddio'r wybodaeth a gesglir drwy gyfrwng nifer o astudiaethau achos fel sail ar gyfer casgliadau'r erthygl. Fel rhan o ymchwil ansoddol yr erthygl, defnyddiwyd holiaduron a chyfweliadau gyda chleifion, gofalwyr, cynrychiolydd o'r GA yn ogystal ag arweinydd grŵp canu *SftB*.

Deg ar hugain o fynychwyr a gafwyd ar gyfartaledd yn sesiynau Hen Golwyn, Dinbych a Rhyl gan gynnwys cleifion, gofalwyr ac oddeutu dau wirfoddolwr. Gan fod canllawiau *SftB* yn nodi mai'r nifer delfrydol o fynychwyr ar gyfer y sesiynau oedd rhwng 20 a 30, roedd y sesiynau'n llawn. Roedd mwyafrif o fynychwyr sesiynau Hen Golwyn a Rhyl un ai'n Gymry di-Gymraeg neu'n Saeson, gan adlewyrchu'r ffaith fod nifer o bobl o Loegr yn symud i Hen Golwyn a Rhyl er mwyn ymddeol. Ar y llaw arall, roedd lleoliad sesiynau Bangor yn llawer llai, a bychain oedd y sesiynau hyn o'u cymharu â'r grwpiau eraill.

Dosbarthwyd holiaduron i gyfranogwyr grwpiau *SftB* Hen Golwyn a Bangor oherwydd poblogrwydd grŵp Hen Golwyn a'r ffaith fod cangen Bangor yn gwbl ddwyieithog. Penderfynwyd y dylid aros tri mis cyn dosbarthu'r holiaduron er mwyn sicrhau bod sesiynau *SftB* yn dod yn rhan reolaidd o drefn bywyd y cyfranogwyr, gan roi ystod ehangach ar gyfer ymateb i'r cwestiynau. Esboniwyd cyn eu dosbarthu bod yr holiaduron i gael eu cwblhau ar y cyd rhwng y bobl sydd â dementia a'r gofalwr er mwyn derbyn adborth a oedd yn ddefnyddiol ac o ansawdd.

Defnyddir cyfuniad o gwestiynau meintiol ac ansoddol yn yr holiaduron a'r cyfweliadau, ac felly mae'r fformat yn mabwysiadu'r hyn a elwir yn 'holiadur lled-strwythuredig'. Dyma'r math o holiadur a ddefnyddiwyd gan Ganolfan Sidney de Haan, canolfan ymchwil ar gyfer iechyd a'r celfyddydau, wrth ymchwilio i brosiect y *Silver Song Club*, er enghraifft.[13] Ceir cwestiynau cymharol benagored mewn holiadur neu gyfweliad lled-strwythuredig sydd felly'n rhoi cyfle i'r person ateb yn ei eiriau ei hun. Mae'r math hwn o holiadur yn caniatáu ystod eang o adborth, wrth roi cyfle i gyfranogwyr fynegi teimladau, barn ac agwedd bersonol yn ogystal. Mae'n rhoi cyfle i gyfranogwr godi materion na chodwyd yng nghwestiynau'r holiadur, er enghraifft.[14] Un math o gwestiwn penagored

---

12 Gweler Ridder, 'Singing Dialogue', tt. 69–70.

13 <http://www.canterbury.ac.uk/Research/Centres/SDHR/ResearchProjects/CompletedProjects/FormulativeEvaluation.aspx>, Formulative evaluation pdf., t. 3 (Cyrchwyd: 5 Mehefin 2012).

14 <http://www.shef.ac.uk/lets/evaluate/general/methods-collection/questionnaire> (Cyrchwyd: 6 Mehefin 2012).

yw, er enghraifft: 'A fuasech yn dweud bod y sesiynau *Singing for the Brain* yn effeithio ar ansawdd bywyd? Esboniwch sut.'

Fel y soniwyd eisoes, daw elfen bwysig o ymchwil naratif i'r amlwg wrth ymdrin â'r gwaith maes a'i ddisgrifio, gan nad yw'n bosibl rhagweld canlyniadau'r math hwn o ymchwil. Tra bod y dull hwn yn ddieithr i fethodoleg pynciau'r gwyddorau cymdeithasol neu ymchwil wyddonol, mae'n arferol ei weld ym maes cerddoriaeth mewn iechyd a lles, therapi cerdd, a rhai astudiaethau ethnogerddoregol. Mae'n bwysig, felly, deall y dull naratif hwn o fewn ei gyd-destun cywir, ac nid yn ôl meini prawf gwyddonol neu ffug-wyddonol, a fyddai'n ei weld yn rhy ddisgrifiadol neu'n rhy arwynebol.

Rheswm arall dros fabwysiau'r dull hwn o ymchwil yw bod y sesiynau *SftB* yn ymdrin yn bennaf â phobl yng nghyfnod cynnar neu ganolig dementia. Roedd hyn yn cynnig cyfleoedd ymysg cleifion a gofalwyr fel ei gilydd i dderbyn adborth drwy gyfweliadau a holiaduron Ni fyddai hyn wedi bod yn bosibl gyda chleifion a oedd yng nghyfnod olaf y cyflwr.

**2. Canu mewn grŵp**

Un o brif amcanion y GA wrth sefydlu'r prosiect *SftB* oedd darparu gwasanaeth ar gyfer pobl sydd â dementia oedd yn byw yn eu cartrefi yn hytrach na mewn cartrefi gofal. Mae'n bwysig cofio bod oddeutu 66% o bobl sydd â ddementia yn parhau i fyw yn y gymuned tra bod tua 33% yn unig yn byw mewn cartrefi preswyl.[15] Amcan sesiynau *SftB*, felly, oedd cynnig darpariaeth ynghyd â rhoi cyfle i bobl sydd â dementia gymdeithasu y tu allan i'w bywyd dyddiol arferol. Y duedd ymysg rhai a dderbyniodd ddiagnosis o un o gyflyrau dementia yw encilio'n raddol o'u cymuned a hynny gan nad ydynt eisiau cael eu hystyried yn anghofus neu'n ddryslyd. Mae canu mewn grŵp yn weithgaredd gymunedol sy'n dod â'r cleifion, yn ogystal â'r gofalwyr, at ei gilydd. Gall roi hwb i'w lles emosiynol a'u hunan-barch drwy weld bod eraill yn yr un sefyllfa â hwy. Yn ogystal â hynny, mae'r cyfrannu gweithredol (h.y. *active participation*) a geir wrth ganu yn fodd iddynt fynegi eu hunain (a'u hunaniaeth hefyd) yn effeithiol.

Gellir deall prif gwestiwn ymchwil yr erthygl hon drwy ddarllen rhan o adroddiad canolfan Sidney de Haan ar brosiect *SftB*:

> *Singing for the Brain* invites participation in an activity that has physiological, emotional and social benefits. In addition to acknowledging participants' rights to an aesthetic experience, provision of regular structured opportunities to sing, as part of a care plan, may have a potential economic benefit through delaying or ameliorating the condition of dementia. While research has yet to show conclusively that such activity can delay mental deterioration, the simple act of participation in a group activity will tend to break down isolation and help with depression.[16]

Mae'r adroddiad yn cynnig y syniad fod y sesiynau hyn yn mynd gam ymhellach na bod o fudd cymdeithasol neu gynnig profiad esthetig, er mor bwysig yw'r rhain hefyd. Yn fwy

---

15 <www.alzheimers.org.uk/site/scripts/documentinfo.php?documentID=341> (Cyrchwyd: 18 Medi 2015).

16 <https://www.canterbury.ac.uk/health-and-wellbeing/sidney-de-haan-research-centre/documents/making-singing-for-health-happen.pdf>, t. 3 (Cyrchwyd: 5 Mehefin 2015).

na hyn, mae'n bosibl fod y broses o ganu a chydganu yn fodd o arafu'r cyflwr ymysg pobl sydd â dementia. Ond i ba raddau mae hyn yn wir?

Mae cerddoriaeth yn fodd i bwysleisio hunaniaeth a natur ddynol pobl sydd â dementia. Mae pobl sydd â dementia yn ddibynnol ar deuluoedd a gofalwyr i roi ystyriaeth i'w natur ddynol gan fod y gallu i gyfathrebu a mynegi yn raddol ddiflannu gyda'r cyflwr. Mae'r erthygl hon yn dadlau bod gan gerddoriaeth allu arbennig i 'lenwi'r bylchau' sy'n mynd ar goll, fel petai. Mae ymchwil Hays a Minichiello yn Awstralia yn edrych ar ystyr cerddoriaeth ym mywydau'r henoed (gan gynnwys pobl sydd â dementia) ac mae eu casgliadau'n amlygu pwysigrwydd cerddoriaeth ar gyfer hunan-barch unigolion, lles, adnabod yr hunan, cysylltu ag eraill ac osgoi teimladau o unigrwydd:

> Music is an important part of the lives of people because it is through music that they can come to know and reflect upon their own personhood.[17]

Cyfeiria Ridder mewn un lle at holiadur byr a ddosbarthwyd mewn seminar a gynhaliwyd ar gyfer gofalwyr yr henoed (gyda llawer ohonynt yn bobl sydd â dementia). Pwrpas yr holiadur oedd darganfod pa weithgareddau cerddorol a apeliai fwyaf at yr henoed, e.e. gwrando ar gerddoriaeth, cerddoriaeth a symudiadau ynghyd â chwarae offerynnau. Dangosai'r holiadur mai cydganu oedd y gweithgaredd mwyaf poblogaidd. Ceisia Ridder esbonio hyn:

> The elderly generation in Denmark has grown up in a very strong song tradition where people would sing when they met for celebrations, political meetings, and cultural events. This might be a significant reason still to use songs when people come together.[18]

Mae hyn yn wir yn achos nifer o wledydd. Un enghraifft o gyd-ganu yw côr yr henoed yn Norwy lle y bu Brynjulf Stige yn arsylwi am gyfnod o amser ar gyfer ei waith ymchwil. Gwelai Stige yn syth pa mor bwysig oedd y côr i'r henoed, gan greu cymdeithas o gydofalu rhwng yr aelodau.[19]

Mae gan y Cymry draddodiad cryf iawn o gydganu hefyd ers cenedlaethau wrth gwrs; boed yn emynau yn y capel neu'r dafarn, corau meibion y pyllau glo, cydganu mewn gemau rygbi, ac yn ogystal â hynny, ceir traddodiad eisteddfodol cryf.[20] Felly, dyma reswm pwysig dros ddefnyddio canu mewn grŵp wrth ymdrin â phobl sydd â dementia yng Nghymru, a hyd yn oed yn achos mewnfudwyr sydd wedi ymddeol i Gymru o Loegr (yn enwedig mewn ardaloedd arfordirol, megis Hen Golwyn a Rhyl), maent yn ymwybodol o draddodiad cydganu'r Cymry.

---

17 Hays, T., a Minichiello, V. (2005), 'The meaning of music in the lives of older people: a qualitative study', *Psychology of Music*, 33, 440.

18 Ridder, 'Singing dialogue', t. 38.

19 Stige, Brynjulf (2010), 'Caring for Music: The Senior Choir in Sandane, Norway', yn Stige, Brynjulf, Ansdell, Gary, Elefant, Cochavit, et al. (goln), *Where Music Helps: Community Music Therapy in Action and Reflection* (Surrey: Ashgate), tt. 245–74.

20 Gweler, er enghraifft, Williams, Gareth (1998), *Valleys of Song: Music and Society in Wales 1840–1914* (Cardiff: University of Wales Press).

### 3. Hanes a datblygiad *Singing for the Brain*

Mae'n bwysig deall y cynllun *SftB* fel rhan o symudiad ehangach o fewn y byd meddygol ar droad y ganrif newydd lle y gwelwyd iechyd a lles fel rhan o rywbeth llawer mwy cyfannol. Er enghraifft, ar ddechrau'r mileniwm sefydlodd y llywodraeth ar y pryd gynllun a elwid yn *Exercise on Prescription*. Pwrpas y cynllun oedd ceisio annog meddygon teulu i annog cleifion i gymryd rhan mewn ymarfer corff yn hytrach na chymryd meddyginiaethau at gyflyrau megis pwysau gwaed uchel, afiechyd y galon a gorbwysedd. Yn yr un modd, sefydlwyd *Arts on Prescription*, sef cynllun a oedd o gymorth wrth ymdrin ag iselder a phroblemau meddyliol eraill drwy ysgogi pobl i gymryd rhan a mwynhau'r celfyddydau. Yn yr un cyfnod, sefydlwyd *Singing on Prescription*, lle y defnyddiwyd canu mewn grŵp ar gyfer iechyd a lles cleifion a oedd yn dioddef o gyflyrau megis Parkinson's, afiechyd yr ysgyfaint, iselder yn ogystal â dementia.[21]

Yn 2003, sefydlwyd prosiect newydd o'r enw *Singing for the Brain* gan Gymdeithas Alzheimer Gorllewin Berkshire. Chreanne Montgomery-Smith oedd swyddog cynnal a datblygu'r gymdeithas yn yr ardal ar y pryd, a hi oedd yn gyfrifol am sefydlu *SftB*. Oherwydd diddordeb cynyddol yn y prosiect, penderfynodd Cymdeithas Alzheimer Gorllewin Berkshire gynnal cwrs hyfforddi pum niwrnod yn ystod tymor yr Hydref 2005 o'r enw *Singing for the Brain: making singing for health happen*. Anelwyd y cwrs at bobl a oedd yn ymddiddori mewn trefnu a rhedeg prosiectau o'r fath mewn lleoliadau newydd. Bu Canolfan Sidney de Haan yn gyfrifol am greu adroddiad ar y cwrs er mwyn ymgorffori pwyntiau allweddol ac adnabod arferion da ar gyfer y dyfodol.[22] Ynddo nodwyd amcanion *SftB* a gynlluniwyd gan Montgomery-Smith a Nick Bannan, sef:[23]

- Gwella a chynnal llwybrau niwrolegol drwy weithgaredd aerobig ysgafn;
- Bod o gymorth i ofalwyr a phobl sydd â dementia i weld ei gilydd mewn amgylchiadau hapus lle y cânt eu hysgogi i fwynhau cyfathrebu;
- Codi neu atal iselder trwy elfennau a fydd yn cysuro, cefnogi ac ysbrydoli gan fod o gymorth i feithrin safbwynt bywyd cadarnhaol yn hytrach nag un negyddol;
- Bod yn rhywbeth y gall meddyg teulu ei argymell i gleifion;
- Bod o gymorth i deuluoedd sydd ag aelod â dementia i ddod allan o'u cragen a bod yn rhan o gymdeithas lle y mae ganddynt yr hawl i ysgogiad artistig a chymdeithasol;
- Annog gofalwyr a phobl sydd â dementia i fod yn rhagweithiol pan mae'n dod i ofalu amdanynt eu hunain, ynghyd â'u hannog i rwydweithio gydag eraill sydd mewn sefyllfa debyg iddynt eu hunain er mwyn iddynt fedru bod o gymorth i'w gilydd;
- Gwneud i deuluoedd edrych arnynt eu hunain fel rheolwyr eu bywyd, nid fel dioddefwyr eu tynged.[24]

---

21 <http://www.canterbury.ac.uk/centres/sidney-de-haan-research> (Cyrchwyd: 5 Mehefin 2015).

22 Making Singing Happen <http://www.canterbury.ac.uk/centres/sidney-de-haan-research> (Cyrchwyd: 5 Mehefin 2015).

23 Cyn-gyfarwyddwr Dysgu Cerddoriaeth mewn Ymarfer Proffesiynol ym Mhrifysgol Reading ac arweinydd y prosiect *SftB* sylfaenol.

24 Cyfieithwyd i'r Gymraeg gan yr awdur o Bannan, N., a Montgomery-Smith, C., '"Singing for the Brain": reflections on the human capacity for music arising from a pilot study of group singing with Alzheimer's patients and carers', Chwefror 2006 (heb ei gyhoeddi).

Nodwyd mai pwrpas y cwrs oedd ysgogi a herio'r cyfranogwyr drwy edrych ar faterion yn ymwneud â cherddoriaeth a Dementia o safbwynt newydd. Yn ogystal, amcan y cwrs oedd adnabod swyddogaeth cyfranogwyr mewn grwpiau *SftB* newydd, megis arwain, cydlynu, gwirfoddoli neu weinyddu.

Ers prosiect cyntaf *SftB* yn 2003, ymddangosodd llawer mwy ohonynt ledled Prydain. Datblygwyd un o'r rhain yng Nghaerdydd lle y cynhaliwyd prosiect peilot gyda Chwmni Opera Cenedlaethol Cymru (OCC), a lle y ffurfiwyd Côr Clefyd Alzheimer yn ystod Hydref 2010. Mynychodd cleifion a'u gofalwyr gartref yr OCC yng Nghanolfan y Mileniwm, Caerdydd, yn wythnosol, gan gynnal cyngerdd anffurfiol o garolau ar ddiwedd y prosiect. O ganlyniad i lwyddiant prosiect peilot y côr hwn, penderfynwyd parhau â'r prosiect yn ystod tymor y Gwanwyn 2011. Cynhaliwyd y prosiect drwy arallgyfeirio'r arian a arferai fynd at brosiect OCC o ymweld â charchardai. Nododd Sarah Teagle, cydlynydd y prosiect, mai dyma oedd un o brosiectau mwyaf llwyddiannus adran addysg a chymuned yr OCC.[25] Dywedodd ei fod yn brosiect cymdeithasol a oedd o fudd wrth fagu hyder a hunan-barch – syniad sy'n ategu sylwadau Montgomery-Smith.

Y gwasanaeth *SftB* cyntaf i'w sefydlu yng Nghymru oedd grŵp Caerffili a sefydlwyd yn Ebrill 2010. O ganlyniad i'w lwyddiant, dechreuodd ail grŵp yn yr un lleoliad flwyddyn yn ddiweddarach. Derbyniodd y prosiect hwn gryn sylw mewn rhaglen ddogfen gan y BBC o'r enw *Dementia: Making a Difference*.[26] Gan y ceir tystiolaeth eisoes o fuddion cymdeithasol *SftB*, a'u bod o gymorth gydag iselder,[27] roedd y gwaith maes a gynhaliwyd ar gyfer y gwaith ymchwil canlynol yn ceisio ymdrin â'r amcan cyntaf a nodwyd gan Bannam a Montgomery-Smith, sef 'Gwella a chynnal llwybrau niwrolegol drwy weithgaredd aerobig ysgafn'. Gwnaed hyn yn bennaf drwy arsylwi a holi'r gofalwyr yn ogystal â'r cleifion yn ystod sesiynau *SftB*, a hynny dros gyfnod o dri mis.

**4. Y gwaith maes**

Cynhaliwyd gwaith maes ar gyfer yr erthygl hon fel rhan o bedwar cynllun *SftB* gan y GA mewn cydweithrediad â Chanolfan Gerdd William Mathias (CGWM) yn Ninbych, Rhyl, Hen Golwyn a Bangor. O fis Ebrill 2012, llwyddodd y GA i sicrhau arian gan y Loteri Iechyd ar gyfer sefydlu'r gwasanaethau yn Hen Golwyn a Bangor. Ariannwyd gwasanaethau Dinbych a Rhyl gan Gyngor Sir Ddinbych. Y pedwar yma oedd y grwpiau *SftB* cyntaf i'w sefydlu yng ngogledd Cymru a'r rhai cyntaf i ddefnyddio'r iaith Gymraeg mewn perthynas â gweithgareddau canu mewn grŵp gyda phobl sydd â dementia. Penodwyd awdur yr erthygl hon fel cydlynydd a chyd-arweinydd ar gyfer y pedwar grŵp, ac er ei bod yn arweinydd y prosiect, ceisiodd yr awdur aros yn ddiduedd wrth lunio'r ymchwil ar gyfer yr erthygl dan sylw, gan bwyso a mesur y ffactorau cadarnhaol a negyddol lle'r oeddynt yn ymddangos.

Drwy gyfeirio at arbenigwyr megis Woods a Kitwood,[28] pwysleisiwyd bod angen ceisio creu atgofion da wrth weithio gyda phobl sydd â dementia gan esbonio eu bod yn aml yn cofio'r adegau pan oeddynt yn eu 30au yn well nag unrhyw gyfnod arall yn eu bywydau.

[25] Cyfweliad gyda Sarah Teagle, 30 Mehefin 2012.
[26] *Dementia: Making a Difference*, BBC2, 10 Mai 2012.
[27] Gweler rhan 2.
[28] Gweler rhan agoriadol yr erthygl hon.


Y rheswm am hyn yw mai'r cyfnod hwn yn aml yw'r mwyaf sefydlog a hapus ym mywyd yr unigolyn, e.e. pan oeddent mewn perthynas sefydlog, yn magu teulu ac mewn iechyd da. Yr amseroedd sydd wedi effeithio ar berson – boed yn dda neu'n ddrwg – sy'n aros yn y cof ac yn dychwelyd mewn henaint; felly y gwelir hefyd gyda phobl sydd â dementia. O ganlyniad, gellir manteisio ar hyn drwy ddefnyddio caneuon a oedd yn gyfarwydd i bobl sydd â dementia yn ystod y cyfnod hwn yn eu bywydau, a dyma'n bennaf oedd pwrpas *Holiadur Hanes Cerdd* y GA. Yn ôl Kitwood,[29] mae angen trefn ac arfer ar bobl sydd â dementia er mwyn sefydlogi eu bywydau bob dydd, felly dyma reswm dros gynnwys rhai caneuon cyson yn y *repertoire*, caneuon sy'n apelio at fwyafrif o'r cyfranogwyr, megis 'Cân Groeso',[30] 'Ble Mae Daniel?', '*Molly Malone*' a '*Que Sera*'.

Pwysleisiwyd hefyd y pwysigrwydd fod angen i arweinyddion *SftB* ystyried eu hymddygiad personol, megis iaith, symudiadau a thôn y llais; dylid ystyried y person yn gyntaf yn hytrach na'r cyflwr, sy'n adlewyrchu'r hyn a ddywedodd Kitwood.[31] Yn y 'Canllawiau i Arweinyddion' a grëwyd ar gyfer y gwasanaeth *SftB*, nodir mai amcan y sesiynau yw bod o fudd wrth ysgogi atgofion, symud yn gorfforol, rhyngweithio'n gymdeithasol, lleddfu iselder, magu hyder ynghyd â hyfforddi dysgu.[32] Gwelwyd bod y nodweddion a restrir uchod yn dod i'r amlwg yn ystod y sesiynau a hynny drwy gyfuniad o ddilyn y canllawiau, gan eu teilwrio ar gyfer y grwpiau o bobl a fynychodd y sesiynau dan arweiniad yr awdur presennol.

Dyma grynodeb o sesiwn arferol *SftB*. Eistedda pawb mewn cylch er mwyn creu'r cyfle am gyswllt llygad ac i bawb uniaethu â'r grŵp. Gall hyn alluogi'r arweinyddion i gerdded i mewn i'r cylch gan ryngweithio â'r cyfranogwyr, yn enwedig yn ystod caneuon gyda symudiadau megis 'Cân y Gwcw' a chaneuon tôn gron megis 'Ble Mae Daniel?'

Mewn grwpiau mawr megis Hen Golwyn a'r Rhyl, roedd yn fuddiol cael gwirfoddolwyr a oedd â'r gallu i ganu, neu a oedd â diddordeb mewn cerddoriaeth; o ganlyniad roedd modd rhannu'r grŵp yn bedwar ar gyfer y caneuon tôn gron ac i ddefnyddio dau berson ychwanegol er mwyn cael arweinydd ar gyfer y pedwar grŵp, fel y gwelir yn Ffigwr 1.

***Ffigwr 1: Y grŵp canu wedi ei rannu'n bedwar ar gyfer canu tôn gron gydag arweinydd i bob grŵp.***



[29] Kitwood, *Dementia Reconsidered.*
[30] Gweler yn nes ymlaen yn yr erthygl.
[31] Gweler rhan agoriadol yr erthygl hon.
[32] *Singing for the Brain®: Leader's Guide*, t. 13. (Gellir derbyn copi o'r canllawiau ar ffurf ffeil pdf oddi wrth Tracy Stockin, rheolwr gwasanaethau cynnal Cymdeithas Alzheimer Gogledd Cymru; tracy.stockin@alzheimers.org.uk.)

Cyn dechrau canu, roedd hi'n bwysig neilltuo tua 10 munud ar gyfer cynhesu'r llais a'r corff. Gwnaethpwyd hyn drwy gyfuniad o ymarferion ysgafn. Dechreuwyd y canu gyda 'Cân Groeso', sef cân a oedd yn rhan reolaidd o bob sesiwn lle'r oedd yr arweinydd yn cyfeilio iddi ar ei gitâr. Byddai'r cydlynydd yn cerdded o gwmpas y grŵp gan ysgwyd llaw pob un o'r cyfranogwyr wrth gyfarch yr unigolion yn eu tro gyda'r gân. Roedd labeli enwau yn hanfodol yma er mwyn i bawb gael y cyfle i ymuno wrth i'r cydlynydd gyfarch pob unigolyn. Nodir yn y canllawiau fod y rhan hon o'r sesiwn yn bwysig oherwydd ei fod o gymorth wrth sefydlu cysylltiad personol o'r dechrau.

Roedd yn bwysig fod pob sesiwn yn cynnwys caneuon cyfarwydd a ddefnyddid yn rheolaidd er mwyn sefydlu'r teimlad o gynefindra ac i sicrhau bod cyfle i bawb gyfrannu a mwynhau. Fel y gwelir isod, serch hynny, roedd hefyd yn bwysig cyflwyno caneuon newydd er mwyn ysgogi a datblygu moddau o weithredu gwybyddol. Fel y dywed y canllawiau:

> Being able to recall a well-known song can build confidence by reminding the participant of what they can still do. It is also important, however, that they are offered the opportunity to learn something new: learning to do something that you were not able to do before can be a great tonic as well as being a way of sustaining interest over the weeks.[33]

Aed ati, felly, i osod caneuon newydd rhwng rhai cyfarwydd yn hanner cyntaf y sesiwn a hynny tra bod y cyfranogwyr yn fwyaf effro ac yn barod i roi cynnig ar ddysgu rhywbeth newydd. Ymysg y caneuon cyfarwydd ceid 'Molly Malone', 'Que Sera', 'Daisy, Daisy' ac 'Ar Hyd y Nos'. Gan amlaf ni fyddai copi o'r geiriau yn hanfodol neu'n angenrheidiol ar gyfer y caneuon hyn gan fod mwyafrif y cyfranogwyr yn cofio'r geiriau, a chan fod llawer o adrannau'r caneuon yn ailadroddus.

Awgrymwyd yn y canllawiau i ddefnyddio caneuon tôn gron er mwyn caniatáu i harmoni ddigwydd yn naturiol; ond yn ogystal, gorfodai caneuon o'r fath yr unigolyn i gofio a chanolbwyntio ar eu rhan hwy, yn enwedig os oedd y grŵp wedi ei rannu'n bedwar, fel y gwelir yn Ffigwr 1. Y caneuon mwyaf addas yn y cyswllt hwn oedd rhai megis 'Ble Mae Daniel?' a '*Row, Row, Row Your Boat*'. Yn ogystal, roedd canu dwy gân yn erbyn ei gilydd yn golygu lefel o ganolbwyntio dwys iawn ar ran y cyfranogwyr. Y tro hwn, nid yn unig y clywid un alaw ar draws y llall ond hefyd gosodwyd dau set o eiriau gwahanol ar draws ei gilydd. Ceir llawer o bosibiliadau creadigol am ganeuon sy'n gallu cysylltu â'i gilydd yn y modd hwn, megis drwy gyfuno '*It's a Long Way to Tipperary*' a '*Pack All Your Troubles*'.

Wedi canu caneuon sy'n gofyn am ymdrech ar ran y bobl sydd â dementia i ganolbwyntio, fel y rhai uchod, roedd yn syniad dilyn caneuon o'r fath gyda chaneuon tawelach megis 'Lisa Lân', 'Ar Lan y Môr' neu 'Mae 'Nghariad i'n Fenws', gyda chyfeiliant y tro hwn ar y delyn Geltaidd. Yn ogystal, roedd caneuon gwerin Cymreig o'r math hwn yn adlewyrchu'r traddodiad Cymreig ac roedd yn bwysig eu cynnwys; er mai Saeson oedd mwyafrif mynychwyr y grwpiau, roeddynt yn parchu a gwerthfawrogi'r traddodiad a'r caneuon. Gwelwyd yn aml yn ystod y caneuon hyn rai o'r cyfranogwyr yn eistedd nôl yn dawel gan gau eu llygaid. Roedd y caneuon gwerin felly'n rhoi cyfle i bobl ymlacio a chael ysbaid fach yng nghanol y sesiwn.

---

33 *Singing for the Brain®: Leader's Guide*, t. 7.

Mae Bryden, sydd ei hun yn dioddef o ddementia, yn pwysleisio bod angen ystyried amgylchfyd pobl sydd â dementia, gan neilltuo amseroedd ar gyfer adegau o lonyddwch ac ymlacio; a gellir cynnwys hyn fel rhan o sesiwn ganu. Dywed Bryden:

> (the environment) needs to validate the person's experiences and emotions, facilitate the person's actions, celebrate the person's abilities, and provide sensory pleasures.[34]

Roedd nifer o'r mynychwyr Saesneg yn dangos diddordeb yn y gân 'Ar Lan y Môr', a thros gyfnod o rai wythnosau daethant yn gyfarwydd â'r alaw; felly, o ganlyniad, cyfieithodd yr arweinydd fersiwn syml o'r gân gan argraffu'r geiriau er mwyn iddynt roi cynnig ar ei chanu pe baent yn dymuno. Canai'r cydlynydd bennill yn y Gymraeg yn gyntaf, gan roi'r cyfle wedyn i ganu'r gân yn y Saesneg cyn symud at yr ail bennill yn y Gymraeg. Rhoddai hyn gyfle iddynt ganu geiriau newydd i alaw a ddechreuodd ddod yn adnabyddus iddynt, ac o ganlyniad daeth hyn yn rhan reolaidd o'r sesiynau canu.

Yn gynharach, trafodwyd sylwadau Rio ynglŷn â buddion cerddoriaeth wrth gofio a dysgu pethau newydd, ac roedd pob sesiwn *SftB* yn rhoi'r cyfle i hyn ddigwydd drwy gyflwyno caneuon newydd i *repertoire* y sesiynau, neu drwy gynnig cyfieithiadau o ganeuon lle y byddai'r bobl sydd â dementia yn gyfarwydd â'r alaw, ond yn anghyfarwydd â'r geiriau. Dywed Rio:

> Music itself is patterned and organized sounds, much more organized than typical speech. Remembering a conversation may be hard, but remembering a series of organized notes or a poem is much easier.[35]

Esblygodd y *repertoire* yn gyson wrth i'r wythnosau fynd yn eu blaen a hynny'n rhannol o ganlyniad i ffurflenni a oedd yn cael eu dosbarthu i'r cyfranogwyr ar y dechrau yn gofyn am eu cefndir a'u diddordebau cerddorol, ac yn raddol teilwriwyd *repertoire* ar gyfer pob grŵp.

Roedd caneuon megis '*Skye Boat Song*' a '*Molly Malone*' yn dweud stori ac yn ddefnyddiol i'w cynnwys gan fod y cyfranogwyr yn gallu gwrando a mwynhau'r penillion gan ymuno yn y cytganau'n unig. Roedd cynnwys rhai caneuon gyda rhywfaint o symud yn perthyn iddynt hefyd yn bwysig, nid yn unig ar gyfer ymarfer corff ysgafn ond hefyd er mwyn rhoi cymorth wrth gofio geiriau mewn cân a chanddi ddilyniant, megis 'Pen, Ysgwyddau, Coesau, Traed' neu 'Cân y Gwcw'.

Defnyddiwyd llyfryn gyda geiriau i rai o'r caneuon yn achlysurol ac fe'i haddaswyd pan gyflwynwyd caneuon newydd neu hepgor ambell un llai poblogaidd. Ni roddwyd gormod o sylw i'r llyfryn gan mai un o amcanion *SftB* oedd ysgogi gweithrediad gwybyddol ac i ddysgu pethau newydd.[36] Roedd rhai caneuon yn ddelfrydol ar gyfer defnydd o offerynnau taro, megis '*Molly Malone*', lle y rhennir y grwpiau canu yn ddau gydag un hanner y grŵp yn cyfleu'r *cockles* (offerynnau taro megis tambwrîn neu glychau yn tincian), a'r hanner arall yn cyfleu'r *mussels* (offerynnau taro megis maracas neu flociau pren yn 'crensian' neu 'glecian'). Arafwyd y gytgan mewn mannau er mwyn rhoi'r cyfle i'r cyfranogwyr ysgwyd eu hofferynnau yn eu tro:

---

34 Bryden, *Dancing with Dementia*, tt. 144–5.
35 Rio, *Connecting Through Music with People with Dementia*, t. 92.
36 *Singing for the Brain®: Leader's Guide*, t. 5.

Alive, alive o! Alive, alive o!
Crying cockles … and mussels … alive, alive o!

Hefyd, rhoddwyd cyfle i ddefnyddio'r offerynnau taro mewn modd llawer mwy rhythmig mewn rhai caneuon, gan eu gwneud yn rhan allweddol o'r gerddoriaeth, a daeth hyn yn amlwg mewn caneuon megis '*Guantanamera*' a '*La Bamba*'. Dosbarthwyd amrywiaeth o offerynnau taro rhwng yr holl gyfranogwyr, gan sefydlu rhythm pendant wrth ganu'r penillion i gyfeiliant y gitâr. Daeth y syniad o hebgor ac yna ailgyflwyno haenau offerynnol yn bwysig mewn caneuon o'r fath – gan hebgor y canu'n gyntaf, yna'r gitâr – a gadael yr offerynnau taro'n unig i gadw'r curiad am rai munudau cyn ailgyflwyno'r canu a'r gitâr.

I orffen pob sesiwn, canwyd cân adlewyrchol, ysgafn, i ymlacio. Ar ôl canu'r gân glo mewn unsain i ddechrau, fe'i canwyd wedyn fel tôn gron gan rannu grwpiau yn dri neu'n bedwar yn ddibynnol ar y niferoedd a oedd yn bresennol.

**5. Ymateb i'r sesiynau**

Roedd y grŵp cyntaf a sefydlwyd, sef grŵp Hen Golwyn, yn hynod o boblogaidd gyda'r niferoedd a fynychai'n cyrraedd neu'n mynd uwchlaw'r uchafswm bob wythnos. Roedd awyrgylch gyfeillgar a chymdeithasol i'w gael yno, gyda llawer o hwyl a chwerthin. Ceid llawer o sgwrsio rhwng y mynychwyr ar ddechrau a diwedd pob sesiwn ac roedd hyn yn rhannol oherwydd eu bod yn adnabod ei gilydd oddi wrth y *Memory Café* yn yr ardal.[37] Gydag amser, yn y grwpiau eraill, cynyddodd y cymdeithasu rhwng y mynychwyr hefyd. Byddai grŵp Rhyl yn hoff iawn o ddawnsio gan fod llawer o'r mynychwyr yn mynychu clybiau dawnsio yn eu hieuenctid. Oherwydd bod oddeutu chwarter cyfranogwyr sesiynau Bangor a Dinbych yn Gymry Cymraeg, cafwyd mwy o gyfle yma i ganu caneuon Cymraeg. Roedd y cyfranogwyr di-Gymraeg i'w gweld yn mwynhau gwrando ar y caneuon hyn, gan geisio gwneud ymdrech i ymuno yn achlysurol. Gan nad oedd Cymry Cymraeg yn mynychu sesiynau Hen Golwyn a Rhyl, cafwyd llai o ganeuon Cymraeg yn y *repertoire*, ond defnyddiwyd caneuon megis 'Ar Lan y Môr' a 'Lisa Lân' er mwyn sicrhau bod y grwp yn ymlacio tuag at ddiwedd y sesiynau, ac roedd y mwyafrif o'r mynychwyr i'w gweld yn mwynhau ac yn gwerthfawrogi'r caneuon hyn.

Daeth yn amlwg fod y gallu gan bobl sydd â dementia i ddysgu caneuon a phenillion newydd a bod llawer o'r cyfranogwyr yn eu cofio o wythnos i wythnos.[38] Ni ddaeth yr ymchwilydd ar draws enghreifftiau mewn sesiynau y tu allan i rai *SftB* Gogledd Cymru lle y gosodwyd geiriau newydd i alawon cyfarwydd wrth ymdrin â phobl sydd â dementia. Mae lle, felly, ar gyfer ymchwil pellach yng nghyswllt dysgu geiriau newydd i alawon cyfarwydd, a hynny ar gyfer mesur gweithrediad y cof.

Byddai rhai o'r caneuon bywiog, megis '*Guantanamera*' a 'La Bamba' yn ysgogi'r cyfranogwyr i'r fath raddau fel eu bod yn codi i ddawnsio. Rhoddwyd penrhyddid i unrhyw un ddawnsio pe dymunent heb osod pwysau ar eraill i godi ar eu traed ac ymuno.

---

37 *Memory Café* yw man cyfarfod ar gyfer pobl sydd â dementia a'u gofalwyr i ddod i gymdeithasu a rhannu gwybodaeth. Gweler: http://www.nhs.uk/video/pages/memory-cafe.aspx (Cyrchwyd: 21 Medi 2015).

38 Gweler sylwadau Rio, uchod.

Atega hyn ymateb tebyg yn ymchwil Brynjulf Stige gyda chôr yr henoed yn Norwy lle y byddai rhai (nad oedd o reidrwydd yn dioddef o ddementia) yn dawnsio i gerddoriaeth traddodiadol Norwy. Dywed Stige:

> They came walking to the concert on feeble legs, but their dancing was something different. They came to sing and stayed to dance …[39]

**6. Canlyniadau'r holiaduron a'r cyfweliadau**

Gofynnwyd tri chwestiwn meintiol a phedwar cwestiwn ansoddol. Fel ymateb i'r cwestiynau meintiol, roedd 83% o fynychwyr y grwpiau yn wrywaidd a 17% yn fenywaidd, gyda chyfartaledd oedran y grwpiau yn 75. Clefyd Alzheimer oedd afiechyd y mwyafrif ohonynt (50%), gyda 25% yn dioddef o ddementia fasgwlar a 25% yn dioddef o gyfuniad o'r ddau.

Yn yr adran ganlynol, dadansoddir yr ymatebion i'r cwestiynau ansoddol.

*A ydych yn credu bod gan sesiynau Singing for the Brain effaith ar gof tymor byr mewn unrhyw ffordd? Os felly, am ba hyd y ceir yr effaith hon? Esboniwch sut.*

Dyma gwestiwn a oedd yn allweddol i'r ymchwil ac mae'n amhosibl rhagweld yr ateb gan nad oes llawer o ymchwil wedi ei wneud ar effaith canu mewn grŵp ar gof tymor byr cleifion sydd â dementia. Roedd llawer o'r atebion yn datgan nad oeddynt yn gwybod os oedd y sesiynau o fudd i'r cof tymor byr, tra bod eraill yn teimlo bod y sesiynau yn cael effaith gadarnhaol arnynt. Nodwyd y canlynol gan ŵr a gofalwr gwraig 72 mlwydd oed a oedd yn dioddef o glefyd Alzheimer:

> Gyda chyswllt rheolaidd a chynefindra, mae cof tymor byr yn cynyddu, ac er mai dim ond ddwywaith y mis yr ydym yn dod at ein gilydd, mae'r gallu i gofio caneuon a sgyrsiau o sesiynau blaenorol yn sbarduno atgofion a meddyliau.[40]

Yn yr un modd, cafwyd yr ymateb canlynol gan ŵr 62 mlwydd a oedd yn dioddef o ddementia cynnar (Alzheimer's):

> Oes, mae o gymorth i mi gofio caneuon ac alawon ac rwy'n mwynhau eu canu wedyn. Mae'n parhau yn ystod y sesiwn ac am gyfnod byr wedyn, cofio beth rwyf wedi ei wneud a phwy rwyf wedi'i gyfarfod.

Roedd un wraig yn nodi bod ei gŵr, a oedd yn 74 mlwydd oed ac yn dioddef o ddementia fasgwlar, yn cofio'n well am ddiwrnod neu ddau ar ôl y sesiwn.

*A fuasech yn dweud bod y sesiynau Singing for the Brain yn effeithio ar ansawdd bywyd? Esboniwch sut.*

Cafwyd ymateb cadarnhaol gyda llawer o'r atebion yn datgan bod y sesiynau yn eu gwneud yn hapus a'u bod yn cael llawer o fwynhad oddi wrthynt. Derbyniwyd sylwadau a

---

[39] Stige, 'Caring for Music: The *Senior Choir* in Sandane, Norway', t. 246.

[40] Mae'r dyfyniad hwn, ynghyd â nifer o ddyfyniadau eraill sy'n ymddangos yn yr erthygl hon yn perthyn i set o holiaduron a gasglwyd fel rhan o'r ymchwil. Saesneg yw iaith wreiddiol y dyfyniadau, ond fe'u cyfieithwyd i'r Gymraeg gan yr awdur.

oedd yn dangos eu bod yn teimlo'n gyfforddus yn mynychu sesiynau gyda phobl a oedd mewn sefyllfa debyg iddynt hwythau:

> Person sydd â dementia: Ydi, mae'r sesiynau yn codi'n nghalon ac rwyf wastad yn teimlo'n hapus ac yn sylweddoli bod eraill mewn sefyllfa debyg i mi.
>
> Person sydd â dementia: Mae cymryd rhan mewn sesiynau grŵp yn rhoi buddion anferthol: cyfranogiad, cyflawni rhywbeth gyda phobl eraill – rwy'n teimlo wedi ymlacio'n llwyr ar derfyn dydd.

Adlewyrcha'r sylwadau uchod un o amcanion *SftB* a nodwyd gan Bannam a Montgomery-Smith, a restrir yn nhrydedd ran yr erthygl hon, sef:

> To help families with dementia 'come out' and feel part of society where they have a right to artistic and social stimulation.[41]

Ni chafwyd atebion negyddol, sy'n dangos yn glir fod gan sesiynau *SftB* effaith bositif ar ansawdd bywyd, yn enwedig wrth fagu'r teimlad o hapusrwydd a'r gallu i ymlacio. I'r cwestiwn 'A yw'r sesiynau o gymorth iddynt i gyfathrebu?' roedd pob ymateb yn gadarnhaol, a gwelwyd bod llawer o'r atebion yn cysylltu ag amcan rhif 4 Montgomery-Smith a Nick Bannan yn yr ystyr fod sesiynau *SftB* yn effeithio arnynt mewn ffordd bositif oherwydd eu bod yn cyflawni rhywbeth gyda phobl eraill a oedd mewn sefyllfa debyg iddynt hwy eu hunain. Dyma enghreifftiau o'r atebion a gafwyd:

> Person sydd â dementia: Ydy, yn bendant, drwy ganu a cherddoriaeth mae gennym 'fond' cyffredin yr ydym i gyd yn ei fwynhau, ac sy'n caniatáu i chi agor allan yn hawdd.
>
> Person sydd â dementia: Ydy, mae cyfarfod a siarad ag eraill sy'n ymuno â'r sesiynau wedi bod o gymorth i roi hwb i fy hyder.
>
> Person sydd â dementia: Ydy, rwyf yn sgwrsio â phobl eraill sy'n mynychu ac mae'n gymorth i rannu profiadau o broblemau cofio.

Rhoddwyd cyfle ar ddiwedd yr holiadur i nodi unrhyw sylwadau cyffredinol, ac ymysg y sylwadau a gafwyd, nodwyd mwynhad yn gyffredinol yn ogystal â mwynhad o fod yn rhan o grŵp. Roedd nifer yn awyddus i'r sesiynau barhau yn y dyfodol ac iddynt fod yn wythnosol yn hytrach na phob pythefnos.

> Person sydd â dementia: Bod yn rhan o weithgaredd grŵp rwyf wirioneddol yn ei fwynhau.
>
> Person sydd â dementia: Rwyf wastad yn teimlo bod croeso i mi ac mae arweinyddion y sesiynau yn gyfeillgar.
>
> Person sydd â dementia: Mae'r holl staff yn gweithio mor galed er mwyn i ni allu mwynhau ein prynhawn allan. Mae'r cerddorion yn ei wneud yn hwyl, maent yn rhoi llawer i mewn i'r sesiynau.

---

[41] Bannan, N., a Montgomery-Smith, C. (2006), '"Singing for the Brain": reflections on the human capacity for music arising from a pilot study of group singing with Alzheimer's patients and carers', Chwefror 2006 (heb ei gyhoeddi), t. 2.

Derbyniwyd un sylw oddi wrth ddyn 75 mlwydd oed a oedd yn dioddef o Glefyd Alzheimer a gyfeiriodd at ysgogiad yr ymennydd yng nghyswllt y sesiynau:

> Person sydd â dementia: Yn bersonol, nid 'wy'n teimlo fod canu yn ysgogi fy ymennydd, ond rwy'n teimlo bod yr amgylchedd canu yn ysgogi'r ymennydd yn yr un modd ag yr arferai cyfathrach gymdeithasol wneud hynny.

Gwelir bod canlyniadau'r holiaduron yn gadarnhaol iawn ar y cyfan. Nodwyd gan rai y ceir effaith bositif ar y cof tymor byr am weddill y dydd ac am ddiwrnod neu ddau wedi hynny mewn ambell achos. Y prif elfennau a welwyd yn yr holiaduron oedd hapusrwydd ynghyd â'r cyfle i gymdeithasu a chyd-ganu gyda phobl mewn sefyllfa debyg iddynt hwy.

Wrth gynnal y cyfweliadau, roedd yn bwysig rhoi amser i'r person ateb; mae angen amser ar bobl sydd â dementia i hel eu meddyliau, i feddwl am y geiriau cywir a sut i lunio'r frawddeg yn eu pen cyn siarad. Mae Bryden yn taflu goleuni pellach o safbwynt pobl sydd â dementia wrth drafod y sgiliau cyfathrebu sydd angen eu hystyried:

> We need you to listen carefully as we can't repeat our words. We struggle to speak and it often comes out in a very scrambled way, without grammar and syntax. Please try to make sense of the feelings we are trying to convey. The sense of being listened to, and of being heard, will make us feel valued. This is what we need as we cope with shattered thoughts and fragmented selves.[42]

Mae'n bwysig siarad yn glir a phwyllog, cynnal cyswllt llygaid ac ymatal rhag gofyn gormod o gwestiynau, un ar ôl y llall. Â Bryden ymlaen i ddweud:

> Try to avoid direct questions, which can alarm us or make us feel very uncomfortable. Questions also make us feel pressured for the immediacy we have lost. If we have forgotten something special that happened recently, don't assume we didn't enjoy it … (even) if we never remember, surely the memory of the event is not what is important – it is our experience at the time that really matters.[43]

Mae pobl sydd â dementia eu hunain yn fwy tebygol o roi sylwadau am y sesiynau drwy sgwrs mewn cyfweliadau anffurfiol yn hytrach na nodi sylwadau ar bapur, oherwydd mae'r broses o ysgrifennu yn anos o ganlyniad i'w cyflwr. Er hyn, gyda chwestiynau penodol yr holiadur, mae'n bosibl eu trafod gyda'u gofalwyr a chael cymorth i'w nodi'n gryno ar bapur. Roedd llawer o'r sylw a wnaethpwyd yn ystod y cyfweliadau yn adlewyrchu'r hyn y cyfeiriwyd ato yn yr holiaduron.

Roedd nifer o'r cyfranogwyr yn barod ac yn hapus iawn i sgwrsio â'r awdur gan ddod ymlaen i ddweud eu bod wedi mwynhau'r sesiwn ac i gynnig syniadau am ganeuon; roeddynt yn barod iawn i geisio esbonio sut oeddynt yn teimlo ar ôl y sesiynau a'r effaith a gafodd y sesiynau arnynt. Gellir esbonio brwdfrydedd y cyfranogwyr i sgwrsio ar ôl y sesiynau oherwydd bod y canu wedi eu hysgogi. Casglwyd nifer o ddyfyniadau gan y bobl sydd â dementia, gan gynnwys:

> Mae fel bod ar rafft, gyda'r gerddoriaeth yn eich cludo. Gallaf ganolbwyntio am hirach.

---

42 Bryden, *Dancing with Dementia*, t. 138.

43 Ibid., t. 140.

Fel ymateb i'r cwestiwn, 'ydych yn mwynhau'r sesiynau?', atebwyd:

> O ydw! Plîs peidiwch â rhoi gorau iddynt, peidiwch byth â rhoi gorau iddynt; rhain yw uchafbwynt fy wythnos. Gawn ni nhw'n amlach?

Yn ogystal, cafwyd sylwadau defnyddiol oddi wrth y gofalwyr a'u perthnasau:

> Mae hi'n canu rhai o'r caneuon a ganwyd yn ystod y sesiynau iddi hi ei hun ac yn dawnsio ar ôl mynd adref; mae hi i'w gweld yn fwy effro.
>
> Mae o'n fwy sionc ar ôl y sesiynau; does dim llawer o gyfathrebu rhyngom fel arfer, ond mae mwy o gyfathrebu ar ôl bod yma.

Yn ogystal ag ymateb y cyfranogwyr i'r sesiynau *SftB*, cafwyd ymateb defnyddiol yr arweinydd (sef y canwr a'r cyfansoddwr Arfon Wyn), ynghyd â rheolwr gwasanaethau cynnal y GA, Tracy Stockin, a oedd yn bresennol ym mwyafrif y sesiynau er mwyn cael agwedd gyfannol i'r sesiynau. Dywedodd Stockin ei bod yn gweld bod y gofalwyr yn mwynhau'r sesiynau gan brofi cyfle i ymlacio mewn amgylchedd ddiogel a chefnogol. Nododd fod defnyddio'r llyfryn canu yn syniad da ond sylwodd fod y mwyafrif o bobl sydd â dementia yn cydganu o'r cof gan ei fod yn ymdrech i ddal i fyny â'r geiriau ysgrifenedig. Atega hyn y pwysigrwydd a roddir yn ystod y sesiynau i beidio â dibynnu'n ormodol ar y llyfrau canu er mwyn ysgogi gweithrediad gwybyddol, cynnal cyswllt llygaid a chanu caneuon gyda symudiad. Nodwyd ynghynt am gyswllt llygaid ac un corfforol rhwng y partneriaid, a cheir sylw gan Tracy Stockin yn yr un cyswllt:

> For the first few sessions, personally I was very moved by the experience. Watching couples holding hands, looking into each others' eyes and singing songs together. It was magical. Particularly where carers had said that there was little conversation at home. I have also observed family relationships strengthening through the sessions e.g. father/daughter.

Gofynnwyd i Arfon Wyn sut effaith a gafodd arwain sesiynau o'r fath arno ef:

> Byddaf yn aml yn teimlo'n flinedig mewn ffordd emosiynol ar ôl ymroi i'r sesiwn gyfan a darganfod llwybrau cerddorol i galon y rhai sy'n cydganu â ni … rwy'n ddiolchgar iawn o gael rhan yn y prosiect a chredaf ei fod yn *adfer* nid yn unig atgofion/cof y cleifion ond hefyd yr hen arfer o gydrannu a chyd-deimlo mewn cân yn yr hen ddull gwerinol Cymreig.

### 7. Gwerthuso gwaith *SftB* yng ngogledd Cymru

Gwelwyd oddi wrth y broses o arsylwi'r sesiynau, canlyniadau'r holiaduron a'r cyfweliadau sut y gwireddwyd amcanion gwreiddiol *SftB* a gynlluniwyd gan Montgomery-Smith a Nick Bannan i raddau helaeth yn sesiynau *SftB*, a gynhaliwyd yng ngogledd Cymru yn ystod y cyfnod dan sylw. Mae'r amcanion fel a ganlyn:

**a) Gwella a chynnal llwybrau niwrolegol drwy weithgaredd aerobig ysgafn.**

Cafwyd nifer o ymatebion yn cadarnhau bod manteision niwrolegol i'r sesiynau a hynny'n bennaf drwy ddatgan bod y sesiynau o gymorth wrth ganolbwyntio. Honnai'r pobl sydd â dementia eu bod yn cofio'r sesiynau a'r caneuon wedi iddynt ddychwelyd adref ac yn eu trafod, a fyddai'n ysgogi atgofion a meddyliau. Sylwai rhai o'r gofalwyr bod y bobl sydd â dementia yn parhau i ganu'r caneuon ar ôl dychwelyd adref.

**b) Bod o gymorth i ofalwyr a phobl â dementia i weld ei gilydd mewn amgylchiadau hapus lle y cânt eu hysgogi i fwynhau cyfathrebu;**

Roedd mwyafrif yr adborth a dderbyniwyd yn datgan bod y sesiynau'n gwneud gofalwyr a phobl sydd â dementia yn hapus a'u bod yn cael llawer o fwynhad oddi wrthynt. Yn ogystal, roedd y gofalwyr yn mwynhau ac roedd cyswllt llygaid a chorfforol rhwng y partneriaid i'w weld yn glir yn ystod y sesiynau canu.

**c) Codi neu atal iselder trwy elfennau a fydd yn cysuro, cefnogi ac ysbrydoli gan fod o gymorth i feithrin safbwynt bywyd cadarnhaol yn hytrach nag un negyddol;**

Nid darganfod buddion y sesiynau ar gyfer iselder yn benodol oedd amcan yr ymchwil hon, ond roedd y ffaith fod cymaint o'r adborth yn datgan hapusrwydd (ynghyd â'r teimlad o berthyn a ddeuai oddi wrth y sesiynau) yn dangos effaith bositif *SftB* ar y cyfranogwyr fel a welwyd yng nghanlyniadau'r holiaduron a'r cyfweliadau.

**d) Bod yn rhywbeth y gall meddyg teulu ei argymell i gleifion.**

Fe soniwyd am *Singing on Prescription* ar ddechrau rhan 3, a gwelir oddi wrth yr ymchwil hon fuddion canu, yn enwedig mewn grŵp, ac mae *SftB* gan y GA yn ymdrin â llawer o'r buddion hynny gan gynnwys yr amcanion a restrir yma.

**e) Bod o gymorth i deuluoedd sydd ag aelod â dementia i ddod allan o'u cragen a bod yn rhan o gymdeithas lle y mae ganddynt yr hawl i ysgogiad artistig a chymdeithasol.**

Gwelwyd bod y sesiynau canu yn mynd i'r afael â'r amcan hwn: roedd y ffaith fod cyfle am sgwrs a phaned ar ddechrau ac ar ddiwedd y sesiwn o gymorth, gyda'r arweinwyr a'r gwirfoddolwyr yn gyfeillgar ac a chanddynt empathi tuag at y bobl sydd â dementia (sef un o'r nodweddion yr honai Kitwood oedd yn bwysig wrth ymdrin â phobl sydd â dementia). Roedd y cyfranogwyr yn teimlo'n gyfforddus yn mynychu'r sesiynau gyda phobl a oedd mewn sefyllfa debyg iddynt hwy eu hunain.

**f) Annog gofalwyr a phobl sydd â dementia i fod yn rhagweithiol pan mae'n dod i ofalu amdanynt eu hunain, ynghyd â'u hannog i rwydweithio gydag eraill sydd mewn sefyllfa debyg iddynt eu hunain er mwyn iddynt fedru bod o gymorth i'w gilydd.**

Roedd cyfranogi'n rheolaidd i grwpiau *SftB* yn annog y bobl sydd â dementia yn ogystal â'r gofalwyr i ofalu am eu hunain. Cafwyd cyfle arbennig yma i gysylltu â phobl mewn sefyllfa debyg iddynt hwy, gan drafod anawsterau yn eu bywydau, pe dymunent.

**g) Gwneud i deuluoedd edrych arnynt eu hunain fel rheolwyr eu bywyd, nid fel dioddefwyr eu tynged.**

Crëwyd y sesiynau hyn yn arbennig ar gyfer y bobl sydd â dementia a'u gofalwyr, ac o ganlyniad cynigiai trefnwyr, arweinyddion a gwirfoddolwyr *SftB* eu gwasanaeth yn arbennig iddynt hwy gan ystyried eu hamgylchiadau a'u gofynion. Oherwydd hyn, a chyfuniad o'r holl amcanion eraill a restrir uchod, roedd y cyfranogwyr yn edrych ar eu hunain yn ystod y sesiynau mewn golau positif ac nid fel 'dioddefwyr eu tynged' fel y nodir uchod.

**Casgliadau cyffredinol**

Gwelwyd eisoes drwy dystiolaeth y bobl sydd â dementia a'r gofalwyr bod cyfranogaeth i sesiynau *SftB* yn darparu ysgogiad i brosesau niwrolegol gan gyfrannu at ansawdd bywyd. Gobaith yr ymchwil hon oedd ceisio darganfod os oedd gan ganu mewn grŵp unrhyw effaith ar y cof tymor byr. Daeth yn amlwg yn ystod yr ymchwil fod y cwestiwn hwn yn un anodd i'w ateb a hynny'n rhannol gan na allai nifer o'r bobl sydd â dementia gadarnhau a oedd unrhyw effaith yn parhau y tu allan i'r sesiynau. Fel ymateb i gwestiwn yr holiadur a ofynnai 'a ydych yn credu bod gan sesiynau *Singing for the Brain* effaith ar gof tymor byr mewn unrhyw ffordd?', dywedodd un cyfranogwr a lenwodd yr holiadur ar ei ben ei hun: 'Dwi wir ddim yn gwybod!' Ond, cafwyd achosion a oedd yn awgrymu bod y sesiynau yn cael effaith bositif ar y cof tymor byr, er mai bach oedd yr effaith ar y cyfan. Yn yr holiaduron lle y bu'r pobl sydd â dementia yn eu llenwi ar y cyd gyda'r gofalwyr a'u perthnasau, gallent fod o gymorth i'w gilydd wrth geisio gweld a oedd y sesiynau'n cael unrhyw effaith ai peidio. Dyma'r rheswm i'r awdur annog y cyfranogwyr i lenwi'r holiaduron gyda'i gilydd er mwyn trafod y cwestiynau a rhoi'r adborth gorau posibl.

Yma, adroddir yn gryno ar astudiaeth achos a hynny er mwyn cynnig mewnwelediad penodol i effaith sesiynau *SftB* ar un o'r cyfranogwr (er gwarchod ei enw, rhoddwyd ffugenw iddo):

> Cymro 74 mlwydd oed yw Iestyn ac mae ei ddementia ef yn gyfuniad o ddementia fasgwlar a Chlefyd Alzheimer. 'Be ti'n dod â mi i fama?' – dyna ddywedodd Iestyn wrth ei wraig cyn y sesiwn gyntaf; nid oedd yn gyfforddus cyn cychwyn y sesiwn o gwbl a hynny efallai oherwydd nad oedd yn adnabod gweddill y grŵp ac yn ansicr o'i bwrpas yn y grŵp. Bellach mae Iestyn wrth ei fodd yn dod i'r sesiynau, i'w weld yn mwynhau, ac yn cymryd y canu o ddifrif. Mae'r gallu ganddo i ddarllen y geiriau o'r llyfr wrth i'w wraig arwain gyda'i bys o dan y geiriau, ond gwell gan Iestyn edrych ar yr arweinydd/cydlynydd wrth ganu. Yn yr holiadur a gafodd ei lenwi ar y cyd rhwng Iestyn a'i wraig, nodwyd bod cof Iestyn yn well am ddiwrnod neu ddau ar ôl y sesiwn canu a'i fod yn hapusach ynddo'i hun ar ôl mynychu'r sesiwn. Nodwyd hefyd fod gan y sesiynau effaith bositif arnynt i gyfathrebu yn ystod ac ar ôl y sesiynau.

Mae'n rhaid pwysleisio nad gwella'r cof tymor byr oedd prif bwrpas y sesiynau i bobl sydd â dementia ond yn hytrach y cyfle i gymdeithasu â phobl a oedd mewn sefyllfa debyg iddynt hwy, uniaethu â nifer mewn sefyllfaoedd tebyg, ac yn syml cael mwynhau a chael ysbaid oddi wrth fywyd llawn anawsterau. Yn wir, hwyrach y rhoddwyd gormod o bwyslais ar geisio dod o hyd i fuddion gweithrediad gwybyddol wrth ganu mewn grŵp. Gwelwyd eisoes sylwadau gan Christine Bryden ar y ffordd yr oedd pobl sydd â dementia yn meddwl. Yn aml, rhoddir pwyslais ar roi cymorth iddynt gofio, ond efallai y dylid rhoi mwy o bwyslais ar beth sy'n bwysig iddynt hwy, sef 'byw i'r funud' a'r mwynhad a'r emosiwn a all ddod o hynny. Mae llyfr Bryden yn boblogaidd iawn yn y maes oherwydd nid yn aml y ceir pobl sydd â dementia yn ysgrifennu am eu profiadau o fyw gyda dementia, felly mae'n rhoi mewnwelediad gwerthfawr, prin i'w byd. Dyma ddywed Bryden wrth drafod y cof:

> I usually enjoy each moment of our time together, so why is it so important that I remember it? Please keep visiting me, even if I might not remember that

> you came before, or even who you are. The emotion of your visit, the friendly feelings you give to me, are far more important. It is the emotion I connect to, not the cognitive awareness of the event.[44]

Â ymlaen i ddweud:

> Why does it matter if I cannot remember, if I repeat myself, or forget what you told me? If I enjoy your visit, why must I remember it? Why must I remember who you are? Is this just to satisfy your own need for identity? Your visit is not a cognitive experience that I will store and recall. Let me live in the present. If I forget a pleasant memory, it does not mean it was not important to me.[45]

Wrth gwrs, efallai nad yw'r sylwadau yn adlewyrchu barn pawb sy'n dioddef o ddementia, ond yn sicr mae'n cynnig mewnwelediad o'r hyn sy'n bwysig iddi hi ac o bosibl i lawer un arall.

O'r ymchwil a gwblhawyd ar gyfer yr erthygl hon, gwelir bod canu mewn grŵp, *SftB* yn benodol, yn cael effaith gadarnhaol ar y bobl hynny sy'n mynychu. Mae sesiynau cerddoriaeth o'r fath yn medru cyfrannu at gael ansawdd bywyd gwell drwy ysgogi'r cleifion, gan gynnwys eu prosesau niwrolegol. Mae'n bwysig bod sesiynau o'r fath yn parhau'n rhan o fywyd wythnosol y bobl sydd â dementia ynghyd â'r rhai sy'n gofalu amdanynt.

## Llyfryddiaeth

### *Llyfrau cyhoeddedig*


Aldridge, David (gol.) (2005), *Case Study Designs in Music Therapy* (London: Jessica Kingsley Publishers).

Aldridge, David (gol.) (2000), *Music Therapy in Dementia Care* (London: Jessica Kingsley Publishers).

Bryden, Christine (2005), *Dancing with Dementia* (London: Jessica Kingsley Publishers).

Claire, Alicia Ann (2000), 'The Importance of Singing with Elderly Patients', yn Aldridge, David (gol.), *Music Therapy in Dementia Care* (London: Jessica Kingsley Publishers), tt. 81–101.

Holden, Una, a Stokes, Graham (2002), 'The Dementias', yn Stokes, Graham, a Goudie, Fiona (goln), *The Essential Dementia Care Handbook* (Bicester: Speechmark Press), tt. 11–21.

Kitwood, Tom (1997), *Dementia Reconsidered: The Person Comes First (Rethinking Ageing)* (Buckingham: Open University Press).

Rio, Robin (2009), *Connecting Through Music with People with Dementia: A Guide for Caregivers* (London: Jessica Kingsley Publishers).

Robson, Colin (2002), *Real World Research: Second Edition* (Oxford: Blackwell).

Sacks, Oliver (2007), *Musicophilia* (London: Picador).


---

44 Bryden, *Dancing with Dementia*, t. 110.

45 Ibid.

Stige, Brynjulf (2010), 'Caring for Music: The *Senior Choir* in Sandane, Norway', yn Stige, Brynjulf, Ansdell, Gary, Elefant, Cochavit, et al. (goln), *Where Music Helps: Community Music Therapy in Action and Reflection* (Surrey: Ashgate), tt. 245–74.

Stokes, Graham (2009), *And Still the Music Plays: Stories of People with Dementia* (London: Hawker Publications Limited).

Stokes, Graham, a Goudie, Fiona (goln) (2002), *The Essential Dementia Care Handbook* (Bicester: Speechmark Press).

Williams, Gareth (1998), *Valleys of Song: Music and Society in Wales 1840–1914* (Cardiff: University of Wales Press).

***Llyfrynnau***

*Singing for the Brain®: Leader's Guide* (Gellir derbyn copi o fanyleb y gwasanaeth oddi wrth Tracy Stockin, rheolwr gwasanaethau cynnal Cymdeithas Alzheimer Gogledd Cymru; tracy.stockin@alzheimers.org.uk).

*Singing for the Brain®: Results of an evaluation of three Alzheimer's Society services in England and Wales*, Chwefror 2012 (Gellir derbyn copi o'r adroddiad ar ffurf ffeil pdf oddi wrth Katie Daniel, Rheolwr Gwerthuso Rhaglenni; katie.daniel@alzheimers.org.uk).

***Erthyglau***

Aldridge, David, ac Aldridge, Gudrun (1992), 'Two Epistemologies: Music Therapy and Medicine in the Treatment of Dementia', *The Arts in Psychotherapy*, 19, 243–55.

Bannan, N., a Montgomery-Smith, C., '"Singing for the Brain": reflections on the human capacity for music arising from a pilot study of group singing with Alzheimer's patients and carers', Chwefror 2006 (heb ei gyhoeddi).

Hays, T., a Minichiello, V. (2005), 'The meaning of music in the lives of older people: a qualitative study', *Psychology of Music*, 33, 437–51.

Montgomery-Smith, Chreanne (2006), 'Musical exercises for the mind', *Journal of Dementia Care*, 14 (3), 10–11.

Stige, Brynjulf (2010), 'Caring for Music: The *Senior Choir* in Sandane, Norway', yn Stige, Brynjulf, Ansdell, Gary, Elefant, Cochavit, a Pavlicevic, Mercédès (goln), *Where Music Helps: Community Music Therapy in Action and Reflection* (Surrey: Ashgate), tt. 245–74.

Williams, Nia Davies (2012), ''Y Golau a Ddychwel': Cerddoriaeth a Dementia yng Nghymru', *Gwerddon*, 10/11, 113–31.

***Traethodau ymchwil***

Ifan, Gwawr, 'Modd i Fyw: golwg ar gerddoriaeth mewn iechyd a lles yng Nghymru', traethawd PhD, Prifysgol Bangor, Bangor, 2012.

Ridder, Hanne Mette Ochsner, 'Singing dialogue: Music therapy with persons in advanced stages of dementia: A case study research design', traethawd PhD, Aalborg University, Denmarc, 2003.

Tomaino, Concetta M., 'Music on their Minds: a qualitative study of the effects of using familiar music to stimulate preserved memory function in persons with dementia', traethawd PhD, New York University, UDA, 1999.

***Gwefannau***

<http://www.canterbury.ac.uk/centres/sidney-de-haan-research> (Cyrchwyd: 5 Mehefin 2015).

<http://www.canterbury.ac.uk/Research/Centres/SDHR/ResearchProjects/CompletedProjects/FormulativeEvaluation.aspx>, Formulative evaluation pdf., t. 3 (Cyrchwyd: 5 Mehefin 2012).

<http://www.shef.ac.uk/lets/evaluate/general/methods-collection/questionnaire> (Cyrchwyd: 6 Mehefin 2012).

<http://www.publichealth.bwdpct.nhs.uk/life-expectancy> (Cyrchwyd: 22 Mai 2015).

<http://www.s4c.co.uk/ffeithiol/c_un_bob_tri.shtml> (Cyrchwyd: 16 Medi 2015).

<http://www.alzheimers.org> (Cyrchwyd: 9 Gorffennaf 2015).

<http://www.dementiauk.org> (Cyrchwyd: 4 Gorffennaf 2015).

<http://www.nhs.uk/video/pages/memory-cafe.aspx> (Cyrchwyd: 21 Medi 2015).

***Rhaglenni teledu a radio***

*Un o Bob Tri* (2012), S4C, 29 Chwefror.

*Dementia: Making a Difference* (2012), BBC2, 10 Mai.

*Y Pla Newydd* (2012), Radio Cymru, 2, 9, 16 a 23 Medi.

***Cyfweliadau***

Tracy Stokin (nifer o gyfweliadau rhwng Ebrill 2012 a Medi 2012), rheolwr gwasanaethau cynnal Cymdeithas Alzheimer Gogledd Cymru.

Sarah Teagle (2012), Adran Addysg a Chymuned Opera Cenedlaethol Cymru, 24 Mehefin.

Arfon Wyn (2012), Arweinydd *Singing for the Brain*, 5 Medi.

Gareth Evans-Jones

# Y Seren yn y Groes: effaith deddfau imperialaidd cynnar Rhufain ar y berthynas rhwng yr Eglwys a'r Iddewon

Gwerddon
CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG
Golygydd: **Dr Anwen Jones**

# Y Seren yn y Groes: effaith deddfau imperialaidd cynnar Rhufain ar y berthynas rhwng yr Eglwys a'r Iddewon

*Gareth Evans-Jones*

Tymhestlog fu hanes perthynas yr Eglwys â'r Iddewon ers y canrifoedd cynnar. Pan ddaeth y Cristnogion i'r amlwg, nid oedd yr Iddewon yn eu hystyried yn ddim mwy na sect fechan yn ceisio ennill ei thir ond a fyddai'n edwino yn y pen draw.[1] Felly daeth yn gryn syndod i'r Iddew a'r pagan pan droes yr Ymerawdwr Cystennin Fawr at Gristnogaeth, a phan gyhoeddodd Theodosiws I ynghyd â Gratian a Felentinian II yn 380 mai Cristnogaeth fyddai crefydd swyddogol yr Ymerodraeth Rufeinig.[2] Fel y disgwylid, cafodd hyn effaith fawr ar yr Iddewon.

Diben yr astudiaeth hon yw ymchwilio i'r modd y dylanwadodd y deddfau imperialaidd cynnar a gyflwynwyd yn ystod y cyfnod hwn ar berthynas yr Eglwys Gatholig Rufeinig â'r Iddewon, yn ogystal ag ystyried goblygiadau'r deddfau mewn cyfnodau diweddarach. Y cam cyntaf felly yw ystyried i ba fath o gymdeithas y cyflwynwyd y deddfau hyn.

Roedd y bedwaredd ganrif yn gyfnod arwyddocaol i Gristnogaeth yn ogystal ag Iddewiaeth oherwydd er na anwyd yr un o'r ddwy grefydd yn ystod y ganrif honno, cafwyd digwyddiadau o bwys a fyddai'n effeithio ar y naill a'r llall: cynhaliwyd cynghorau eglwysig er mwyn diffinio'r Ffydd Gristnogol; daeth llawer o Dadau, sef diwinyddion blaenllaw'r Eglwys, i'r amlwg, gan effeithio ar agwedd y Cristnogion at eu cymdogion Iddewig; a chafwyd athrawon rabinaidd dylanwadol.[3]

Un o'r prif ddigwyddiadau oedd tröedigaeth yr ymerawdwr yn 337 pan fedyddiwyd Cystennin Fawr ar ei wely angau.[4] Er mai ar ddiwedd ei oes y troes yn swyddogol at Grist, yr oedd yn amlwg ei fod eisoes yn Gristion o argyhoeddiad. Yn ystod ei oes rhoddodd nawdd i'r Eglwys godi addoldai, gwneud copïau o'r ysgrythurau, ac yn ôl un cofnod, rhoddodd balas ei ail wraig, Ffawsta, i esgobion Rhufain fel preswylfa.[5] Yn 313, cyflwynodd Gyhoeddeb Milan gan ddatgan bod Cristnogaeth yn grefydd gydnabyddedig.[6]

Roedd Cristnogaeth yn amlwg yn cael ei ffafrio'n fwy na holl grefyddau'r Ymerodraeth, a daeth Cystennin yn weithgar mewn materion a oedd o bwys i'r Eglwys drwy alw am y cyngor byd-eang cyntaf er mwyn diffinio'r Ffydd ac ymladd heresi. Daeth Cristnogaeth yn

1 Lucas, Leopold (1993), *The Conflict Between Christianity and Judaism* (Wiltshire: Arts & Phillips Ltd.), t. 74.

2 Jones, G. L. (1994), *Lleisiau o'r Lludw* (Dinbych: Gwasg Gee), t. 26. Gweler ymhellach, Elher, Sidney Zdeneck, a Morral, John B. (goln) (1954), *Church and State Through the Centuries: A Collection of Historic Documents with Commentaries* (New York: Burns & Oates), tt. 6–7.

3 Parkes, J. W. (1934), *The Conflict of the Church and the Synagogue: a study in the origins of antisemitism* (London: Soncino Press), tt. 153–55.

4 Jones, *Lleisiau o'r Lludw*, t. 26.

5 Chadwick, H. (1997), *The Early Church* (Hammondsworth: Penguin), t. 125.

6 Kessler, Edward (2013), *An Introduction to Jewish-Christian Relations*, 3ydd argraffiad (Cambridge: Cambridge University Press), t. 47.

y cyfnod hwn felly'n ffactor wleidyddol. Un o bynciau llosg y cyfnod a gafodd ei drin yn ystod Cyngor Nicea (325) oedd dyddiad a dathliad y Pasg: pennodd yr esgobion system o gael dyddiad ar gyfer y Pasg fel na fyddai'n digwydd yn ystod y Pesach, a gwaharddwyd Cristnogion rhag cymryd rhan yn nathliadau'r Pesach yn yr un modd ag y gwaharddwyd Iddewon rhag mynychu gwasanaethau'r Pasg.[7] Roedd yr ysgrifen ar y mur ynglŷn â dyfodol yr Iddewon gyda thröedigaeth Cystennin.

Parhaodd ei olynyddion i arddel Cristnogaeth ac eithrio Jwlianus y Gwrthgiliwr. Erbyn canol y bedwaredd ganrif roedd Cristnogaeth yn ennill ei thir, rhoddwyd rhagorfreintiau i'r Eglwys ac roedd nifer ei haelodau'n cynyddu, ond bu bron i'r gŵr hwn droi sefyllfa'r Eglwys ar ei phen yn ystod ei gyfnod byr fel ymerawdwr (361–3).

Roedd Jwlianus â'i fryd ar ailsefydlu'r crefyddau paganaidd a thanseilio Cristnogaeth. Ei weithred fwyaf arwyddocaol ac un a fuasai'n ddinistriol pe buasai wedi'i chyflawni, oedd addo ailgodi'r Deml. Diben ailgodi'r Deml fuasai ennill cefnogaeth yr Iddewon yn ogystal â gwrthbrofi daliadau rhai Cristnogion cynnar a ystyriai gwymp y Deml yn arwydd digamsyniol o Dduw yn gwrthod yr hen Israel.[8] Fel y gwyddys, ni chyflawnwyd y cynllun ond perodd y bygythiad i'r awdurdodau Cristnogol boeni ynghylch dyfodol y grefydd. Dyma oedd un o brif bryderon y Tadau Eglwysig.

Ar ôl teyrnasiad Jwlianus cafwyd gweithredoedd arwyddocaol a gryfhaodd yr Eglwys. Diddymwyd paganiaeth yn 381 gan Theodosiws I, maluriwyd eu temlau a'u cysegrfeydd, ond caniatawyd i Iddewiaeth barhau fel crefydd gyfreithlon. Er i'r Ymerodraeth Rufeinig ymrannu yn 395, parhaodd Cristnogaeth fel crefydd swyddogol y Gorllewin a'r Dwyrain.

Tra oedd yr Eglwys Fore'n ymlafnio i osod seiliau cadarn at y dyfodol, roedd Iddewiaeth, 'yr hen grefydd', yn dal i ffynnu. Roedd ei llwyddiant yn ddraenen yn ystlys yr Eglwys oherwydd y ceid cystadleuaeth barhaus rhyngddi a'r Synagog am eneidiau'r paganiaid, ac oherwydd fod yr Iddewon yn gwrthod coleddu'r efengyl, datblygodd traddodiad gwrth-Iddewig gyda'r nod o wneud Iddewiaeth yn llai deniadol. Rhoddwyd y nod hwn yn nwylo medrus y diwinyddion.

### Ioan Chrysostom (c.350?–407)[9]

Yn y bedwaredd ganrif, crisialwyd holl agweddau negyddol pregethau'r canrifoedd cynnar gan offeiriad awdurdodol o Antioch, sef Ioan Chrysostom. Rhwng hydref 386 a gwanwyn 387, traddododd Chrysostom wyth pregeth yn ceryddu'r Iddewon. Cyfeiriodd atynt mewn iaith sarhaus gan alw'r synagog yn 'lloches lladron', 'puteindy' a 'theatr',

7 Am drafodaeth ynglŷn â'r cwestiwn pryd y dylid dathlu'r Pasg, a Chyngor Nicea'n gyffredinol, gweler Simon, M. (1986), *Verus Israel* (New York: Oxford University Press), tt. 316–21. Gwaharddwyd Cristnogion ac Iddewon rhag cymysgu â'i gilydd yn ystod gwyliau crefyddol hefyd yng Nghyngor Antioch (341); yn yr un modd ag yng Nghyngor Laodicea (434–81), lle y gwaharddwyd Cristnogion rhag dathlu'r *Shabbat* na derbyn anrhegion yn ystod gwyliau Iddewig, a hynny er mwyn ceisio osgoi Iddeweiddio. Gweler Flannery, E. H. (2004), *The Anguish of the Jews*, 3$^{ydd}$ argraffiad (New York: Paulist Press), t. 55.

8 Roedd mwyafrif y Cristnogion cynnar yn credu'n llwyr ym mhroffwydoliaeth Iesu, sef na chyfodid teml arall fyth eto (Mth. 24:2). Yn ddiau, buasai ailgodi'r Deml yn tanseilio dysgeidiaeth Iesu.

9 Am drafodaeth gyflwyniadol ddiddorol, gweler Kelley, J. N. D. (1995), *Golden Mouth: The Story of John Chrysostom – Ascetic, Preacher, Bishop* (Ithaca, New York: Cornell University Press).

ac ystyriodd yr Iddewon yn 'foch' a oedd yn byw 'mewn glythineb a medd-dod'.[10] Pwysleisiodd hefyd mai addoli eilunod oeddent yn eu synagogau yn hytrach na Duw.

Sefydlwyd cymuned Iddewig Antioch yng nghanol yr ail ganrif CC ac yn yr un modd â dinasoedd eraill yr Ymerodraeth Ddwyreiniol, roedd gan Iddewon ran allweddol ym mywyd y ddinas. Antioch hefyd oedd man geni Cristnogaeth y Cenhedloedd.[11] Erbyn y bedwaredd ganrif OC, roedd Antioch yn weddol luosogaethol gydag Iddewon, Cristnogion a phaganiaid, ac i'r byd hwn y ganwyd Ioan Chrysostom. Oherwydd y berthynas agos rhwng yr Iddewon a'r Cristnogion cyffredin, pregethodd Chrysostom yn chwyrn yn erbyn yr Iddewon gan iddo ofni y buasai'r Cristnogion yn cael eu Hiddeweiddio.[12]

Gwreiddiwyd y traddodiad gwrth-Iddewig yn ddwfn yng ngyrfa'r gŵr hwn, yn enwedig mewn perthynas â'r cyhuddiad o *theoktonia* (duwladdiad), y drosedd eithaf. Yn unol â'r cyhuddiad hwnnw, darluniodd yr Iddewon fel bodau dieflig y dylid eu hosgoi.[13]

Gyda'r cyhuddiad o ladd Crist, ac felly Duw yn y cnawd, roedd y dial yn ddiderfyn.[14] Ar un wedd, diben cwbl ymosodol oedd i bregethau Chrysostom, sef pardduo'r 'hen grefydd' drwy gyhoeddi iddi farw gyda chwymp y Deml. Ond mewn gwirionedd, ceid diben amgenach, sef gofal bugeiliol. Yr hyn a oedd yn pryderu'r Eglwys Fore oedd y cawsai rhai Cristnogion eu hudo gan y synagogau ysblennydd ac arferion yr Iddewon, felly roedd yn rhaid brwydro er mwyn cadw'r ffyddloniaid. Mewn gwirionedd, ymosod ar yr Iddeweiddwyr a wna Chrysostom yn ei *Logoi kata Ioudaiōn*, ac nid yr Iddewon fel y cyfryw. Mae'r un pryder i'w ganfod yng ngweithiau Tadau Eglwysig eraill megis Emrys o Filan a alwodd am wahanu'r Iddewon oddi wrth y Cristnogion.[15]

Ceisiodd Chrysostom ddarlunio Iddewiaeth yn y goleuni gwaethaf posibl ac yn ddiau, cafodd pregethu huawdl yr 'aur enau' ddylanwad ar agwedd y Cristion at ei gymydog Iddewig. Nid cyd-ddigwyddiad oedd i'r enghraifft gyntaf o wir erledigaeth wrth-Iddewig

---

[10] Cyfieithiad Jones, *Lleisiau o'r Lludw*, t. 30.

[11] Cyfeirir at y ddinas yn llyfr yr Actau fel man y genhadaeth gyntaf i'r Cenhedloedd. Yn ôl Act. 11:26: 'Am flwyddyn gyfan cawsant gydymgynnull gyda'r eglwys a dysgu cryn dyrfa; ac yn Antiochia y cafodd y disgyblion yr enw Cristionogion gyntaf.'

[12] Byddai nifer o Gristnogion yn ymwneud â chymunedau Iddewig yn ystod eu gwyliau, er enghraifft, byddent yn dathlu'r Pasg gyda'r Iddewon, byddai nifer o'r Cristnogion yn ystyried y synagogau fel mannau sanctaidd ac ystyrient fod yr Iddewon yn ymgorfforiad o barhad yr Israel feiblaidd. Gweler Kessler, *An Introduction to Jewish-Christian Relations*, t. 58. Am drafodaeth ynglŷn â chyd-destun cymdeithasol-grefyddol Antioch yn y cyfnod, gweler Sandwell, Isabella (2007), *Religious Identity in Late Antiquity: Greeks, Jews and Christians in Antioch* (Cambridge: Cambridge University Press).

[13] Harkins, P. W. (1979), *Saint John Chrysostom: Discourses Against Judaizing Christians*, The Fathers of the Church, 68 (Washington: Catholic University of America Press), t. 23. Wrth gwrs, nid Chrysostom oedd y cyntaf i ddatgan y fath gyhuddiad ond mae'n debyg oherwydd hinsawdd grefyddol a gwleidyddol y cyfnod, i'w gredoau gael cryn ddylanwad. Yn wir, mae cofnod cynharach o'r cyhuddiad hwn i'w gael yng ngyrfa Melito (*c.*140–85 OC), Esgob Sardis yng ngorllewin Twrci. Yn ei bregeth enwocaf ar y Pasg, *Peri Pascha*, ceir Melito'n cyhuddo'r Iddewon o dduwladdiad am iddynt ladd Duw yn y cnawd drwy groeshoelio Iesu. Am drafodaeth bellach am y gŵr hwn, gweler Hall, S. G. (gol.) (1979), *Melito of Sardis: On Pascha and Fragments* (Oxford: Oxford University Press), yn arbennig tt. 280–93.

[14] Y math o adnodau yn y Testament Newydd yr ystyrid fel cyfeiriadau at yr Iddewon yng nghyswllt duwladdiad yw Math. 27: 25; In. 5: 18; 10: 31–9.

[15] Lucas, *Conflict of the Church and the Synagogue*, tt. 12–13.

yn Atioch ddigwydd ar ôl i Chrysostom bregethu'r fath agwedd at yr 'hen grefydd'. Cafodd ddylanwad yn fuan iawn hefyd ar ôl symud i Gaergystennin a pheri i bob synagog yn y ddinas gael ei chau. Yn wir, paratôdd yr 'aur enau' y ffordd at draddodiad gwrth-Iddewig a fyddai'n para am ganrifoedd ar ei ôl.[16]

Teg fyddai dweud i agwedd negyddol Chrysostom gael dylanwad ar yr awdurdodau eglwysig ond nid agwedd bur negyddol a gafwyd gan yr holl Dadau Cynnar.

**Awstin Sant (350–430)[17]**

Agwedd amwys a amlygwyd gan Awstin Sant. Adleisiai'r esgob ddadleuon diwinyddol ei gyfoeswyr, megis fod Iddewiaeth wedi'i disodli gan Gristnogaeth ynghyd â chyfrifoldeb yr Iddewon am iddynt – drwy eu cyn-deidiau – ladd Crist, ond er iddo fynegi agwedd wrth-Iddewig a phwysleisio rhagoriaeth y Cristion, dengys Awstin agwedd arall, fwy cadarnhaol, tuag at yr Iddewon.

Yr hyn a oedd yn boen meddwl i Awstin oedd, os disodlwyd Iddewiaeth gan atgyfodiad Crist, pam fod y grefydd honno'n parhau i fodoli a ffynnu? A oedd ganddi orchwyl arbennig i'w chyflawni? Y cwestiynu hyn fu'r ysgogiad iddo ystyried yr Iddewon mewn modd amgenach i'w gyfoeswyr.

Gwelai ef a'i debyg neges Gristnogol yn yr Hen Destament ond ni allai'r Iddewon wneud hynny. Daeth Awstin i'r casgliad mai'r dallineb ysbrydol hwn oedd y rheswm paham nad adnabu'r Iddewon yr Iesu a phaham iddynt ei groeshoelio. Gwrthododd eu cyhuddo o dduwladdiad a chyflwynodd ddiwinyddiaeth wreiddiol:

> Nid wyf yn dweud *duwleiddiaid*, oherwydd 'pe buasent wedi ei adnabod, ni fuasent wedi croeshoelio Arglwydd y gogoniant' (1 Cor. 2: 8). Maddeuwyd iddynt am ladd y diniwed.[18]

Daeth i'r casgliad fod gan yr Iddewon ran allweddol yng nghynllun Duw a chyfeiriodd at Rhuf. 11: 17–24 i gadarnhau hyn. Oherwydd fod gan yr Hen Destament neges Gristnogol roedd yn rhaid i'r Iddewon fodoli fel llyfrgellwyr er mwyn cadw'r ysgrythurau. Yng ngofal yr Iddew y rhoddwyd yr Hen Destament ond y Cristion yn unig a all amgyffred ei wir neges yn ôl Awstin: 'Yr Iddewon yw ein llyfrgellwyr; y maent fel caethweision yn cludo llyfrau eu meistr'.[19] Diben yr Iddewon yn eu dallineb ysbrydol felly yw cludo'r ysgrythurau yn y Gwasgariad. Hynny'n wir oedd y rheswm paham y gwasgarwyd yr Iddewon gan Dduw.

---

16 Fel y crisialodd Flannery, '*The effects of his preaching and his teaching of the deicide accusation wielded a baleful influence not only on the clergy and populace of his time but on those of centuries thereafter.*' Flannery, *Anguish of the Jews*, t. 52. Enghraifft ddiddorol o ddylanwad Chrysostom ar gymdeithasau diweddarach yw'r modd y cyfieithwyd pregethau'r 'aur enau' i'r Rwsieg yn yr unfed ganrif ar ddeg wrth i'r pogrom cyntaf yn hanes Rwsia ddigwydd a hynny yn ystod teyrnasiad y Tywysog Fladimir (956–1015). Yn rhannol oherwydd pregethau Chrysostom, lluniwyd deddfau gorthrymus yn erbyn yr Iddewon gan iddynt gael eu darlunio fel plant y fall, wedi eu melltithio gan y dwyfol ac wedi eu gosod yn gyfan gwbl ar wahân. Gweler Kessler, *An Introduction to Jewish-Christian Relations*, t. 59.

17 Am ragor o wybodaeth am Awstin Sant, gweler Brown, Peter (2000), *Augustine of Hippo: A Biography*, argraffiad diwygiedig (Berkeley & Los Angeles: University of Carolina Press).

18 Cyfieithiad Jones, *Lleisiau o'r Lludw*, t. 34. Pwyslais yn y gwreiddiol.

19 Ibid., t. 35.

Dywed Awstin mai'r un dynged sydd wedi ei phennu i'r Iddewon ag oedd i Cain wedi iddo ladd Abel (y brawd ieuengaf), sef crwydro'r ddaear yn ddigartref hyd dragwyddoldeb am iddynt 'ladd' Iesu (y grefydd ieuengaf). Serch hynny, nid ydynt i gael eu difa oherwydd fel y rhoddwyd tynged ar Cain, rhoddwyd swyddogaeth i'r Iddewon i fod yn dystion ac i barhau fel cenedl. Amlygid y swyddogaeth hon yn eu harferion crefyddol. Dadleua Awstin fod Cain yn *tupos* sy'n esbonio dwy nodwedd o eiddo'r Iddewon, sef eu hunaniaeth grefyddol a'u hollbresenoldeb. Nid oedd yr un teyrn, fel y gwelwn, boed yn bagan neu'n Gristion, wedi llwyddo i ddileu arferion hynafol y *Torah*. Gellid eu gorthrymu ond nid eu niweidio'n gorfforol. Ymddangosodd y cysyniad hwnnw'n gyson yn natganiadau swyddogol yr Eglwys o'r bumed ganrif ymlaen.[20]

Gellid dweud bod dadleuon diwinyddol Awstin i fod yn oddefgar o'r Iddewon wedi sicrhau parhad i'r genedl ond ar yr un pryd, fel y noda Carrol:

> The "witness" prescription attributed to (Augustine) – let them survive, but not thrive – would underline the destructive ambivalence that marked Catholic attitudes from then on.[21]

Dyma'n fras agwedd ddwyochrog yr Eglwys tuag at yr Iddewon. Ar y naill law roedd yr Iddewon yn wrthodedig, wedi lladd Duw ac yn greaduriaid dieflig, ond ar y llaw arall roedd yn rhaid eu cadw oherwydd eu bod yn tystio i wirionedd yr efengyl. Felly, roedd yn ddyletswydd ar y wladwriaeth a'r Eglwys i'w hamddiffyn rhag ymosodiadau mympwyol eu gelynion. Cafodd y ddeuoliaeth hon ddylanwad ar feddwl yr oes ac yn enwedig ar yr ymerawdwyr.

**Y deddfau dylanwadol**

Roedd gan y ffaith fod yr ymerawdwr yn Gristion oblygiadau anochel i'r berthynas rhwng yr Eglwys a'r Iddewon. Yr oedd am i'r Eglwys ffynnu a Christnogaeth ymledu ac un ffordd o wneud hynny oedd drwy gynnal cynghorau eglwysig. Cafwyd cynghorau mewn amryw dalaith ond lleol yn unig oedd eu harwyddocâd a lleol yn unig oedd eu dylanwad. Felly daeth gwawr newydd pan gynhaliodd Cystennin y cyngor byd-eang cyntaf yn Nicea (325) a mabwysiadu rhai o'r deddfau a basiwyd i'r ddeddfwriaeth imperialaidd. Yr hyn a welwn yw po fwyaf y gefnogaeth i Gristnogaeth, y mwyaf gwrth-Iddewig yr âi deddfau'r Ymerodraeth.[22]

Cyhoeddwyd nifer o ddeddfau'n ymwneud â'r Iddewon rhwng 313 a 438 ac fe'u dygwyd ynghyd yng *Nghasgliad Theodosiws* yn 438 (*CTh*). Roedd y casgliad hwn yn dangos agwedd lawdrwm Rhufain tuag at yr Iddewon ond yr oedd hefyd yn cynnwys eu breiniau. Yn ddiweddarach adolygwyd y deddfau; cafodd llawer ohonynt eu hepgor ac fe'u cynhwyswyd mewn ail gasgliad yn 534, sef *Casgliad Jwstinian* (*CJ*), er mwyn difrïo'r Iddewon ymhellach.[23] Yn raddol mabwysiadwyd deddfau *Casgliad Theodosiws* at gyfraith

---

20 Ibid., t. 38.

21 Carrol, J. (2001), *Constantine's Sword* (Boston: Houghton Mifflin), t. 219.

22 Linder, A. (2006), 'The Legal Status of the Jews in the Roman Empire', yn Katz, S. T. (gol.), *The Cambridge History of Judaism* (Cambridge: Cambridge University Press), t. 145.

23 Jones, *Lleisiau o'r Lludw*, t. 40. Ceir cyfieithiad o ddeddfau *Casgliad Theodosiws* a *Casgliad Jwstinian* ynghyd ag ymdriniaeth fanwl â hwy yn Linder, A. (1987), *The Jews in Roman Imperial Legislation* (Michigan: Wayne State University Press).

ganonaidd yr Eglwys a gosododd y casgliadau hyn sylfaen ar gyfer safle'r Iddewon yn yr Ymerodraeth Fysantaidd a'r canrifoedd canlynol.[24]

### Deddfau anffafriol

Yr hyn a welir drwy gydol *Casgliad Theodosiws* yw'r dirywiad graddol ym mreiniau'r Iddewon ac erbyn y diwedd, yn niogelwch cymunedau Iddewig yr Ymerodraeth.[25] Er mwyn gweld hyn trown ein sylw at ddetholiad o ddeddfau gwrth-Iddewig eu natur.

Un o'r pynciau llosg yn yr ymrafael rhwng yr Iddewon a'r wladwriaeth oedd caethwasiaeth. Cyhoeddodd Constantius II, un o feibion Cystennin Fawr:

> Petai unrhyw Iddew'n prynu caethwas o sect neu genedl arall, rhaid trosglwyddo'r caethwas hwnnw i'r trysorlys ar unwaith. Petai'r Iddew'n prynu caethwas ac yn ei enwaedu, fe'i cosbir nid yn unig trwy golli'r caethwas ond hefyd trwy ddioddef dienyddiad. Petai Iddew'n meiddio prynu caethion yn perthyn i'r Ffydd Gristnogol, cymerer pob un sydd yn ei feddiant oddi arno ar unwaith.
>
> Constantius II, 13 Awst 339. (*CTh* 16: 9.2; Linder 11)[26]

Nid ymgais ar ran yr ymerawdwr i gael gwared â chaethwasiaeth mo hon ond yn hytrach ffordd o gyfyngu ar deuluoedd Iddewig a llesteirio'r Iddewon rhag ennill mwy o ddilynwyr yn y fath fodd. Roedd yn rhaid i'r Iddewon, yn ôl yr *halachah*,[27] enwaedu eu caethweision er mwyn iddynt gydymffurfio â'r aelwyd Iddewig a chyflawni gorchwylion arbennig. Ond nid oedd hyn yn dderbyniol yng ngolwg yr ymerawdwr, yn enwedig gan fod y syniad fod Cristion yn gwasanaethu Iddew, Jacob yn gwasanaethu Esau, yn gwbl wrthun.[28]

Cafwyd sawl deddf debyg i hon gan mai hwn oedd un o'r prif bynciau a boenai Cystennin Fawr. Cyhoeddodd ddeddf ym mis Hydref 335 (*CTh* 16: 9.1) a waharddai enwaedu caethweision, a'r gosb i'r sawl a wnâi hynny oedd colli'r caethwas. Erbyn deddf Constantius II (*CTh* 16: 9.2), gwelwn fod y gosb wedi gwaethygu: 'fe'i cosbir nid yn unig trwy golli'r caethwas ond hefyd trwy ddioddef dienyddiad'.[29]

Fel y disgwylid, cafodd gwahardd perchnogi caethion effaith andwyol ar fywyd economaidd yr Iddewon. Heb weision ni allent gystadlu â'r Cristnogion oherwydd bod angen caethion i amaethu'r tir yn effeithiol. Cafodd hefyd effaith ar fywyd crefyddol yr Iddewon oherwydd byddai'r caethion yn cyflawni nifer o ddyletswyddau megis goleuo lampau yn y synagog yn ystod y *Shabbat*.[30] Serch hynny, bu cyfaddawdu am gyfnod;

---

24 Ruether, R. R. (1974), *Faith and Fratricide: The Theological Roots of Antisemitism* (New York: Seasbury Press), t. 186.

25 Parkes, *The Conflict of the Church and the Synagogue*, t. 177.

26 Cyfieithiad Jones, *Lleisiau o'r Lludw*, t. 40; cyfeirir yn ogystal at gyfrol Linder, *The Jews in Roman Imperial Legislation*, tt. 144–51.

27 *Yr halachah* yw'r gyfraith Iddewig, sef corff o ddeddfau a gasglwyd ynghyd o nifer o ffynonellau gan gynnwys y *Torah* ysgrifenedig a llafar (*Talmwd*).

28 Roedd y Cristnogion cynnar yn hoff o'r syniad, sef bod Gen. 25: 23–6 yn tystio i Iddewiaeth (Esau) gael ei disodli gan Gristnogaeth (Jacob) a diben yr Iddewon bellach oedd gwasanaethu Cristnogion.

29 Cyfieithiad Jones, *Lleisiau o'r Lludw*, t. 40.

30 Ruether, *Faith and Fratricide*, t. 187.

yn 415, ymatebodd Honorius i geisiadau'r Iddewon a chaniatáu iddynt gadw caethion Cristnogol ar yr amod na fyddent yn eu rhwystro rhag arddel eu crefydd (*CTh* 16: 9.3). Yn 417, caniataodd Theodosiws II i Iddewon etifeddu caethion Cristnogol ar yr amod eu bod yn gochel rhag eu troi'n Iddewon (*CTh* 16: 9.4). Fodd bynnag, yn 423, dychwelwyd i'r hen drefn o wahardd perchnogi caethion Cristnogol (*CTh* 16: 9.5).

Cafodd y deddfau hyn y fath effaith nes y bu'n rhaid i'r mwyafrif arallgyfeirio'n raddol a gwneud gwaith megis teilwra, benthyca a masnachu; bu dirywiad yn statws yr Iddewon yn y gymdeithas o ganlyniad i'r gwaharddiad hwn.[31] Fe'u gwaharddwyd hefyd rhag y weinyddiaeth sifil a'r fyddin, ac yn raddol rhag dal unrhyw swydd o awdurdod megis cyfreithiwr, barnwr neu reolwr carchar.[32] Yr egwyddor y tu ôl i'r fath ddeddfau oedd na fyddai'n dderbyniol i Gristion fod dan iau Iddew. Yn wleidyddol ac yn gymdeithasol felly, câi'r Iddewon eu gwthio i'r cyrion.

Yr unig swydd o awdurdod a oedd yn agored ac yn orfodol i'r Iddewon oedd swydd y dengwriad (*CTh* 16: 8.3). Yn wreiddiol, cafodd aelodau'r glerigaeth Iddewig eu hesgusodi rhag bod yn ddengwriaid ond yn raddol daeth y fraint honno i ben, a daeth yn orfodol i Iddewon o bob statws dderbyn y swydd.[33] Mewn cymdeithas a oedd yn wan yn economaidd, nid oedd neb yn hoff o'r dengwriad, ac felly, ffordd o wneud yr Iddewon a'u crefydd yn llai atyniadol ydoedd.

Roedd proselyteiddio'n broblem ddyrys yn nwy ran yr Ymerodraeth Rufeinig yn ystod y bedwaredd a'r bumed ganrif. Rhwng 329 (*CTh* 16: 8.1) a 438 cyhoeddwyd dim llai na saith deddf yn ymdrin â hyn. Gallwn weld pa faint o sylw a roddid i'r pwnc gan mai cymaint yn llymach yr âi'r cosbau.[34]

Roedd llwyddiant yr Iddewon yn cenhadu yn pryderu'r Tadau. Un enghraifft yw fel yr aeth cenhadon Iddewig i ffatri weu a llwyddo i droi'r gwragedd yno at Iddewiaeth. Yn dilyn eu tröedigaeth, gwrthodent weithio yn y ffatri ond mynnent aros yn yr ardal i arddel eu crefydd newydd.[35] Ni wyddys a oedd cenhadu torfol yn gyffredin ond ystyriodd y Tadau Cynnar dröedigaeth Iddewig fel gwir fygythiad i'r Ffydd, a gwelir bod yr ymerawdwr yn rhannu'r un pryder wrth iddo ddeddfu yn erbyn y sawl a feiddiai droi at Iddewiaeth:[36]

> Os gellir profi fod rhywun wedi troi oddi wrth Gristnogaeth at Iddewiaeth ac ymuno â'u cynulleidfaoedd halogedig, gorchmynnwn fod ei eiddo'n mynd i feddiant y trysorlys.
>
> Constantius II, 3 Gorffennaf 357. (*CTh* 16: 8.7; Linder 12)[37]

Swyddogaeth yr Eglwys oedd cenhadu a llesteirio'r Iddewon rhag dylanwadu ar ei phraidd, felly cafwyd deddfau a amddiffynnai unrhyw un a fuasai'n troi at Grist. Enghraifft

31 Armstrong, A. H. (1985), 'The Way and Ways', yn Neusner, J., a Frerichs, Ernest S. (goln), *"To See Ourselves as Others See Us": Christians, Jews, "Others" in Late Antiquity* (California: Scholar Press), t. 381.

32 Enghreifftiau o'r rhain yw *CTh* 16: 8.16, *CTh* 16: 8.22, *CTh* 16: 8.24, *Constitutio Sirmondian* 6 a *Novella* 3.

33 Ruether, *Faith and Fratricide*, t. 190.

34 Linder, 'The Legal Status of the Jews in the Roman Empire', t. 164.

35 Linder, *The Jews in Roman Imperial Legislation*, tt. 145–7.

36 Parkes, *Conflict of the Church and the Synagogue*, t. 419.

37 Cyfieithiad Jones, *Lleisiau o'r Lludw*, t. 42.

o genhadu Cristnogol drwy'r gyfraith yw fel y gwaharddodd Jwstinian yr Iddewon rhag defnyddio esboniadaeth rabinaidd megis y *Mishnah* mewn gwasanaethau yn y synagog (*NovJ* 146). Credai Jwstinian unwaith y tynnid dallineb y rabi o'r esboniadaeth y byddai'r Iddewon yn gallu llawn ddeall eu hysgrythurau. Llwyddodd y Synagog i osgoi hyn ond gwelir y fath eithafion yr âi'r ymerawdwyr iddynt i geisio cynyddu aelodau'r Eglwys.[38]

Draenen arall yn ystlys yr Eglwys oedd bod y Cristnogion cyffredin a'r Iddewon yn cyd-fyw'n heddychlon. Yn Sbaen, fel yn yr Ymerodraeth Rufeinig, roedd yr Iddewon a'r Cristnogion yn ymwneud â'i gilydd ar lefel ddyddiol ond roedd esgobion Sbaen am i'r berthynas agos droi'n berthynas rhwng meistr a'i was. O ganlyniad, pan gynhaliwyd Cyngor Elfira yn 306, gwaharddwyd Cristnogion rhag priodi na chael cyfathrach rywiol gydag Iddewon oni bai fod yr Iddew wedi troi at Grist (Canon 16). Yn ogystal, gwaharddwyd Cristnogion rhag rhoi lletygarwch i Iddewon a chael rabiniaid i fendithio eu caeau (Canon 50).[39] Yn yr un modd, daeth ymerawdwyr Rhufain yn fwy pryderus ynghylch y gyfathrach rhwng yr Iddewon a'r Cristnogion, felly datganodd Theodosiws I ar 14 Mawrth 388 fod priodas rhwng Cristion ac Iddew yn gyfystyr â godineb.[40]

Diben gwahardd priodasau o'r fath oedd osgoi Iddeweiddio, yn unol â nod yr Eglwys. Mae'n debyg fod deddf o'r fath wedi peri i elyniaeth ddechrau ymddangos rhwng y Cristnogion a'r Iddewon cyffredin. Fel deddf seciwlar yr oedd yn unigryw ond yr oedd yn cydymffurfio ag agweddau'r rabiniaid a'r Eglwys, a thrwy wahardd priodasau cymysg, atgyfnerthid y monopoli crefyddol ar y ddwy ochr.

Yr hyn sy'n nodweddiadol o'r deddfau yw eu bod yn cynnwys geirfa sy'n atseinio pregethau a rhethreg y Tadau. Er enghraifft, cyfeirir yn fynych at Gristnogaeth fel '*religio*' tra bod Iddewiaeth yn '*superstitio*'.[41]

**Deddfau cadarnhaol**

Byddai'n gamarweiniol dweud bod yr holl ddeddfau a gafwyd mewn perthynas â'r Iddewon yn negyddol oherwydd wrth i ddeddfau a orthrymai'r Iddewon gael eu datgan, cafwyd hefyd rai a amddiffynnai eu crefydd a'u harferion. Gwelir felly fod yr ymerawdwyr yn parchu'r Iddewon ac yn barod i warchod eu hawliau er gwaethaf y diwinyddion. Pan na chafodd yr Iddewon fawr o drugaredd gan awdurdodau'r Eglwys, bu'n rhaid i'r ymerawdwr gamu i'r adwy a phwysleisio eu breiniau.

Fel y dywedwyd eisoes, Iddewiaeth oedd yr unig grefydd ar wahân i Gristnogaeth i gael parhau yn yr Ymerodraeth fel '*religio licita*', a hynny am nifer o resymau. Yn ôl Juster, roedd yr ymerawdwr yn goddef yr Iddewon oherwydd dylanwad Awstin a'i gred eu bod yn dystion i wirionedd Cristnogaeth.[42] Mae hynny'n ddamcaniaeth deg ond ni ellid dweud y dylanwadwyd ymerawdwyr megis Cystennin Fawr a Theodosiws I gan Awstin, oherwydd

---

38 Parkes, *Conflict of the Church and the Synagogue*, tt. 392–3.

39 Simon, M., *Verus Israel*, t. 330.

40 *CTh* 3: 7.2 = *CTh* 9: 7.5. Pharr, C. (1952), *The Theodosian Code and Novels and the Sirmondian Constitutions* (New York: Greenwood Press), t. 70 a t. 232.

41 Linder, 'The Legal Status of the Jews in the Roman Empire', tt. 148–9.

42 Juster, J. (1914), *Les Juifs dans l'Empire Romain*, cyfrol 1 (Paris: P. Geuthner), tt. 227–9. Roedd gan y syniad hwn ei seiliau yn Rhuf. 11: 17–24.

fel y noda Fredriksen, ar ôl ei farwolaeth y dechreuodd syniadau Awstin wir gydio.[43] Mae Bachrach[44] yn ystyried mai ymateb i lwyddiant yr Iddewon a wnaeth y deddfau oherwydd yn sgil darganfyddiadau archeolegol diweddar, gwelwyd pa mor arwyddocaol oeddent yn economi'r Ymerodraeth.[45] Agwedd swyddogol yr Eglwys oedd y dylai Iddewiaeth fodoli fel crefydd farw yn unig i ddangos etholedigaeth y Cristion a gwirionedd yr efengyl; deuoliaeth sydd i'w chanfod yn glir yn y deddfau imperialaidd.

Y fraint gyntaf a roddwyd i'r Iddewon oedd bod y grefydd yn cael ei chydnabod yn gyfreithlon. Cafwyd datganiad negyddol ei naws yn 391 yn mynegi; 'nid yw sect yr Iddewon wedi'i gwahardd gan yr un gyfraith' (*CTh* 16: 8.9) a chafwyd datganiad cadarnhaol yn 397: 'caiff yr Iddewon gadw eu breiniau' (*CTh* 16: 8.13).[46] Roedd hon yn fraint a fabwysiadwyd oddi wrth yr Ymerodraeth Baganaidd. Ymhlith y breiniau eraill, datganwyd nad oedd yn dderbyniol i synagogau gael eu llosgi na'u difrodi, ac y dylai'r Iddewon gael llonydd i addoli ac arddel eu defodau crefyddol. Yr hyn na chaniateid oedd codi synagogau newydd (*CTh* 16: 8.12).

**Effaith y deddfau**

Yn gymdeithasol, diraddiwyd yr Iddewon a chyfyngwyd ar eu gallu i ffynnu'n economaidd. Chwalwyd yr unig rôl o awdurdod a oedd ganddynt yn yr Ymerodraeth yn 425 gyda dirymu'r Batriarchaeth, sef y sefydliad a ofalai am yr Iddewon mewn materion cyfreithiol a gwleidyddol.[47] Arweiniodd y deddfau a phregethau gwrth-Iddewig y Tadau Cynnar at drais yn erbyn y gymuned Iddewig. Gwelwyd hyn yn yr angen parhaus i'r ymerawdwyr gyflwyno deddfau a waharddai fandaliaeth, llosgi synagogau ynghyd ag amharu ar ddathliadau'r Iddewon.[48]

Daliodd yr awdurdodau imperialaidd i geryddu'r fath drais a mynnu iawndal gan y Cristnogion ac mae gofal o'r fath yn nodweddiadol o'r Pab Grigor Fawr, er enghraifft. Hyd at y chweched ganrif, y cynghorau eglwysig a'u datganiadau ynghyd â'r ymerawdwyr a'u deddfau a ddylanwadai ar y werin, ond daeth newid i'r drefn gydag esgyniad Grigor i gadair Sant Pedr.

Ysgrifennai'n aml at esgobion ac offeiriaid er mwyn ymateb i broblemau bugeiliol, ac ymdrinia â'r Iddewon mewn 24 o'r 800 llythyr sydd ar gof a chadw. Yr hyn sy'n nodweddiadol yw i Grigor fod yn oddefgar o'r Iddewon ac y ceisiai ofalu amdanynt. Er enghraifft, wedi iddo glywed y gorfodid rhai Iddewon i dderbyn bedydd yn Ffrainc,

---

43 Fredriksen, P. (2008), *Augustine and the Jews* (New York: Doubleday), t. 272.

44 Bachrach, B. S. (1985), 'Jewish Community of the Later Roman Empire as seen in the *Codex Theodosianus*', yn Neusner, J., a Frerichs, Ernest S. (goln), *"To See Ourselves as Others See Us"* (Chico: Califfornia Scholar Press), tt. 403–7.

45 Jones, *Lleisiau o'r Lludw*, tt. 45–6.

46 Cyfieithiad Jones, *Lleisiau o'r Lludw*, t. 43.

47 Daeth y Batriarchiaeth ym Mhalesteina i fod yn dilyn cwymp y Deml (70 OC) a pharhau tan oddeutu'r flwyddyn 425 OC. Am ragor o wybodaeth, gweler von der Horst, Pieter W. (2002), *Japheth in the Tents of Shem: Studies on Jewish Hellenism in Antiquity* (Leuven, Paris, a Sterling, Virginia: Peeters), yn arbennig tt. 27–9; Goodblatt, D. (1994), *The Monarchic Principle: Studies in Jewish Self-Government in Antiquity* (Tübingen: J. C. B. Mohr).

48 Ruether, *Faith and Fratricide*, t. 191.

ysgrifennodd at Esgobion Arles a Marseilles i alw arnynt i roi terfyn ar y fath arferiad.[49] Nid oedd Grigor yn erbyn cenhadu,[50] ond gwyddai na fyddai bedydd gorfodol yn llwyddo ac felly na ddylid rhwystro'r Iddewon rhag arddel eu crefydd.

Gellir gweld fod y pab hwn yn rhannu'r un tosturi tuag at yr Iddewon ag Awstin, yn enwedig yn ei lythyr at Esgob Palermo pan ddatganodd:

> Yn union fel na ellir caniatáu i'r Iddewon yn eu cymunedau groesi'r terfynau a osododd y gyfraith arnynt, felly hefyd ni ddylent ddioddef mewn unrhyw ffordd trwy amarch i'w hiawnderau.[51]

Adnabyddir y frawddeg arwyddocaol hon fel *Sicut Judaeis* a dengys fod Grigor yn parchu'r hawliau a roddwyd i'r Iddewon yn neddfau'r Ymerodraeth. Gwelir dylanwad y frawddeg isod gan y'i dyfynnwyd fel rhagarweiniad i oddeutu ugain bwl ynglŷn â'r Iddewon.

Yn ei esboniadau ysgrythurol a'i bregethau, serch hynny, ceir agwedd dra gwahanol gan y pab. Fel diwinyddion y bedwaredd ganrif, ystyriai'r Iddewon yn anghredinwyr a chredai i'r Eglwys ddisodli'r hen Israel. Mae'n debyg y teimlai Grigor ryw orfodaeth i gynnal delwedd draddodiadol 'yr Iddew' ond ni chefnodd ar ddysgeidiaeth Awstin o fod yn oddefgar o'r Iddewon. Mewn gwirionedd, ni ellid disgwyl mwy gan ben bugail yr Eglwys yn y chweched ganrif.[52]

### Yr Oesoedd Canol

Roedd y cyfnod rhwng troad y seithfed ganrif a'r unfed ganrif ar ddeg yn weddol ddigyffro yng nghyd-destun yr Iddewon. Er y ceid tyndra parhaol rhwng yr Eglwys a'r Synagog, ni chaent eu herlid yn ddidrugaredd. Roedd y deddfau gwlad, er eu bod yn gorthrymu'r Iddewon, yn amddiffyn eu crefydd ac yn sicrhau eu diogelwch. Cawsant lonydd yn ogystal oherwydd eu bod yn cyfrannu at yr economi. Serch hynny, fel y dywed Gareth Lloyd Jones:

> Er fod y cymysgedd hwn o ormes a goddefgarwch yn diogelu'r Iddewon mewn cyfnod heddychlon, mewn argyfwng deuai atgasedd yr oesau i'r wyneb gyda chanlyniadau erchyll.[53]

### Y Croesgadau

Roedd 1096, sef blwyddyn y Groesgad Gyntaf, yn dynodi cyfnod newydd o erledigaeth i'r Iddewon.[54] Diben Rhyfel y Groes oedd brwydro'n erbyn y Mwslemiaid ac adfer man pererindota o bwys, oherwydd syrthiodd Eglwys y Bedd, ac yna Jerwsalem gyfan i feddiant y Mwslemiaid yn 1071.

---

49 Synan, E. (1965), *The Popes and the Jews in the Middle Ages* (New York: The Macmillan Company), t. 49.

50 Ruether, *Faith and Fratricide*, t. 200.

51 Cyfieithiad Jones, *Lleisiau o'r Lludw*, t. 47.

52 Flannery, *Anguish of the Jews*, t. 74.

53 Jones, *Lleisiau o'r Lludw*, t. 53.

54 Digwyddodd yr Ail Groesgad yn 1146 a'r Drydedd yn 1189. Am drafodaeth bellach, gweler Eidelberg, Shlomo (1977), *The Jews and the Crusaders: The Hebrew Chronicles of the First and Second Crusades* (Wisconsin: University of Wisconsin Press).

Daeth yr alwad i'r gad o ddau gyfeiriad. Ym mis Tachwedd 1095, datganodd y Pab Wrban II yn Clermont ei fwriad i sefydlu byddin ddisgybledig, unedig, a fyddai'n ymgyrchu i adennill Jerwsalem.[55] Daeth yr alwad hefyd gan y brodyr teithiol, sef y gwŷr aflywodraethus, anystywallt ac anllythrennog. Roedd y rhain yn hynod lwyddiannus yn eu hymgyrch oherwydd apelient at haen isaf y gymdeithas. Dechreuodd torfeydd o'r fath ar eu taith i Jerwsalem, ond yn ystod y daith daethant i sylwi ar yr 'anghredinwyr gartref' a phenderfynwyd y dylent chwynu'r drwg yn eu plith.[56] Troesant eu sylw at yr Iddewon.

Dylanwadwyd y brodyr hyn yn drwm gan ddiwinyddiaeth Chrysostom a'i debyg am yr atgoffent eu hunain mai'r Iddewon oedd yn gyfrifol am y Croeshoeliad, a'u bod yn dduwleiddiaid a haeddent gael eu cosbi. Daeth hefyd yn gred ymysg y brodyr eu bod yn chwynu'r hereticiaid a fygythiai'r Eglwys ac y buasai'r sawl a laddai Iddew'n cael ei lanhau o bechod.[57] Gellir gweld mai penboethni crefyddol oedd y tu ôl i'w gweithgarwch, yn enwedig gyda'r cynnig a roddent i'r Iddewon: naill ai fedydd neu farwolaeth.[58] Fodd bynnag, nid rhesymau crefyddol yn unig a oedd y tu ôl i'r fath erlid, oherwydd erbyn yr unfed ganrif ar ddeg roedd yr Iddewon yn weithgar ym myd benthyca ac roedd llawer o Gristnogion yn ddyledus iddynt. Felly un ffordd o ddileu'r ddyled oedd dileu'r benthyciwr.

Roedd ymateb yr Iddewon a'r Cristnogion i'r erledigaeth yn amrywiol. Ceisiodd sawl Iddew frwydro'n ôl ond pan fethodd hynny, cawsant eu bedyddio. Hefyd, ceir tystiolaeth i eraill gymryd eu bywydau eu hunain a marw gan gadw'n ffyddlon i'w crefydd. Amcangyfrifir i oddeutu 10,000 o Iddewon farw rhwng Ionawr a Gorffennaf 1096. Serch hynny, dylid pwysleisio nad dyna oedd nod swyddogol yr Eglwys, ac mewn gwirionedd bu i nifer o Gristnogion geisio lles yr Iddewon.[59]

Hwn oedd y cyfnod cyntaf o wir wrth-Iddewiaeth ar raddfa eang yn Ewrop ac, yn ôl Flannery, daeth ymddwyn yn elyniaethus tuag at yr Iddewon yn fwy cyffredin wedi hynny.[60]

O ganlyniad i'r bygythiad cyson yn erbyn yr Iddewon, a'r angen bellach i'w hamddiffyn rhag llid mympwyol y werin, cafwyd datganiadau gan yr Eglwys. Y bwl pwysicaf a gyhoeddwyd oedd *Constitutio pro Judaeis* (1120) gan Calictus II. Ailgyflwynwyd y bwl ac amrywiodd ei ddiwyg o'r naill bab i'r llall, ond ym mhob fersiwn rhoddid pwyslais ar y frawddeg agoriadol a gyflwynwyd yn wreiddiol gan Grigor Fawr, *Sicut Judaeis*.[61] Dywed y *Constitutio* y dylai'r Iddewon fwynhau eu hiawnderau traddodiadol ac na ddylent gael eu gorfodi i dderbyn bedydd. Yn ogystal, gwaherddir unrhyw un rhag ymyrryd yn eu haddoliad a pheri niwed iddynt.

---

55 Chazan, R. (1987), *European Jewry and the First Crusade* (Berkeley: University of California Press), t. 59.

56 Flannery, *Anguish of the Jews*, t. 91.

57 Ruether, *Faith and Fratricide*, t. 206.

58 Ceir dadl ddiddorol gan Edwards, J. (1988) yn *The Jews in Christian Europe 1400-1700* (London: Routledge), t. 18. Cred Edwards mai syniadau apocalyptaidd a oedd yn llywio'r Groesgad a bod y syniadau hynny i'w gweld yn y cynnig am fedydd neu farwolaeth.

59 Enghraifft o hyn yw fel y cafodd Iddewon guddio yng nghastell yr esgob yn Worms, ond gyda bygythiad y croesgadwyr penderfynodd yr Iddewon gyflawni hunanladdiad i 'sancteiddio'r Enw'. Gweler Parkes, J. W. (1938), *The Jew in the Medieval Community: a study of his political and economic situation* (London: Soncino Press), t. 65.

60 Flannery, *Anguish of the Jews*, t. 93.

61 Gweler t. 68.

**Pedwerydd Cyngor y Lateran**

Roedd y drydedd ganrif ar ddeg yn gyfnod pwysig am nifer o resymau. Gwnaed yr Eglwys yn rymusach gan y Croesgadau a chafwyd unigolion dylanwadol a adawodd eu hôl ar y ganrif. Yr oedd yn ganrif lewyrchus i'r Cristion ond yn un dyngedfennol i'r Iddew.

Dywedir mai Innosent III oedd y pab mwyaf dylanwadol ers Grigor Fawr ond roedd ei agwedd yn anffafriol tuag at yr Iddewon. Drwy gydol ei yrfa pwysleisiodd fod yr Iddewon yn wrthodedig ac mai hwy eu hunain oedd yn gyfrifol am eu statws israddol am iddynt wadu Crist.[62] Credai y dylent fodoli mewn cyflwr o gaethiwed tragwyddol hyd nes y troent at Grist.[63] Mynegodd yr agwedd hon drwy gyffelybu'r Iddew i'r Cain crwydrol gan adleisio diwinyddiaeth Awstin mewn llythyr at Iarll Nevers yn ei fersiwn ef o'r *Constitutio pro Judaeis* ynghyd ag yn natganiadau Pedwerydd Cyngor y Lateran.

Yn 1215 galwodd Innosent III ar 1500 o esgobion a diwinyddion ynghyd i gynnal Pedwerydd Cyngor y Lateran. Diben y Cyngor oedd ad-drefnu'r Eglwys a'i hachub rhag heresi. Rhoddwyd sylw hefyd i'r Iddewon.

Mae'n ddiddorol nodi nad yw pedwar datganiad cyntaf y Cyngor ynglŷn â'r Iddewon yn rhai gwreiddiol ond yn rhai a fabwysiadwyd gan gynghorau eglwysig lleol. Gwelir felly i'r arfer o ddyrchafu datganiadau awdurdodau lleol barhau'n boblogaidd wedi'r bedwaredd ganrif.

Cyhoeddwyd y dylid rhwystro'r Iddewon rhag codi llog uchel ar fenthyciad oherwydd eu bod, drwy usuriaeth, yn elwa gormod ar draul y Cristnogion. Gwaharddwyd yr Iddewon rhag ymddangos yn gyhoeddus yn ystod yr wythnos cyn y Pasg.[64] Gallwn weld cyfatebiaeth rhwng y datganiad hwn â'r ddeddf imperialaidd a gafwyd ynglŷn â'r Pwrim, a'r modd y gwaharddwyd yr Iddewon rhag gwawdio'r Cristnogion yn ystod eu dyddiau sanctaidd (*CTh* 16: 8.18).[65] Y trydydd datganiad oedd na chaniateid i'r Iddewon ddal swydd o awdurdod yn y gymdeithas oherwydd buasent yn debygol o ormesu eu 'gweision Cristnogol'. Gallwn weld gwreiddiau'r datganiad hwn hefyd yn neddfau imperialaidd Rhufain (e.e. *CTh* 16: 8.24). Yn bedwerydd, ni chaniateid i Iddewon bedyddiedig arddel arferion, seremonïau na breiniau'r Iddewon. Yn olaf, gorfodwyd i bob Iddew a Mwslim wisgo dilledyn arbennig mewn mannau cyhoeddus er mwyn dangos i ddilynwyr pa grefydd y perthynent iddi.[66]

Nid oedd deddfu ynglŷn â gwisg arbennig yn gwbl wreiddiol ychwaith, oherwydd gorfodid i 'anghredinwyr' yn nhiroedd Islam wisgo'n wahanol cyn gynhared â'r nawfed ganrif.[67]

---

62 Flannery, *Anguish of the Jews*, t. 102.

63 Stow, Kenneth R. (1988), 'Hatred of the Jews or love of the Church: Papal Policy toward the Jews in the Middle Ages', yn Almog, S. (gol.), *Antisemitism through the Ages* (New York: Pergamon Press), t. 81.

64 Roedd lle i gredu bod rhai Iddewon yn dueddol o wisgo'n drwsiadus yn gyhoeddus yn ystod yr wythnos honno er mwyn sarhau'r croeshoeliad. Gweler Synan, *The Popes and the Jews in the Middle Ages*, t. 105.

65 Yn yr un modd, cafwyd datganiad gan Gyngor Macan (581) a waharddai Iddewon rhag ymddangos yn gyhoeddus yn ystod yr Wythnos Fawr (Canon 14). Gweler Falk, G. (1992), *The Jew in Christian Theology* (North Carolina: McFarland & Company), t. 33.

66 Synan, *The Popes and the Jews in the Middle Ages*, t. 235.

67 Gweler Baron, S. W. (1993), *A Social and Religious History of the Jews* (New York: Columbia University Press), tt. 139–41.

Ond dyma'r tro cyntaf y teimlai'r Eglwys yr angen i gyhoeddi'r fath beth. Roedd yn ddeddf chwyldroadol ac yn un a adlewyrchai bryder yr awdurdodau ynghylch yr ymwneud cyson rhwng y Cristnogion a'r Iddewon.

Dehonglwyd y gair '*habitus*' (gwisg) mewn amryw ffyrdd; bathodyn crwn, melyn o'r enw *rouelle* a gafwyd yn Ffrainc; het bigfain, werdd, yng Ngwlad Pwyl, a'r *Judenhut*, sef het goch neu felyn yn yr Almaen. Er yr amrywiol wisg yr un oedd eu pwrpas, ac o dipyn i beth daeth y Cristnogion i ystyried yr Iddewon fel pobl wahanol, fel rhywogaeth wahanol.[68]

Ar y naill law, diben bugeiliol oedd i'r ddeddf er mwyn osgoi priodasau cymysg a chyfathrach rhwng y Cristnogion a'r sawl nad oeddent yn Gristnogion. Fel y dadleua Synan:

> The fact that this ruling bound Moslems as well as Jews makes it clear that it was inspired by a positive concern with the care of souls and not by a merely anti-Jewish bias.[69]

Mae hynny'n ymresymiad teg ond o gofio agwedd negyddol Innosent III, a'r gred mai Iddeweiddio a oedd wrth wraidd heresi, mae'n haws credu mai diben gwrth-Iddewig oedd i'r ddeddf. Fel y dywed Chazan:

> (it) represents a new level in the age-old drive toward social segregation of the Jews (which) accords well with the times.[70]

Gwelir dylanwad y ddeddf hon isod pan orfodwyd yr Iddewon i wisgo Seren Dafydd yn ystod yr Holocost.

Ffrwyth y Cyngor oedd y datganiadau hyn yn ogystal â Chwilys y Pab. Nod y Chwilys oedd chwynu'r hereticiaid o'r Eglwys ond buan yr ystyrid bod yr Iddewon yn dylanwadu ar y Cristnogion ac yn eu harwain ar gyfeiliorn. Gwelir yma drachefn fod syniadau'r canrifoedd cynnar wedi cael eu hailgyflwyno:

> The audacity of the Donatists, the heretics and the Jews disclosed new and unusual deeds, for they want to throw the sacraments of the Catholic faith into disorder. (*CTh* 16: 5. 44).[71]

O dan arweiniad urddau'r brodyr Dominic a Ffransis, aethpwyd ati i ddelio â'r Iddewon.

Un ffordd oedd gorfodi'r Iddewon i wrando ar bregethau Cristnogol gan obeithio y troent at Grist unwaith iddynt glywed yr efengyl yn ei phurdeb. Fel y disgwylid, ni chafwyd llawer o dröedigaethau a thyfodd atgasedd tuag at y Cristnogion hyn a fynnai wthio eu crefydd ar yr Iddewon.[72]

Ffordd arall y Chwilys o genhadu oedd drwy gynnal dadleuon cyhoeddus rhwng rabiniaid a Christnogion. Cafwyd trafodaeth danbaid, er enghraifft, ym Mharis a chondemniwyd

68 Cohn-Sherbok, D. (1992), *The Crucified Jew* (London: Harper Collins), t. 46.
69 Synan, *The Popes and the Jews in the Middle Ages*, t. 104.
70 Chazan, R. (1986), 'Medieval Anti-Semitism', yn Berger, D. (gol.), *History and Hate* (Philadelphia: Jewish Publication Society), t. 60.
71 Cyfieithiad Linder, *The Jews in Roman Imperial Legislation*, t. 240.
72 Jones, *Lleisiau o'r Lludw*, tt. 61–2.

y *Talmwd* am beidio â bod yn rhan o'r Gyfraith ddwyfol. Canlyniad hyn oedd llosgi tua 12,000 o gyfrolau yn 1242.[73]

Roedd datganiadau'r Cyngor yn llwyddiannus, ond ar y cyfan, aflwyddiannus oedd ymgyrch y Chwilys.

**Camgyhuddiadau**

Gyda'r Iddewon yn cael eu neilltuo fwyfwy i ymylon y gymdeithas, datblygodd agwedd hynod elyniaethus ymysg y werin tuag at eu cymdogion 'gwrthodedig'. Yn ystod yr Oesoedd Canol, defnyddid yr Iddewon fel bwch dihangol ar gyfer popeth a oedd o'i le ar gymdeithas ac fe'u cyhuddwyd o bob math o anfadwaith.[74]

Ffrwyth y gred fod yr Iddewon yn blant y diafol oedd y cyhuddiad eu bod yn euog o lofruddiaeth ddefodol.[75] Dywedid bod yr Iddewon yn defnyddio gwaed dynol ar gyfer gwahanol amcanion megis sarhau'r croeshoeliad, pobi bara croyw ac at ddibenion dewiniaeth.

Cafwyd un o'r cyhuddiadau cyntaf o lofruddiaeth ddefodol yn Norwich, Lloegr, pan ganfuwyd corff prentis wyth oed yn crogi wrth goeden yn 1144. Oherwydd mai cyfnod y Pasg ydoedd, dywedwyd mai'r Iddewon a oedd yn gyfrifol a'u bod yn sarhau aberth Iesu drwy dywallt gwaed diniwed. Er nad oedd pob Cristion yn eu cyhuddo o'r fath anfadwaith ac er i'r Eglwys geisio eu hamddiffyn (er enghraifft, cafwyd bwl gan y Pab Innosent IV yn datgan i'r Iddewon gael eu cyhuddo ar gam am ladd plentyn adeg y Pasg),[76] parhau â'r camgyhuddo a wnaeth llawer o'r Cristnogion.

Ym Mhedwerydd Cyngor y Lateran, pasiodd yr Eglwys fod presenoldeb y dwyfol yn yr Ewcharist ac o ganlyniad tyfodd ofergoeledd ynghylch bara'r allor. Yn sgil hynny, cafodd llawer o fara ei ddwyn o eglwysi a rhoddwyd y bai ar yr Iddewon. Honnid eu bod yn dwyn bara'r allor er mwyn ailgroeshoelio Crist. Er nad oedd traws-sylweddiad yn rhan o'r credo Iddewig, ni roddodd hynny derfyn ar y cyhuddiad poblogaidd.[77] Dengys hyn ba mor ddylanwadol fu cyhuddo'r Iddewon o fod yn dduwleiddiaid.

Erbyn y 1320au, daeth llawer o Gristnogion i gredu bod yr Iddewon yn wrachod ac yn ddewiniaid, a phan aeth y Pla Du drwy Ewrop (1347–52), honnid mai hwy oedd yn gyfrifol drwy wenwyno ffynhonnau. Daeth y camgyhuddiad hwn yn un poblogaidd ymysg y werin ond ymatebodd y Pab Clement VI drwy gyflwyno bwl yn amddiffyn yr Iddewon.[78] Ofer fu ei ymdrechion, serch hynny, a chafodd sawl unigolyn a chymuned Iddewig eu lladd.[79]

Ffrwyth y camgyhuddiadau hyn oedd mwy o elyniaeth a feithrinwyd gan gerflunwyr ac arlunwyr. Cyflëid y syniad yn aml fod yr Iddewon yn blant y diafol mewn cerfluniau a

73 Ibid., t. 63.
74 Hall, S. G. (1989), *Christian Anti-Semitism and Paul's Theology* (Minneapolis: Fortress Press), t. 41.
75 Enghraifft o gyfeiriad yn y Testament Newydd y gellid ei ddefnyddio i gadarnhau'r cyswllt honedig rhwng yr Iddewon a'r diafol yw In. 8: 44.
76 Cohn-Sherbok, *The Crucified Jew*, t. 44.
77 Chazan, 'Medieval Anti-Semitism', t. 62.
78 Synan, *The Popes and the Jews in the Middle Ages*, t. 132.
79 Hall, *Christian Anti-Semitism and Paul's Theology*, t. 43.

phaentiadau drwy roddi iddynt nodweddion a gysylltir â'r diafol, megis llygaid mawrion, traed fforchog, trwyn cam, a chyrn. Yn ogystal, pwysleisid ffordd ac anian wahanol yr Iddewon mewn dramâu sy'n darlunio'r Croeshoeliad. Byddai'r actorion a chwaraeai'r Iddewon yn traethu mewn Hebraeg annealladwy ac yn baglu'n drwsgl ar hyd y llwyfan.[80]

Yn ogystal, cafodd y syniad fod yr Iddewon yn blant y diafol ei fynegi mewn chwedlau gwerin. Yn un o ysgrifau'r mynach Caeserius Heisterbach, ceir cofnod o'r modd y ceisiodd Iddewes droi ei merch fedyddiedig yn ôl at Iddewiaeth.[81] Er mwyn dad-fedyddio'r ferch fe'i gorchuddiwyd gydag ysgarthiad. Cytuna ysgolheigion fod motiff y diafol yn y stori hon oherwydd ei bod yn atgoffaol o'r chwedl pan orchuddiodd y diafol ei hun â charthion wedi iddo syrthio i ganol dŵr sanctaidd. O hynny, daeth y syniad o 'ddrewdod yr Iddew' nad oedd modd cael ei wared oni dderbynnid bedydd.[82]

Roedd y cyhuddiadau hyn a'r delweddau'n fodd o danlinellu'r syniad a oedd yn deillio o ddiwinyddiaeth y Tadau, sef mai'r Iddewon oedd gelynion pennaf y Cristnogion ac y dylid felly ymbellhau oddi wrthynt.

Yn ddiau, cafodd pregethau a gweithgarwch y croesgadwyr penboeth, y cyhuddiadau di-sail, yn ogystal â'r elyniaeth gynyddol tuag at yr Iddewon effaith ar eu sefyllfa gymdeithasol i'r fath raddau fel yr arweiniodd at eu halltudiaeth o Loegr yn 1290, Ffrainc yn 1306 ac 1394 ac, yn ddigon annisgwyl, o Sbaen yn 1492. Gyda'r Iddewon yn crwydro'n barhaus o'r naill wlad i'r llall, roedd cysyniad Awstin o'r 'Iddew crwydrol' i'w weld yn ddychrynllyd o glir.[83]

**Martin Luther (1483–1546)**

Un o'r diwinyddion mwyaf paradocsaidd y gellir ei astudio o safbwynt ei agwedd tuag at yr Iddewon yw Martin Luther. Dros gyfnod o ugain mlynedd, ysgrifennodd Luther ddwy ysgrif a dau atodiad a oedd yn mynegi dwy agwedd gyferbyniol.

Gwelir ei agwedd gadarnhaol yn yr ysgrif, *Daß Jesus Christus ein geborener Jude sei* (Ganwyd Iesu Grist yn Iddew, 1523).[84] Dechreua gan ddatgan mai Iddew a mab Duw oedd Iesu a anwyd o'r forwyn Fair. Ymhen dim, mae'n cyfeirio at yr Iddewon cyfoes ac mae ei agwedd oddefgar tuag atynt yn ymdebygu i Awstin. O ystyried natur lygredig yr Eglwys Rufeinig ac arweiniad gwael yr awdurdodau, nid yw'n gweld bai ar yr Iddewon am wrthod bedydd. Geilw ar ei gyd-gredinwyr i fod yn fwy addfwyn tuag atynt oherwydd credai, pe trinnid yr Iddewon yn deg a chyflwyno'r efengyl yn ei phurdeb heb ddaliadau Pabyddol, y byddent yn siŵr o dderbyn bedydd.

Cafodd yr ysgrif dderbyniad cadarnhaol gan lawer oherwydd fe'i hystyrid fel y modd gorau o genhadu, ond ni chafwyd llawer o dröedigaethau. Canlyniad y methiant hwnnw

80 Bonfil, R. (1988), 'The Devil and the Jews', yn Almog, S. (gol.), *Antisemitism through the Ages* (New York: Pergamon Press), t. 93.

81 Caeserius (1929), *The Dialogue on Miracles*, cyfrol 1, cyfieithwyd gan Scott, H. Von E., a Bland, C. C. Swinton (London: Routledge), tt. 107–8.

82 Bonfil, 'The Devil and the Jews', t. 94.

83 Hall, *Christian Anti-Semitism and Paul's Theology*, t. 43.

84 Gweler cyfieithiad yr ysgrif yn Luther, M. (1962), 'That Jesus Christ Was Born a Jew', *Luther's Works*, cyfrol 45 (Philadelphia: Fortress Press).

a'r cyhuddiad fod Luther ei hun yn Iddeweiddio oedd llunio ysgrif arall a dau atodiad. Yng ngweithiau diwedd ei oes, ceir agwedd dra gwahanol i agwedd y Luther ifanc, y diwygiwr brwd, am iddo ddychwelyd at draddodiad gwrth-Iddewig yr Eglwys Gatholig Rufeinig ac at ddiwinyddiaeth Chrysostom.

Egyr ei ysgrif, *Von den Juden und ihren Lügen* (Am yr Iddewon a'u Celwyddau; 1543), drwy ofyn beth y dylid ei wneud â'r bobl sy'n 'wrthodedig' a 'chondemnedig' gan Dduw? Dywed Luther i'r Meseia, fel a ddarlunnir yn yr Hen Destament, gael ei esbonio'n gywir fel proffwydoliaeth o Iesu Grist a bod y sawl sy'n gwrthod hynny'n fwriadus ddall. Eir ymlaen i gynnwys y camgyhuddiadau a wnaed yn erbyn yr Iddewon a chyfeirir atynt fel bodau dieflig ac epil Satan, gan atseinio adrannau gwrth-Iddewig ymddangosiadol yr Efengylau.[85] Dywed y dylid cosbi'r Iddewon am eu hystyfnigrwydd yn hytrach na'u hamddiffyn ac â cyn belled â dweud, 'Rydym ar fai am beidio â'u difa'.[86] Cyn cloi cyflwyna saith awgrym o'r modd y dylid trin y bobl 'wrthnysig'.

Yn gyntaf, dylid llosgi eu synagogau a'u hysgolion i ddangos nad yw Cristnogion yn caniatáu cabledd a chelwyddau'r Iddewon. Dylid dinistrio eu cartrefi oherwydd eu bod yn gweithredu yn yr un modd yno ag y gwnaent yn eu synagogau. Awgrymodd y dylai'r *Talmwd* a'u llyfrau gweddi gael eu cymryd oddi arnynt am eu bod yn cynnwys anwiredd, ac y dylid gwahardd rabiniaid rhag addysgu'r ffydd oherwydd eu bod yn pregethu'n groes i ewyllys Duw. Datganodd na ddylid amddiffyn yr Iddewon ar y priffyrdd; dylent aros gartref a pheidio â masnachu. Dylid gwahardd yr Iddewon rhag benthyca ar log oherwydd na ddylent ennill bywoliaeth drwy usuriaeth. Ac yn olaf, dylid eu gorfodi i wneud gwaith llafurus fel modd o ennill bywoliaeth.

Cyfiawnhad Luther dros gyflwyno'r fath argymhellion oedd ei gred fod dysgeidiaeth yr Iddewon yn gableddus. Os oedd datganiadau mwyaf gwrth-Iddewig yr Oesoedd Canol wedi peidio â chynnwys yr iaith ddifrïol a oedd yn nodweddiadol o'r deddfau imperialaidd, nid oedd hynny'n wir am Luther.[87] Ond prin ei fod wedi meddwl y buasai ei awgrymiadau'n cael eu gwireddu yn un o drychinebau mwyaf hanes Iddewiaeth.[88]

Ar 9 Tachwedd 1938, digwyddodd Noson o Risial (*Kristallnacht*) pan ddechreuodd y Natsïaid erlid yr Iddewon drwy ddistrywio siopau, ysgolion Iddewig a synagogau yn yr Almaen. Cipiwyd 30,000 o Iddewon a'u gorfodi i wneud gwaith llafurus yn y gwersylloedd cadw.[89] Drannoeth y noson derfysglyd cyhoeddwyd pamffled a oedd yn cynnwys awgrymiadau Luther o'r modd y dylid trin yr Iddewon. Roedd ei ddylanwad ar un wedd felly'n bellgyrhaeddol.[90]

Roedd y Diwygiad Protestannaidd yn un o'r digwyddiadau mwyaf arwyddocaol yn hanes y Gorllewin gan iddo effeithio ar fonopoli crefyddol yr Eglwys Gatholig a sicrhau traddodiad

---

85 Luther, M. (1971), 'On the Jews and their Lies', *Luther's Works*, cyfrol 47 (Philadelphia: Fortress Press), t. 277.

86 Ibid., t. 278.

87 Fel y dywed Parkes, *Jews in the Medieval Community*, t. 12.

88 Am drafodaeth fanwl ar ddylanwad Luther ar yr Eglwys Brotestannaidd a Natsïaid yr Almaen, gweler Probst, Christopher J. (2012), *Demonizing the Jews* (Indiana: Indiana University Press).

89 Jones, *Lleisiau o'r Lludw*, t. 95.

90 Girsch, Eric W. (1990), 'Luther and the Jews', yn Ditmanson, H. H. (gol.), *Stepping-Stones to Further Jewish-Lutheran Relationships* (Ausburg: Ausburg Publishers), t. 111.

Cristnogol amgen. Serch hynny, sicrhaodd Luther y buasai ei ysgrifau'n bont rhwng syniadau gwrth-Iddewig yr Oesoedd Canol a gwrth-Semitiaeth y Cyfnod Modern Cynnar.

Erbyn yr Oleuedigaeth agorwyd drysau'r *ghetto* a rhoddwyd yr hawl i'r Iddewon fod yn aelodau llawnach o'r gymdeithas. Cafwyd y datganiad cyntaf o'r fath yn Ewrop yn 1791 wrth i Ffrainc 'ryddhau' ei Hiddewon, a buan y dilynodd gwledydd eraill.[91] Fodd bynnag, mae'n rhaid peidio â meddwl iddynt gael croeso cynnes i'r byd y tu allan i furiau'r *ghetto* am i nifer barhau i goleddu hen ragfarnau gwrth-Iddewig. Serch hynny, yr hyn sy'n nodweddiadol yw i'r agwedd negyddol tuag at yr Iddewon ar seiliau diwinyddol ddechrau newid i fod yn atgasedd ar seiliau 'hiliol'. Mae achos y Capten Alfred Dreyfus (1890au)[92] yn dangos hynny'n eglur. Rhoddwyd y bai ar gam yn fwriadol ar Dreyfus am i wybodaeth gyfrinachol byddin Ffrainc ddod i feddiant yr Almaen. Yr hyn sy'n enghreifftio'r elfen wrth-Semitaidd yn hanes Dreyfus yw mai ef oedd yr unig aelod Iddewig o Staff Milwrol Ffrainc. Rhannwyd Ffrainc gan yr achos ac mae tystiolaeth i nifer godi terfysg yn erbyn yr Iddewon, yn arbennig mewn cadarnleoedd Catholig.[93] Yn wir, yn ystod yr achos yn 1895, cafwyd torf ym Mharis yn galw am ddifodiant pob Iddew, '*à bas les Juifs!*'.[94] Ychydig a wyddai'r dorf y buasai cynllun yn cael ei roi ar waith ymhen deugain mlynedd i ateb eu galwad.

### Yr ugeinfed ganrif

Daeth tro ar fyd ar ôl y Rhyfel Byd Cyntaf. Un o'r gwledydd a ddioddefodd yn arw yn ei sgil – yn economaidd ac yn wleidyddol – oedd yr Almaen, ac roedd ei thrigolion yn dyheu am newid cymdeithasol a gwleidyddol. Yn y cyfnod ansicr hwnnw daeth Adolf Hitler a'i bolisïau gwrth-Semitaidd hiliol i'r amlwg.

### Deddfau'r Natsïaid

Fel y noda Hilberg, ymddangosai dri phrif bolisi gwrth-Iddewig yn gyson ers y bedwaredd ganrif, sef tröedigaeth, alltudiaeth a difodiant.[95] Ceisiwyd ennyn tröedigaeth ar hyd y canrifoedd, ond pan fethodd hynny cyflwynwyd deddfau gwrth-Iddewig a arweiniodd at alltudiaeth yr Iddewon. Pan nad oedd hynny'n llwyddiant, ceisiwyd eu difodi. Ar un wedd, gellid dweud bod yr Holocost yn barhad o wrth-Iddewiaeth yr Eglwys yn hytrach na digwyddiad cwbl newydd heb gynsail.

Ers ei sefydlu yn 1919, ymroes Plaid Genedlaethol Gweithwyr Sosialaidd yr Almaen i adfer y wlad ar seiliau totalitaraidd. Er mwyn llwyddo, roedd yn rhaid adnabod y nam a oedd ar gymdeithas. Dywedwyd mai'r nam hwnnw oedd yr Iddewon a phwysleisiwyd mai hwy oedd achos pob anfadwaith. Yr Iddewon a halogodd waed Ariaidd,[96] hwy oedd yn

---

91 Kessler, *An Introduction to Jewish-Christian Relations*, tt. 125–7.

92 Jones, *Lleisiau o'r Lludw*, t. 118. Am drafodaeth fanylach am Achos Dreyfus a'i oblygiadau gwleidyddol a chymdeithasol, gweler Read, Piers Paul (2012), *The Dreyfus Affair: The Story of the Most Infamous Miscarriage of Justice in French History* (London: Bloomsbury).

93 Kessler, *An Introduction to Jewish-Christian Relations*, tt. 125–7.

94 Ystyr llythrennol '*à bas les Juifs*' yw 'i lawr â'r Iddewon'. Gweler ymhellach Vital, David (1999), *A People Apart: The Jews in Europe 1789–1939* (Oxford & New York: Oxford University Press), t. 438; Whyte, George R. (2008), *The Dreyfus Affair: A Chronological History* (Basingstoke, Hampshire & New York: Palgrave Macmillan), t. 337.

95 Hilberg, R. (1961), *The Destruction of the European Jews*, cyfrol 1 (London: Holmes & Meier), t. 8.

96 Flannery, *Anguish of the Jews*, t. 210.

gyfrifol am ddiweithdra yn y wlad ac am fodolaeth Marcsiaeth.[97] Er hynny, nid oedd yn rhaid i'r Natsïaid greu delwedd o'r 'Iddew' i gyd-fynd â'u propaganda oherwydd roedd un wedi ei chreu eisoes gan y traddodiad eglwysig. Roedd yr holl anfadwaith a briodolid i'r Iddewon – y nodweddion dieflig a'r ystrydebau – yn rhai a oedd yn tarddu o'r canrifoedd cynnar, a ddatblygodd yn yr Oesoedd Canol, ac a gyrhaeddodd eu penllanw yn yr ugeinfed ganrif.

Yn dilyn datgan ei faniffesto ac ychydig o'i ddeddfau, daeth dau esgob at Hitler yn 1933 a mynegi eu pryder ynghylch ei bolisïau. Atebodd Hitler mai'r cyfan yr oedd yn ei wneud oedd yr hyn y ceisiodd yr Eglwys ei wneud ers pymtheg canrif, sef 'dileu'r drwg', difa'r Iddewon.[98] Nid oedd Hitler yn hollol gywir yn dweud hynny, ond o fod wedi ystyried rhai deddfau a datganiadau'r Eglwys, gellid deall sut y daeth i'r fath gasgliad.

Er i Hitler ysgrifennu ei fod yn gweithredu yn ôl ewyllys Duw gyda'i bolisïau gwrth-Iddewig,[99] teg fyddai dweud i'r agwedd grefyddol a diwinyddol bylu'n arw erbyn cyrch y Natsïaid ac mai gwleidyddol ac economaidd oedd y rhesymau y tu ôl i'r agwedd wrth-Semitaidd, hiliol. Yr hyn a wnaeth y Natsïaid oedd adeiladu ar yr hyn a oedd ar gael eisoes.[100]

Un ffordd a oedd yn hoff gan yr Eglwys o gael ei maen i'r wal ers y bedwaredd ganrif oedd drwy gyfraith. Nid yw'n syndod felly fod y *Führer* yn yr ugeinfed ganrif wedi dilyn yr esiampl honno. Meddai Rousmaniere:

> (Hitler enacted) some four hundred anti-Jewish laws reminiscent of the Theodosian decrees of the fifth century, as well as later legislation in Europe and the United States.[101]

Ym mis Medi 1935, cyflwynwyd deddf Diogelu Gwaed ac Anrhydedd yr Almaen. Diben y ddeddf oedd sicrhau na fyddai'r Almaenwyr yn priodi pobl an-Ariaidd. Yn y bôn, gwaharddiad rhag priodi Iddewon ydoedd a gwelwyd hynny yn y diffiniad fod unrhyw un a chanddo riant, neu nain neu daid Iddewig yn cael ei ystyried fel unigolyn an-Ariaidd, oherwydd ei dras. Yn ogystal, amddifadwyd yr Iddewon, neu'r 'an-Ariaid' hyn, o nifer o'r breintiau a roddwyd iddynt yn y gorffennol a sicrhâi eu diogelu.[102] Gwelir felly fod y ddeddf hon yn llinach y nifer o ddeddfau a gyhoeddwyd ar hyd y canrifoedd a waharddai briodasau cymysg.[103]

Hefyd, gwaherddid y sawl a oedd o dras an-Ariaidd rhag ymgymryd â swyddi o awdurdod. Drachefn, gellir gweld lled gyfatebiaeth rhwng y ddeddf hon a'r un a gyflwynwyd ym Mhedwerydd Cyngor Toledo (633) a waharddai unrhyw Gristion o dras Iddewig rhag dal swydd o bwys.[104] Dengys hyn fod agwedd negyddol tuag at yr 'hil'

---

97 Heer, F. (1970), *God's First Love: Christians and Jews over two thousand years*, cyfieithiad Geoffrey Skelton (New York: Weybright and Talley), t. 322.

98 Ibid., t. 321.

99 Hitler, A. (1943), *Mein Kampf*, cyfieithiad Ralph Manheim (Boston: Houghton Mifflin), t. 65.

100 Hall, *Christian Anti-Semitism and Paul's Theology*, t. 40.

101 Rousmaniere, J. (1991), *A Bridge to Dialogue* (New York: Paulist Press), t. 116.

102 Housden, M. (1997), *Resistance and Conformity in the Third Reich* (London: Routledge), t. 117.

103 Hwn, er enghraifft, oedd un o brif bynciau Cyngor Elfira yn 306, a chafwyd deddfau i gadw Cristnogion ac Iddewon ar wahân yn y deddfau imperialaidd drwy wahardd priodasau cymysg, e.e. *CTh* 3: 7 = *CTh* 9: 7.5. Gweler t. 66.

104 Thompson, E. A. (1969), *The Goths in Spain* (London: Oxford University Press), t. 178.

Iddewig hefyd i'w chanfod yn hanes yr Eglwys. Wrth gwrs, y rheswm dros ddatgan deddf o'r fath yn 633 oedd oherwydd y gorfodwyd llawer o'r Iddewon i dderbyn bedydd gan y Brenin Sisebut ond bod rhai wedi parhau i arddel eu hen grefydd, ac felly'n peri bygythiad am eu bod yn Iddeweiddwyr ymysg Cristnogion. Yr oedd hyn yn ffordd o osgoi dylanwad yr Iddeweiddwyr hynny, a'u disgynyddion, ar y Cristnogion pybyr a fuasai dan eu hawdurdod. Gwelir felly bod gwreiddiau gwrth-Semitiaeth hiliol yn tarddu'n ôl ymhellach nag y disgwylid.

Ar 1 Medi 1941, gorfodwyd pob Iddew dros chwech oed i wisgo bathodyn melyn (Seren Dafydd) er mwyn dangos eu bod yn Iddewon neu o dras Iddewig. Fel y gwyddys, nid oedd y ddeddf hon yn un wreiddiol oherwydd yn ystod yr Oesoedd Canol cafwyd nifer o ddeddfau tebyg â'r un diben, sef gwaradwyddo'r Iddewon a'u gosod ar wahân.

Dengys y rhestr isod y gyfatebiaeth annisgwyl, efallai, a oedd rhwng deddfau'r Natsïaid a'r deddfau Cristnogol:

| **Deddfau Cristnogol** | **Deddfau'r Natsïaid** |
|---|---|
| *Cyngor Clermont, 535*<br>Ni chaniateir i Iddewon gael swydd o awdurdod. | *7 Ebrill 1933*<br>Deddf ad-drefnu'r Gwasanaeth Sifil. |
| *12fed Cyngor Toledo, 681*<br>Llosgi'r *Talmwd* a llyfrau Iddewig eraill. | *8 Ebrill 1933*<br>Llosgi llyfrau'r Iddewon yn yr Almaen.[105] |
| *Cyngor Elfira, 306*<br>Ni chaniateir i Gristnogion ac Iddewon briodi ei gilydd na chael cyfathrach rywiol. | *15 Medi 1935*<br>Deddf yn Amddiffyn Gwaed ac Anrhydedd yr Almaenwyr. |
| *3ydd Cyngor Orleans, 538*<br>Ni chaniateir i'r Iddewon fod ar y strydoedd yn ystod yr wythnos cyn y Pasg. | *3 Rhagfyr 1938*<br>Ni chaniateir i'r Iddewon ymddangos yn gyhoeddus yn ystod gwyliau'r Natsïaid. |
| *Cyngor Breslau, 1267*<br>Mae'n rhaid i bob Iddew fyw mewn rhan neilltuol o'r ddinas. | *21 Medi 1939*<br>Mae'n rhaid i bob Iddew fyw mewn rhan neilltuol o'r ddinas (*ghetto*). |
| *Pedwerydd Cyngor y Lateran, 1215*<br>Mae'n rhaid i bob Iddew wisgo dilledyn arbennig. | *1 Medi 1941*<br>Mae'n rhaid i bob Iddew wisgo bathodyn melyn ar ei wisg.[106] |

105 Cyhoeddwyd y ddeddf hon yn gyntaf ar 8 Ebrill 1933 ond cafodd ei hailgyflwyno droeon wedi hynny. Friedländer, S. (2007), *The Years of Persecution* (London: Phoenix), t. 57.

106 Mae'r gymhariaeth hon yn seiliedig ar astudiaeth gymharol Hilberg, *The Destruction of European Jews*, tt. 11–12 a chymhariaeth Jones, *Lleisiau o'r Lludw*, t. 13.

Gellir gweld y gyfatebiaeth yn hynod glir a gellid dadlau ar sail hyn y bu datganiadau a dysgeidiaeth wrth-Iddewig yr Eglwys yn fodd i wrth-Semitiaeth y Natsïaid flaguro. Er enghraifft, roedd y Natsïaid yn hoff o bwysleisio'r cysylltiad honedig rhwng yr Iddewon a'r diafol.[107] Yn *Der Stürmer* ar 16 Ebrill 1936, er enghraifft, cofnodwyd y modd y cyflwynid perfformiadau gyda phypedau i blant er mwyn cryfhau'r gred fod yr Iddewon yn 'weision y diafol'.[108]

Nod cychwynnol Hitler, a oedd yn cyfateb i nod yr Eglwys, oedd neilltuad cymdeithasol, ond wedi'r *Kristallnacht* a chyhoeddi argymhellion Luther, aeth y Natsïaid gam ymhellach. Roedd deddfau'r Eglwys yn cynnwys ffiniau na ddylid eu croesi, ond yr hyn a wnaeth y Natsïaid oedd mabwysiadu'r deddfau gwrth-Iddewig a choleddu'r trydydd polisi, sef difodiant. Gan na allai bedydd 'sythu trwynau',[109] fodd bynnag, ac nad oedd eu halltudio'n llwyddiant, yr oedd yn rhaid difodi'r Iddewon. Gellid dadlau, fel y gwna Poliakov, heb y deddfau hyn, efallai na fyddai'r 'ateb terfynol' wedi cael ei gyflwyno.[110]

**Y wawr newydd**

Bu farw oddeutu chwe miliwn o Iddewon Ewrop yng nghyflafan Hitler. A chofio'r pwyslais a roddasant ar gariad a gofal am eu cyd-ddyn, methodd yr awdurdodau eglwysig yn wyneb cyrch y Natsïaid. Trafododd sawl ysgolhaig dawelwch y Pab Pïws XII yn ystod yr Holocost a nododd John Morley, er enghraifft, i'r pab a'r Fatican godi cywilydd arnynt eu hunain am beidio â gweithredu.[111]

Cafodd y deddfau effaith andwyol, ond ym mhob drwg y mae da. Pan agorwyd gatiau Auschwitz torrodd gwawr newydd ar un o'r cyfnodau tywyllaf yn hanes dynoliaeth. Arweiniodd erchyllterau'r Holocost at ailystyried yr Iddewon ac Iddewiaeth yn niwinyddiaeth y Cristion; gwnaed hynny o fewn tair blynedd i ddiwedd yr Holocost pan gafwyd datganiad gan Gyngor Eglwysi'r Byd (1948) a oedd yn cydnabod y methiant ar eu rhan hwy a bai'r Eglwys am feithrin traddodiad gwrth-Iddewig.[112]

Y trobwynt mwyaf, efallai, oedd cyhoeddi *Nostra Aetate* (1965), sef un o ddogfennau Ail Gyngor y Fatican a oedd yn gwrthwynebu gwrth-Semitiaeth, sy'n pwysleisio nad yw Duw wedi gwrthod yr Iddewon na'u melltithio, ac yn datgan na ellir eu beio am groeshoeliad Crist.[113] Gallasai'r ddogfen fod wedi dweud mwy o bethau cadarnhaol drwy, er enghraifft, wahardd y term 'duwladdiad' neu grybwyll Gwladwriaeth Israel, ond bu'n rhaid cyfaddawdu a llunio sawl drafft cyn i Ail Gyngor y Fatican gytuno ar fersiwn derfynol.

---

107 Bauer, Y. (2001), *A History of the Holocaust* (London: Franklin Watts), t. 97.

108 Heer, *God's First Love*, t. 366.

109 Un o arwyddeiriau gwrth-Semitaidd y Natsïaid. Bergen, Doris L. (2010), 'Antisemitism in the Nazi Era', yn Lindemann, Albert S., a Levy, Richard S. (goln), *Antisemitism: A History* (Oxford: Oxford University Press), t. 203.

110 Poliakov, L. (1986), *Harvest of Hate* (New York: Holocaust Publications), t. 4.

111 Morley, J. (1980), *Vatican Diplomacy and the Jews During the Holocaust, 1939–1943* (New York: Ktav), t. 209.

112 Brockoway, A. et al. (goln) (1988), *The Theology of the Churches and the Jewish People* (Geneva: WCC Publications), t. 6.

113 Ystyr *Nostra Aetate* yw 'Yn Ein Hamser Ni'. Gweler y ddogfen: <http://www.vatican.va/archive/hist_councils/ii_vatican_council/documents/vat-ii_decl_19651028_nostra-aetate_en.html> (Cyrchwyd: 24 Hydref 2016)

Ymhelaethwyd ar *Nostra Aetate* yn 1975 yn y canllawiau ac yn 1985 yn y nodiadau.[114] Enghraifft o'r datblygiad ym mherthynas y Cristnogion â'r Iddewon oedd sefydlu Canolfan Astudiaethau a Pherthnasau Iddewig-Gristnogol yn 1986,[115] ac yn yr un flwyddyn, aeth y Pab Ioan Paul II i'r Synagog Mawr yn Rhufain a phwysleisio geiriau *Nostra Aetate* ynglŷn â gwrth-Semitiaeth. Roedd hwn hefyd yn gam arwyddocaol ymlaen oherwydd dyma'r tro cyntaf i bab fynd i mewn i'r Synagog Mawr.[116]

Ddeuddeng mlynedd yn ddiweddarach cyhoeddwyd dogfen bwysig arall, *We Remember: A Reflection on the Shoah* gan y Fatican.[117] Mae'r ddogfen yn rhestru'r ffactorau a fu'n gyfrifol am y modd y camdriniwyd yr Iddewon, e.e. camddehongli'r Testament Newydd, meithrin gwrth-Iddewiaeth, cyflwyno bedydd gorfodol, ynghyd â dyfodiad Sosialaeth Genedlaethol yr Almaen yn yr ugeinfed ganrif. Dengys hyn fod yr Eglwys yn cydnabod bod cynsail yr Holocost i'w chael yn ei hanes,[118] ac yn wir, pwysleisiodd y Pab Ioan Paul II fod angen i'r Eglwys yn arbennig gofio'r *Shoah* er mwyn sicrhau na fydd y fath beth yn digwydd eto.[119]

### Casgliad

Ar Sul Cyntaf y Grawys, 12 Mawrth 2000, cynhaliwyd 'Offeren Faddeuant' gan y Fatican. Ymysg y saith gweddi o edifeirwch yr oedd y gyffes am bechu yn erbyn pobl Israel. Yn y weddi honno, cydnabuwyd cyfrifoldeb y Cristnogion am ddioddefaint yr Iddewon. Ychwanegodd y Pab Ioan Paul II at y weddi drwy ofyn am faddeuant am y gorffennol ac i'r Cristnogion cyfoes ymroi i drafodaeth frawdol gyda 'Phobl y Cyfamod'. Ailgyhoeddwyd y weddi, ac fe'i harwyddwyd gan y Pab a'i rhoi mewn twll yn y Mur Wylofain tra oedd ar ei ymweliad â Jerwsalem ym mis Mawrth 2000.[120]

---

[114] Gweler y ddogfen *Guidelines and Suggestions for Implementing the Conciliar Decleration 'Nostra Aetate' (n.4)* (1975): <http://www.vatican.va/roman_curia/pontifical_councils/chrstuni/relations-jews-docs/rc_pc_chrstuni_doc_19741201_nostra-aetate_en.html> (Cyrchwyd: 25 Hydref 2016), a dogfen *Notes on the correct way to present the Jews and Judaism in preaching and catechesis in the Roman Catholic Church* (1985): <http://www.vatican.va/roman_curia/pontifical_councils/chrstuni/relations-jews-docs/rc_pc_chrstuni_doc_19820306_jews-judaism_en.html> (Cyrchwyd: 25 Hydref 2016)

[115] Rousmaniere, *A Bridge to Dialogue*, t. 125.

[116] Hayes, M. A. (2000), 'From *Nostra Aetate* to "We Remember: A Reflection on the *Shoah*"', yn Porter, S. E., a Pearson, B. W. R. (goln), *Christian-Jewish Relations through the Centuries* (Sheffield: Sheffield Academy Press), t. 441.

[117] Am drafodaeth ddiddorol ar y ddogfen *Nostra Aetate* a'r dogfennau eraill a'i dilynodd, gweler Barrens, James M. (2015), *In Our Time (Nostra Aetate): How Catholics and Jews Built a New Relationship* (St. Petersburg, Florida: Mr. Media Books). Gweler y ddogfen *We Remember: A Reflection on the Shoah* (1998): <http://www.vatican.va/roman_curia/pontifical_councils/chrstuni/documents/rc_pc_chrstuni_doc_16031998_shoah_en.html> (Cyrchwyd: 25 Hydref 2016)

[118] Hayes, 'From *Nostra Aetate* to "We Remember: A Reflection on the *Shoah*"', t. 445.

[119] '*Shoah*' yw'r term a ddefnyddir gan lawer i ddisgrifio llofruddiaeth yr Iddewon yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Tardda'r gair o'r Beibl (e.e. Salm 35: 8; 63: 10; Diar. 1: 27; Job 30: 14; Es. 6: 2; 19: 3; 47: 11) a'i ystyr yw 'dinistr llwyr'. Defnyddir y gair '*Shoah*' weithiau yn lle'r term 'Holocost' sy'n tarddu o'r cyfieithiad Groeg o'r *olah* Hebraeg, sy'n golygu 'poethoffrwm cyfan'. Mae defnyddio term a oedd yn wreiddiol yn dynodi aberth i Dduw ynghyd â'r defnydd o 'Holocost' mewn cyd-destunau eraill yn dramgwyddus i rai Iddewon a Christnogion. Gweler Holtschneider, K. Hannah (2005), 'Shoah', yn Kessler, E., a Wenborn, N. (goln), *A Dictionary of Jewish-Christian Relations* (New York: Cambridge University Press), t. 404.

[120] Cunningham, Philip A. (2004), 'Foreword', yn Flannery, Edward H., *The Anguish of the Jews*, 3ydd argraffiad (New York: Paulist Press), tt. xii–iii.

Roedd i'r weithred honno arwyddocâd symbolaidd anferthol: pen bugail yr Eglwys Gatholig Rufeinig yn dynodi cydlyniad â'r Iddewon ar safle mwyaf sanctaidd Iddewiaeth. Mae hyn yn arwydd amlwg fod y berthynas wedi gwella ac i'r Eglwys, yn unol â'r hyn a ddywed Ruether, ysgwyddo rhan o'r cyfrifoldeb am ddioddefaint yr Iddewon.[121]

Drwy gydol yr astudiaeth hon, gwelwyd y modd y cafodd deddfau'r Ymerodraeth Rufeinig, dan ddylanwad Cristnogaeth a'r Tadau Eglwysig, effaith ar safle cymdeithasol ac economaidd yr Iddewon yn ogystal ag ar eu perthynas â'r Cristnogion. Er gwaethaf goddefgarwch Grigor Fawr, erbyn yr Oesoedd Canol daeth rhagfarnau ac atgasedd yr oesau i'r wyneb trwy law'r brodyr teithiol. Ysgogodd hyn ymateb gan yr Eglwys drwy lunio dogfen a warantai'r hawl i'r Iddewon fodoli'n ddi-ofn ond ni chafodd yr effaith ddisgwyliedig, yn enwedig pan adawodd Innosent III ei ôl ar y *Constitutio pro Judaeis* ac ar ddatganiadau gwrth-Iddewig Pedwerydd Cyngor y Lateran. Cafodd yr Iddewon eu cywilyddio'n gyhoeddus a'u cyhuddo o bob math o anfadwaith, a chrisialwyd hyn oll gan Luther.

Teg fyddai dweud i'r ddiwinyddiaeth negyddol a'r deddfau esgor ar draddodiad gwrth-Iddewig cryf, a ffrwyth pydredig y traddodiad hwnnw oedd yr Holocost. Er hynny, esgorodd y *Shoah* ar berthynas well rhwng yr Iddew a'r Cristion. Er bod yr ystrydebau, y camddealltwriaeth a'r elyniaeth yn parhau hyd heddiw, ac er nad yw'r agwedd gadarnhaol wedi treiddio'n llwyr i fywyd plwyfol yr Eglwys Gatholig Rufeinig, mae'r berthynas wedi gwella'n arw. Sefydlwyd deialog rhwng yr Eglwys a'r Iddewon, cynhaliwyd astudiaethau beiblaidd ar y cyd, sefydlwyd amgueddfeydd, a neilltuwyd diwrnod i gofio'r Holocost: *Yom HaShoah*.

Yn sgil yr astudiaeth hon, byddai'n deg dweud i'r deddfau imperialaidd a'r ddiwinyddiaeth a'u dylanwadodd gael effaith niweidiol ar y berthynas rhwng yr Eglwys a'r Iddewon, ond bod y berthynas bellach wedi gwella.[122] Yn yr un modd, gwelwyd datblygiad yn sefyllfa'r Iddewon heddiw mewn cyfnod amlgrefyddol, lle y mae perthynas ryng-grefyddol mor greiddiol i ddyfodol y ddynolryw. Er enghraifft, bu mwy o astudiaethau yn ddiweddar ynglŷn â'r hyn sy'n gyffredin yn nhraddodiadau'r crefyddau Abrahamaidd, ac mae hynny'n wedd mor bwysig mewn oes lle y mae crefydd yn cael ei cham-drin i gyfiawnhau gweithredoedd sy'n ddim llai nag eithafiaeth ffanatig. Nid yw'r Eglwys a'r Iddewon yn gytûn ym mhob peth ac mae gwahaniaethau sylfaenol yn parhau rhyngddynt, ond mae hynny'n arwyddo pa mor fyw yw'r ddeialog.[123]

---

121 Ruether, *Faith and Fratricide*, t. 184.

122 Mae astudiaethau ar y cyd rhwng yr Eglwys a'r Iddewon wedi datblygu'n ddiweddar. Ceir enghraifft ddiddorol yn y modd yr ystyriodd y Fatican y ddeialog a ddatblygwyd ers cyhoeddi *Nostra Aetate* mewn dogfen a gyhoeddwyd ar 10 Rhagfyr 2015 sy'n coffáu hanner canrif cyhoeddi *Nostra Aetate*. Gweler *'The gifts and the calling of God are irrevocable' (Rom 11: 29): A reflection on theological questions pertaining to Catholic-Jewish relations on the occasion of the 50th anniversary of 'Nostra Aetate' (no. 4)* (2015): <http://www.vatican.va/roman_curia/pontifical_councils/chrstuni/relations-jews-docs/rc_pc_chrstuni_doc_20151210_ebraismo-nostra-aetate_en.html> (Cyrchwyd: 25 Hydref 2016)

123 Shatz, David (2012), 'Morality, Liberalism, and Interfaith Dialogue', yn Carlebach, Elisheva, a Schacter, Jacob J. (gol.), *New Perspectives on Jewish-Christian Relations* (Leiden & Boston: Brill), tt. 491–519.

Yr hyn sy'n druenus yw y cafwyd canrifoedd o erledigaeth a dioddefaint cyn sefydlu deialog o'r fath rhwng yr Eglwys a'r Iddewon, ynghyd â chrefyddau eraill. Serch hynny, mae pethau wedi datblygu ac yn parhau i wneud, yn enwedig wrth i heriau cyfoes megis eithafiaeth ffanatig dyfu.


**Cydnabyddiaeth**

Hoffwn ddiolch yn ddiffuant i'r Athro Eryl Wynn Davies a'r Athro Jerry Hunter am ddarllen yr erthygl ac am eu sylwadau gwerthfawr arni; ac i'r Athro Gareth Lloyd Jones am fy nghyflwyno i faes hynod ddiddorol ac am ei gyfarwyddyd sicr yn ystod y broses o lunio fersiwn gynharach o'r erthygl.


**Llyfryddiaeth**


Armstrong, A. H. (1985), 'The Way and Ways', yn Neusner, J., a Frerichs, Ernest S. (goln), *"To See Ourselves as Others See Us": Christians, Jews, "Others" in Late Antiquity* (California: Scholar Press), tt. 357–72.

Bachrach, B. S. (1985), 'Jewish Community of the Later Roman Empire as seen in the *Codex Theodosianus*', yn Neusner, J., a Frerichs, Ernest S. (goln), *'To See Ourselves as Others See Us': Christians, Jews, "Others" in Late Antiquity* (California: Scholar Press), tt. 399–421.

Baron, S. W. (1993), *A Social and Religious History of the Jews* (New York: Columbia University Press).

Barrens, James M. (2015), *In Our Time (Nostra Aetate): How Catholics and Jews Built a New Relationship* (St. Petersburg, Florida: Mr. Media Books).

Bauer, Y. (2001), *A History of the Holocaust* (London: Franklin Watts).

Bergen, Doris L. (2010), 'Antisemitism in the Nazi Era', yn Lindemann, Albert S., a Levy, Richard S. (goln), *Antisemitism: A History* (Oxford: Oxford University Press), tt. 196–211.

Bonfil, R. (1988), 'The Devil and the Jews', yn Almog, S. (gol.), *Antisemitism through the Ages* (New York: Pergamon Press), tt. 91–98.

Brockoway, A. et al. (goln) (1988), *The Theology of the Churches and the Jewish People* (Geneva: WCC Publications).

Brown, Peter (2000), *Augustine of Hippo: A Biography*, argraffiad diwygiedig (Berkeley & Los Angeles: University of Carolina Press).

Caeserius (1929), *The Dialogue on Miracles*, cyfrol 1, cyfieithiad Scott, H. Von E., a Bland, C. C. Swinton (London: Routledge).

Carrol, J. (2001), *Constantine's Sword* (Boston: Houghton Mifflin).

Chadwick, H. (1997), *The Early Church* (Hammondsworth: Penguin).

Chazan, R. (1987), *European Jewry and the First Crusade* (Berkeley: University of California Press).

Chazan, R. (1986), 'Medieval Anti-Semitism', yn Berger, D. (gol.), *History and Hate* (Philadelphia: Jewish Publication Society), tt. 49–65.

Chazan, R. (2010), *Reassesing Jewish Life in Medieval Europe* (New York: Cambridge University Press).

Cohn-Sherbok, D. (1992), *The Crucified Jew* (London: Harper Collins).

Cunningham, Philip A. (2004), 'Foreword', yn Flannery, Edward H., *The Anguish of the Jews*, 3ydd argraffiad (New York: Paulist Press), tt. vii–xvi.

Edwards, J. (1988), *The Jews in Christian Europe 1400–1700* (London: Routledge).

Eidelberg, Shlomo (1977), *The Jews and the Crusaders: The Hebrew Chronicles of the First and Second Crusades* (Wisconsin: University of Wisconsin Press).

Elher, Sidney Zdeneck, a Morral, John B (goln) (1954), *Church and State Through the Centuries: A Collection of Historic Documents with Commentaries* (New York: Burns & Oates).

Elukin, J. (2007), *Living Together Living Apart: Rethinking Jewish-Christian Relations in the Middle Ages* (Princeton & Oxford: Princeton University Press).

Falk, G. (1992), *The Jew in Christian Theology* (North Carolina: McFarland & Company).

Flannery, E. H. (2004), *The Anguish of the Jews*, 3ydd argraffiad (New York: Paulist Press).

Fredriksen, P. (2008), *Augustine and the Jews* (New York: Doubleday).

Friedländer, S. (2007), *The Years of Persecution* (London: Phoenix).

Girsch, Eric W. (1990), 'Luther and the Jews', yn Ditmanson, H. H. (gol.), *Stepping-Stones to Further Jewish-Lutheran Relationships* (Ausburg: Ausburg Publishers), tt. 120–36.

Goodblatt, D. (1994), *The Monarchic Principle: Studies in Jewish Self-Government in Antiquity* (Tübingen: J. C. B. Mohr).

Hall, S. G. (1989), *Christian Anti-Semitism and Paul's Theology* (Minneapolis: Fortress Press).

Hall, S. G. (gol.) (1979), *Melito of Sardis: On Pascha and Fragments* (Oxford: Oxford University Press).

Harkins, P. W. (1979), *Saint John Chrysostom: Discourses Against Judaizing Christians*, The Fathers of the Church, cyfrol 68 (Washington: Catholic University of America Press).

Hayes, M. A. (2000), 'From *Nostra Aetate* to "We Remember: A Reflection on the *Shoah*"', yn Porter, S. E., a Pearson, B. W. R. (goln), *Christian-Jewish Relations through the Centuries* (Sheffield: Sheffield Academy Press), tt. 426–45.

Heer, F. (1970), *God's First Love: Christians and Jews over two thousand years*, cyfieithiad Geoffrey Skelton (New York: Weybright and Talley).

Hilberg, R. (1961), *The Destruction of the European Jews*, cyfrol 1 (London: Holmes & Meier).

Hitler, A. (1943), *Mein Kampf*, cyfieithiad Ralph Manheim (Boston: Houghton Mifflin).

Holtschneider, K. Hannah (2005), 'Shoah', yn Kessler, E., a Wenborn, N. (gol.), *A Dictionary of Jewish-Christian Relations* (New York: Cambridge University Press), t. 404.

Housden, M. (1997), *Resistance and Conformity in the Third Reich* (London: Routledge).

Hughes, H. E., 'Canrif dyngedfennol ym mherthynas Iddewon a Christnogion: ehangwch ar y disgrifiad hwn o'r bedwaredd ganrif OC', traethawd MA, Prifysgol Bangor, Bangor, 2007.

Jones, G. Lloyd (1994), *Lleisiau o'r Lludw* (Dinbych: Gwasg Gee).

Juster, J. (1914), *Les Juifs dans l'Empire Romain*, cyfrol 1 (Paris: P. Geuthner).

Kelley, J. N. D. (1995), *Golden Mouth: The Story of John Chrysostom – Ascetic, Preacher, Bishop* (Ithaca, New York: Cornell University Press).

Kessler, Edward (2013), *An Introduction to Jewish-Christian Relations*, 3ydd argraffiad (Cambridge: Cambridge University Press).

Linder, A. (1987), *The Jews in Roman Imperial Legislation* (Michigan: Wayne State).

Linder, A. (2006), 'The Legal Status of the Jews in the Roman Empire', yn Katz, S. T. (gol.), *The Cambridge History of Judaism* (Cambridge: Cambridge University Press), tt. 128–73.

Lucas, Leopold (1993), *The Conflict Between Christianity and Judaism* (Wiltshire: Arts & Phillips Ltd.).

Luther, M. (1962), 'That Jesus Christ Was Born a Jew', *Luther's Works*, cyfrol 45 (Philadelphia: Fortress Press).

Luther, M. (1971), 'On the Jews and their Lies', *Luther's Works*, cyfrol 47 (Philadelphia: Fortress Press).

Morley, J. (1980), *Vatican Diplomacy and the Jews During the Holocaust, 1939–1943* (New York: Ktav).

Novikoff, A. (2010), 'The Middle Ages', yn Lindemann, A. S., a Levy, R. S. (goln), *Antisemitism: A History* (Oxford: Oxford University Press), tt. 63–78.

Parkes, J. W. (1934), *The Conflict of the Church and the Synagogue: a study in the origins of antisemitism* (London: Soncino Press).

Parkes, J. W. (1938), *The Jew in the Medieval Community: a study of his political and economic situation* (London: Soncino Press).

Pharr, C. (1952), *The Theodosian Code and Novels and the Sirmondian Constitutions* (New York: Greenwood Press).

Poliakov, L. (1986), *Harvest of Hate* (New York: Holocaust Publications).

Probst, Christopher J. (2012), *Demonizing the Jews: Luther and the Protestant Church in Nazi Germany* (Indiana: Indiana University Press).

Read, Piers Paul (2012), *The Dreyfus Affair: The Story of the Most Infamous Miscarriage of Justice in French History* (London: Bloomsbury).

Rousmaniere, J. (1991), *A Bridge to Dialogue* (New York: Paulist Press).

Ruether, R. R. (1974), *Faith and Fratricide: The Theological Roots of Antisemitism* (New York: Seasbury Press).

Sandwell, Isabella (2007), *Religious Identity in Late Antiquity: Greeks, Jews and Christians in Antioch* (Cambridge: Cambridge University Press).

Shatz, David (2012), 'Morality, Liberalism, and Interfaith Dialogue', yn Carlebach, Elisheva, a Schacter, Jacob J. (gol.), *New Perspectives on Jewish-Christian Relations* (Leiden & Boston: Brill), tt. 491–519.

Simon, M. (1986), *Verus Israel* (New York: Oxford University Press).

Stow, Kenneth R. (1988), 'Hatred of the Jews or love of the Church: Papal Policy toward the Jews in the Middle Ages', yn Almog, S. (gol.), *Antisemitism through the Ages* (New York: Pergamon Press), tt. 71–89.

Synan, E. (1965), *The Popes and the Jews in the Middle Ages* (New York: The Macmillan Company).

Thompson, E. A. (1969), *The Goths in Spain* (London: Oxford University Press).

Vital, David (1999), *A People Apart: The Jews in Europe 1789–1939* (Oxford & New York: Oxford University Press).

von der Horst, Pieter W. (2002), *Japheth in the Tents of Shem: Studies on Jewish Hellenism in Antiquity* (Leuven, Paris & Sterling, Virginia: Peeters).

Whyte, George R. (2008), *The Dreyfus Affair: A Chronological History* (Basingstoke, Hampshire & New York: Palgrave Macmillan).

(1988) *Y Beibl Cymraeg Newydd yn Cynnwys yr Apocryffa* (Swindon: Cymdeithas y Beibl).

*Nostra Aetate* (1965): <http://www.vatican.va/archive/hist_councils/ii_vatican_council/documents/vat-ii_decl_19651028_nostra-aetate_en.html> (Cyrchwyd: 24 Hydref 2016)

*Guidelines and Suggestions for Implementing the Conciliar Decleration 'Nostra Aetate' (n.4)* (1975)

<http://www.vatican.va/roman_curia/pontifical_councils/chrstuni/relations-jews-docs/rc_pc_chrstuni_doc_19741201_nostra-aetate_en.html> (Cyrchwyd: 25 Hydref 2016)

*Notes on the correct way to present the Jews and Judaism in preaching and catechesis in the Roman Catholic Church* (1985): <http://www.vatican.va/roman_curia/pontifical_councils/chrstuni/relations-jews-docs/rc_pc_chrstuni_doc_19820306_jews-judaism_en.html> (Cyrchwyd: 25 Hydref 2016)

*We Remember: A Reflection on the Shoah* (1998): <http://www.vatican.va/roman_curia/pontifical_councils/chrstuni/documents/rc_pc_chrstuni_doc_16031998_shoah_en.html> (Cyrchwyd: 25 Hydref 2016)

*'The gifts and the calling of God are irrevocable' (Rom 11:29): A reflection on theological questions pertaining to Catholic-Jewish relations on the occasion of the 50th anniversary of 'Nostra Aetate' (no. 4)* (2015):

<http://www.vatican.va/roman_curia/pontifical_councils/chrstuni/relations-jews-docs/rc_pc_chrstuni_doc_20151210_ebraismo-nostra-aetate_en.html> (Cyrchwyd: 25 Hydref 2016)

Cynan Llwyd

# ‘Byd newydd ymha un y preswylia cyfiawnder’: Gweledigaeth Morgan John Rhys (1760–1804)

Gwerddon
CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG
Golygydd: **Dr Anwen Jones**

# ‘Byd newydd ymha un y preswylia cyfiawnder’: Gweledigaeth Morgan John Rhys (1760–1804)

*Cynan Llwyd*

Perthyn Morgan John Rhys i ail genhedlaeth y Methodistiaid. Er nad yw mor adnabyddus â Thomas Charles (1755–1814), Thomas Jones, Dinbych (1756–1820), a John Elias (1774–1841), dylid ei ystyried yn un o ffigyrau pwysicaf y cyfnod ac yn etifedd diwygiad ysbrydol a chymdeithasol arweinwyr cyntaf y Methodistiaid Cymraeg ac yn anad dim, yn etifedd i William Williams, Pantycelyn (1717–91).

Gwelir cysylltiad clòs Morgan John Rhys a William Williams yn yr ymgyrch i ddiddymu’r fasnach mewn caethwasiaeth, a hynny oherwydd eu hefengyliaeth grefyddol nid er gwaethaf hynny. Dadleuir yn yr erthygl hon i efengyliaeth grefyddol Morgan John Rhys ei gymell i geisio cyfiawnder cymdeithasol, gan gynnwys ymgyrchu i ddiddymu’r fasnach mewn caethwasiaeth, rhyddid crefyddol a rhyddid gwleidyddol, a’i fod felly’n rhagflaenu gweithgarwch gwleidyddol ffigyrau crefyddol y bedwaredd ganrif ar bymtheg. Fodd bynnag, nid Morgan John Rhys oedd y Cristion efengylaidd cyntaf i gondemnio’r fasnach mewn caethweision. William Williams oedd y gŵr hwnnw.

Gwreiddiwyd yr ymgyrch yn erbyn y fasnach mewn caethweision o du’r Cymry Cymraeg yng ngweithiau a gweledigaeth obeithiol William Williams, Pantycelyn. Cawn y condemniad cyntaf yn y Gymraeg o’r fasnach mewn caethweision yng nghampwaith William Williams, sef *Pantheologia, neu Hanes Holl Grefyddau’r Byd*. Mae’r gyfrol hon yn uchelgeisiol; mae’n 654 o dudalennau o hyd ac fe’i cyhoeddwyd mewn saith rhan rhwng 1762 a 1779. Rhan o’i hynodrwydd yw sut y llwyddodd William Williams i gydblethu dau beth a ystyrir yn elynion i’w gilydd, sef y Diwygiad Efengylaidd (neu Fethodistaidd) a’r Oleuedigaeth. Pwysleisiai Efengyliaeth emosiwn a phrofiad tra pwysai’r Oleuedigaeth ar drefn a rheswm. Yng ngwaith William Williams, ac yn enwedig yn *Pantheologia*, serch hynny, gwelir y ddau ddylanwad hyn mewn harmoni. Mae’r gyfrol yn llawn gwybodaeth am grefyddau, daearyddiaeth, hanes a diwylliant gwledydd y byd. Gwyddoniadur ydyw, a daeth cyfrolau o’r fath yn ffasiynol dan ddylanwad yr Oleuedigaeth er mwyn addysgu’r Cymro cyffredin, a oedd, yng ngeiriau William Williams, gystal â mwnci gwyn o’r India (dyfynnwyd yn Roberts 1958: t. 222). Pwrpas yr addysgu hwn, serch hynny, oedd nid yn unig gwella dysg y Cymro cyffredin, ond ei arfogi â gwybodaeth am y gwledydd hyn er mwyn ennyn ei ddiddordeb ynddynt ynghyd â darparu gwybodaeth iddo allu ymateb yn weddigar i’w sefyllfaoedd. Yn hyn o beth, ‘*it is a prime example of Williams Pantycelyn being an heir of the Enlightenment as well as a child of the Evangelical Revival of the eighteenth century*’ (James 2009).

Yn ei adran yn esbonio priodweddau Gini yng Ngorllewin Affrica, disgrifia William Williams y fasnach mewn caethweision ac fe’i condemnia’n hallt. Benthyciodd Williams lawer oddi wrth gyfrol Thomas Salmon (1679–1767), sef *Modern History: or, The Present State of All Nations* (1739), gan ychwanegu ei fanylion a’i bwyslais ei hun. Mae’r adran ar Gini yn adrodd sut y bu i’r Ewropeaid ecsploetio brodorion Gorllewin Affrica a’r modd y dygwyd hwy i fod yn gaethweision. Adroddir am sut y llwyddodd yr Ewropeaid i beri i frenhinoedd

gwledydd Gorllewin Affrica ryfela yn erbyn ei gilydd er mwyn sicrhau cyflenwad o gaethweision i'r dyn gwyn. Er hynny, nid rhywbeth y mae Ewropeaid yn ei wneud yn Affrica yn unig yw cipio pobl i fod yn gaethweision. Mae'n rhywbeth y mae Ewropeaid, a Chymry a Phrydeinwyr yn eu plith wrth gwrs, yn euog ohono hefyd yng Ngogledd America:

> Ac fel y dwedir, mae llawer o'n Planwyr ni yn America heb roi fawr triniaeth well iddynt, gan wneud cyngrair a'i gilydd i beidio gwneud Crist'nogion o honynt, rhag ofn iddynt Ddeall bod y Grefydd Grist'nogol yn gorchymmyn i bawb wneuthur fel y dymunent i eraill wneuthur iddynt hwy; ac yn ganlynol y disgwylient gael triniaeth fel Dynion, ag sydd ar un Duw ac ar un Crist wedi marw trostynt.

Am y fasnach hon dywed William Williams yn blwmp ac yn blaen, 'diau yw nas gallir fyth amddiffyn na chyfiawnhau y fath Draffic a hwn' (1762: t. 39).

Yn ogystal â'r condemniad uchod, cyhoeddodd William Williams gyfieithiad o'r 'slave narrative' cyntaf yn y Saesneg o law Ukawsaw Gronniosaw (c. 1705–75)[1] ac fe'i cyflwynodd i Selina Hastings, Arglwyddes Huntingdon (1707–91). Yr oedd Selina Hastings yn un o brif noddwyr y Methodistiaid ac yn gyfrifol am gyhoeddi sawl '*slave narrative*', gan gynnwys un Olaudah Equiano (c. 1745–97) yn 1789 ac un Ottobah Cugoana (c. 1757–91) yn 1787. Pwysigrwydd y llyfrau hyn oedd dangos dynoliaeth caethweision, y driniaeth erchyll a brofasant, eu gallu i ymateb i'r efengyl Gristnogol a'r ffaith y bu Iesu Grist farw er mwyn achub dynion du yn ogystal â rhai gwyn.

Un fenter Fethodistaidd a gefnogodd Selina Hastings yn dwymgalon oedd sefydlu coleg yn Nhrefeca ger cartref Howell Harris (1714–73) er mwyn hyfforddi pregethwyr a chenhadon. Iddi hi, roedd efengyleiddio caethweision yn bwysig. Gwelwyd felly, drwy gydol yr 1770au, ymdrechion gan y coleg i anfon myfyrwyr yn genhadon i daleithiau'r UDA er mwyn efengylu i'r caethweision a'r brodorion. Ar gais Selina Hastings, ysgrifennodd William Williams yr emyn Saesneg, '*O'er those gloomy hills of darkness*', er mwyn i'r emyn gael ei ganu yn y coleg yn Nhrefeca ac yng nghartref George Whitfield (1714–70) i blant amddifad yn Georgia, UDA (a oedd o 1770 ymlaen dan ofal Selina Hastings, gyda chaethweision yn gweithio yno). Gwelwn yn yr emyn ddyhead William Williams i weld yr efengyl yn cyrraedd pellafion y byd, ac i'r '*Indians*' a'r '*Negroes*' ddod yn Gristnogion. Mae'r emyn yn dangos hefyd fod William Williams yn meddwl bod y ddaear ar fin cyrraedd uchafbwynt arbennig:

> Lord, I long to see that morning,
> When thy gospel shall abound,
> And they grace get full possession
> Of the happy promised ground;
> All the border,
> Of the great Immanuel's land.

Mae'n emyn sy'n ymgorfforiad o'r gobaith y bydd yr efengyl Gristnogol yn teyrnasu ledled y byd '*and with its references to freedom and redemption, to a blesséd jubilee and to the*

[1] Williams, W. (1779), *Berr Hanes o'r pethau mwyaf hynod ym mywyd James Albert Ukawsaw Groniosaw, tywysog o Affrica: fel yr adroddwyd ganddo ef ei hun* (Aberhonddu: E. Evans).

*dawn of a glorious morning, this hymn would become a favourite (…) among slaves and former slaves*' (James 2009).

Un o'r pethau a gymhellodd William Williams i gondemnio'r fasnach mewn caethweision ac i hiraethu am weld diwrnod pan fyddai'r holl fyd, gan gynnwys Brodorion a duon America, yn addoli Iesu Grist, oedd ei obaith fod y greadigaeth ar fin cyrraedd ei uchafbwynt yn y Milflwyddiant. Sonia Datguddiad 20 am gyfnod o fil o flynyddoedd pan fydd paradwys, neu nefoedd, yn cael ei sefydlu ar y ddaear. Dyma gyfnod pan fydd rhyddid, cyfiawnder a heddwch yn disodli gorthrwm, anghyfiawnder a rhyfel. Law yn llaw â'r Milflwyddiant, ceir y gred yn Ailddyfodiad Iesu Grist. Cred cyn-filflwyddwyr y gellir disgwyl sefydlu'r Milflwyddiant ar ôl Ailddyfodiad sydyn Iesu Grist, ond i ôl-filflwyddwyr, megis William Williams, dylid disgwyl yr Ailddyfodiad ar ôl cyfnod y Milflwyddiant, sef cyfnod cyn Ailddyfodiad Crist pan fyddai dylanwad yr efengyl Gristnogol yn lledu'n rymus trwy'r byd. Yng ngoleuni hyn, nid yw'n syndod i ôl-filflwyddwyr, gyda'u gobaith fod y ddaear yn cyrraedd uchafbwynt gogoneddus, daflu eu hunain i weithgarwch pellgyrhaeddol megis yr ymgyrch yn erbyn caethwasiaeth a ffurfio cymdeithasau cenhadol.[2] Bu farw William Williams cyn gweld diddymu'r fasnach mewn caethweision a chyn cyfarfod sefydlu un o'r cymdeithasau cenhadol mwyaf dylanwadol, *The London Missonary Society*, ond mae diolch y ddau fudiad hyn yn enfawr iddo fel arloeswr. Nid oes syndod i gannoedd yng Nghapel Spa Fields, Llundain, forio canu '*O'er those gloomy hills of darkness*' yng nghyfarfod sefydlu Cymdeithas Genhadol Llundain ar 22 Medi 1795. Roedd yn hollol naturiol bod yr ymgyrch yn erbyn caethwasiaeth a'r ymgyrch i efengyleiddio'r ddaear gyfan yn mynd law yn llaw â'i gilydd. Fel yr esbonia E. Wyn James:

> Y mae'r weithred o genhadu yn rhagdybio bod y bobl hynny yn eneidiau byw gwerthfawr, pobl y bu Crist farw drostynt, pobl wedi'u creu ar lun a delw Duw, ac nid yn hanner anifeiliaid. (James 2006)

Nid gormeswyr ac imperialwyr oedd y cenhadon. Yn wir, 'draenen yn ystlys y masnachwyr a'r milwyr imperialaidd fu'r cenhadon, a bu gwrthwynebiad i gaethwasiaeth yn nodwedd gyson o'r mudiad cenhadol ar hyd ei hanes' (ibid.). Dyn a rannodd weledigaeth obeithiol William Williams gan ymroi trwy gydol ei fywyd i genhadu a cheisio rhyddid i gaethweision oedd Morgan John Rhys.

Er i ddegawdau olaf y ddeunawfed ganrif fod yn rhai cythryblus tu hwnt, roeddynt hefyd yn rhai 'cyffrous, ffurfiannol yn hanes Cymru' (James 2007: t. 5). Dyma gyfnod Rhyfel Annibyniaeth America a'r Chwyldro Ffrengig ac, fel William Williams yntau, credai plant yr Oleuedigaeth a'r Diwygiad Efengylaidd fod newid mawr ar droed; 'diwedd y byd, efallai, neu drefn gymdeithasol newydd a fyddai'n creu nefoedd ar y ddaear' (James 2010: t. 3). Dyma gyfnod pan oedd syniadau'r Oleuedigaeth, Efengyliaeth a Radicaliaeth wleidyddol ar droed. Fel y nodwyd eisoes, pwysai'r Oleuedigaeth ar reswm ac oherwydd hynny rhoddwyd pwyslais ar fethodoleg wyddonol gan gwestiynu a herio dysgeidiaeth draddodiadol yr Eglwys. Yn ogystal â hyn, rhoddodd yr Oleuedigaeth bwyslais ar ryddid unigol a rhyddid mynegiant.

---

[2] Gweler James, E. Wyn (2002), 'Williams Pantycelyn a Gwawr y Mudiad Cenhadol', yn Jenkins, Geraint H. (gol.), *Cof Cenedl*, XVII, tt. 65–101. Gweler hefyd Hughes, D. A. (1986), 'William Williams Pantycelyn's Eschatology as seen especially in his *Aurora Borealis* of 1774', *Scottish Bulletin of Evangelical Theology*, 4 (1), Gwanwyn, 49–63. Hefyd, Murray, Iain H. (1971), *The Puritan Hope: A Study in Revival and the Interpretation of Prophecy* (London: Banner of Truth).

Yn draddodiadol, gelyn yr Oleuedigaeth oedd Efengyliaeth. Daeth Efengyliaeth yn fudiad grymus yn ystod y Deffroad Mawr yn y ddeunawfed ganrif. Yr oedd hwn yn gyfnod o ddiwygiadau crefyddol, yn gyntaf yn Northampton, MA, rhwng 1733 a 1734 dan arweiniad Jonathan Edwards (1703–58) ac yna'r Diwygiad Efengylaidd (neu Fethodistaidd) ym Mhrydain dan arweiniad Daniel Rowlands (1711–90), Howell Harris a William Williams yng Nghymru ynghyd â John Wesley (1703–91), Charles Wesley (1707–88) a George Whitefield (1714–70) yn Lloegr. Nodweddir Efengyliaeth gan emosiwn a phrofiadau crefyddol personol. Noda David Bebbington mai pedwar prif bwyslais Efengyliaeth yw tröedigaeth (*conversionism*), awdurdod y Beibl (*biblicism*), pwysigrwydd croeshoeliad Iesu Grist (*crucicentrism*) a gweithredoedd da'r Cristion (*activism*). '*Together*,' dywed Bebbington, '*they form a quadrilateral of priorities that is the basis of Evangelicalism*' (1993: t. 3).

Mae *conversionism* yn pwysleisio angenrheidrwydd tröedigaeth, neu ailenedigaeth, yr unigolyn. I'r efengylwr, neges graidd yr Efengyl yw bod iachawdwriaeth i'w gael drwy ffydd yn Iesu Grist yn unig ac edifeirwch oddi wrth bechod. Mae tröedigaeth yn gwahaniaethu'r Cristion oddi wrth y di-gred ac yn arwain yr unigolyn at fywyd o sancteiddrwydd yn hytrach na phechod. Yn aml mae tröedigaeth yn brofiad emosiynol a all gynnwys galar yn sgil pechod ynghyd â gorfoledd yn sgil maddeuant (Bebbington 1993: tt. 5–8).

Mae *biblicism* yn pwysleisio awdurdod a phwysigrwydd y Beibl fel Gair Duw i'r efengylwr o gymharu ag awdurdod eglwysig ac esgobol (Bebbington 1993: tt. 12–14).

Mae *crucicentrism* yn pwysleisio'r pwysigrwydd a roddai Efengyliaeth ar yr Iawn, sef marwolaeth ac atgyfodiad achubol Iesu Grist sy'n cynnig maddeuant pechodau a bywyd newydd. Ystyrir yr Iawn yn nhermau iawn dirprwyol gan i Efengyliaeth, yn gyffredinol, ddysgu i Iesu Grist farw ar ran, ac yn lle, dynoliaeth bechadurus gan dderbyn y gosb yn eu lle (Bebbington 1993, tt. 15–16).

Mae *activism* yn esbonio mynegiad allanol bywyd newydd y Cristion wrth iddo rannu'r efengyl drwy bregethu a gweithredu cymdeithasol (Bebbington 1993: t. 12).

Nod Radicaliaeth wleidyddol yw gwyrdroi gwerthoedd a strwythurau cymdeithasol mawr y dydd, megis y Goron, yr Eglwys a'r Senedd, a hynny trwy ddulliau chwyldro. Yn Morgan John Rhys, gwelir un dyn yn ymgorffori'r tri mudiad.

Ganed Morgan John Rhys ar ffermdy Graddfa ger Llanbradach ac fe'i magwyd ar aelwyd Ymneilltuol. Oherwydd cefndir a lleoliad y teulu mae'n bur debygol fod y teulu'n adnabod William Williams ac yn gyfarwydd â'i waith. Nid oes prawf o hyn ond gellir dweud yn bur hyderus i Morgan John Rhys, yn fachgen ifanc, glywed John Wesley'n pregethu yn Llanbradach ar ddydd Gwener 12 Awst 1768. Roedd Llanbradach yn ganolfan bwysig i'r Ymneilltuwyr felly. Fel William Williams, roedd ei fryd ar fod yn feddyg, ond bwriad ei dad ar ei gyfer oedd gyrfa ym myd arian a masnach. Addysgwyd ef yn ysgol gweinidog gyda'r Annibynwyr, David Williams (1709–84), ym Mhwll-y-pant. Aeth oddi cartref i Lundain i weithio mewn banc ac yna i Fryste a Portsmouth i weithio fel asiant morwrol. Yno, trefnodd i fudo i Dde Carolina, ond rhaid oedd iddo ddychwelyd adref pan ddaeth y newydd i'w fam ddioddef anaf drwy ddamwain. Yn naturiol ddigon i un a fagwyd ar aelwyd Ymneilltuol ac a addysgwyd gan David Williams, bu pynciau ysbrydol a chyflwr ei enaid yn pwyso'n drwm arno ers yn ifanc a theimlodd mai galwad ddwyfol oedd ei ddychweliad adref i Gymru. Cafodd dröedigaeth yng Nghaerdydd wrth ddarllen gweithiau'r Piwritaniaid, Richard Baxter (1615–91) a Joseph Alleine (1634–68). Bedyddiwyd

ef yng nghapel bedyddiedig Hengoed ym mis Awst 1785 yn 24 oed. Wedi hyn dechreuodd bregethu cyn derbyn hyfforddiant swyddogol yn Athrofa'r Bedyddwyr ym Mryste yn 1786.

Roedd Bryste'n ddinas fywiog a phrysur ac yn un o brif ganolfannau masnach Prydain mewn caethweision, ond yr oedd hefyd yn gartref i rai o brif wrthwynebwyr y fasnach honno, megis Dr Caleb Evans (1737–91), llywydd yr Athrofa. Dyma ŵr a oedd yn gefnogol iawn i achos yr ysgolion Sul ac i egwyddorion Rhyfel Annibyniaeth America. Ym Mryste daeth Morgan John Rhys dan ddylanwad y Bedyddiwr Robert Hall (awdur *Christianity consistent with the Love of Freedom* (1791) sy'n amddiffyn gweithgarwch gwleidyddol Anghydffurfwyr), sy'n lleisio dyhead i weld diwygio cymdeithasol a gwleidyddol fel a welwyd yn y Chwyldro Ffrengig. Eglura Dewi Arwel Hughes fod y 'cwestiwn o ryddid yn cael lle blaenllaw ym meddwl llawer o weinidogion ifanc yr Anghydffurfwyr y pryd hwnnw ac yfodd Morgan John Rhys yn ddwfn o'r ffynnon' (Hughes 1990: t. 29).

I'r Methodistiaid, er mai'r ysbrydol oedd eu prif ffocws, 'cam bychan mewn gwirionedd oddi wrth bwysleisio'r angen am ryddid ysbrydol yng Nghrist oedd hawlio rhyddid i'r bod dynol, gorff ac enaid (…) nid yw'n syndod felly, mewn gwirionedd, weld Cristnogion efengylaidd yn ymroi'n frwdfrydig i'r ymgyrch (…) i ddileu'r gaethfasnach' (James 2010: tt. 3–4). Nid radicaliaid gwleidyddol yn unig a bwysleisiai ryddid a chyfiawnder. I blant y Diwygiad Efengylaidd, roeddent yn eiriau hollbwysig hefyd. Ni cheir amheuaeth mai'r ysbrydol a ddeuai gyntaf iddynt, sef y rhyddid oddi wrth bechod a marwolaeth a ddaw o gredu ac ymddiried yn aberth achubol Iesu Grist ar y groes ac o wisgo cyfiawnder Iesu Grist yn sgil hynny. 'Ond yr oedd oblygiadau moesol a chymdeithasol i'w crefydd hwythau' (James 2006). Onid dyma'r hyn a sylweddolodd William Williams wrth hyrwyddo safbwyntiau gwrth-gaethwasiaeth yn y Gymraeg ac wrth fod yn llais cynnar i weledigaeth obeithiol y mudiad cenhadol? Wrth ystyried William Williams a Morgan John Rhys maes o law, gwelwn wahaniaeth clir rhyngddynt hwy a George Whitfield a Selina Hastings. Er i Whitfield a Hastings arddel Efengyliaeth, nid oedd yn eu cyflyru i wrthwynebu caethwasiaeth. Mae'n amlwg i Efengyliaeth Williams ei arwain at weithgarwch gwleidyddol (condemnio caethwasiaeth) a ddatblygodd maes o law yn Radicaliaeth wleidyddol yn Morgan John Rhys (ymgyrchu'n uniongyrchol yn erbyn caethwasiaeth). Wrth i'r ddeunawfed ganrif a'r bedwaredd ganrif ar bymtheg fyned rhagddynt, gwelwyd y goblygiadau moesol a chymdeithasol hyn yn dod i ddominyddu, gyda rhyddid a chyfiawnder 'daearol, corfforol' yn dod yn gynyddol bwysig ochr yn ochr â rhyddid a chyfiawnder 'nefol, ysbrydol'. Yn Morgan John Rhys, gwelir yr ymradicaleiddio hyn a dylanwadau Efengyliaeth a'r Oleuedigaeth yn cydblethu. Radicaliaeth wleidyddol a chrefyddol oedd Radicaliaeth Morgan John Rhys; fe'i hystyrid yn wleidyddol oherwydd yr ymgeisiai i wyrdroi strwythur a gwerthoedd y gymdeithas, ac fe'i hystyrid yn grefyddol am y mynnai fod i Efengyliaeth wedd gymdeithasol bellgyrhaeddol. I Whitfield a Hastings, roedd modd i Efengyliaeth esgusodi caethwasiaeth os deuai'r caethweision hynny yn eu tro yn Gristnogion da, ond i Williams nid oedd modd cyfiawnhau caethwasiaeth er na ddymunai hyrwyddo protest ac anufudd-dod sifil. I Morgan John Rhys, roedd ei Efengyliaeth yn mynnu ymateb uniongyrchol a chwyldroadol.

Enghraifft o hyn yw'r gyfrol a gyhoeddwyd ganddo yn 1794, sef *Tabl yn cynnwys Maintoli, Hyd, Lled a Rhifedi'r Trigolion ynghyd a'u Hamrywiol Grefyddau yn Holl Wledydd ac Ynysoedd y Byd...Hefyd...y Moddion i ddychwelyd y Paganiaid i wybodaeth o'r Unig Un Dduw, a'r Iachawdwr Iesu Grist.* Cyfrol ydyw sy'n debyg iawn mewn rhai ffyrdd i

*Pantheologia* William Williams a gwyddoniaduron eraill y cyfnod. Ceir tabl maith ar wyth tudalen y gyfrol wedi'i osod yn dwt ac yn drefnus mewn colofnau er mwyn cyflwyno hyd, lled, poblogaeth a chrefyddau gwledydd y byd. Ceir gwybodaeth ychwanegol, er enghraifft 'Y mae Ynysoedd Ladrone yn cael eu preswylio gan y Paganiaid mwyaf anfoesol', tra bod Bermuda yn 'Hanner Saeson a hanner Caethion' (t. 9). Ni ellir peidio â gweld dylanwad yr Oleuedigaeth ar y gyfrol gan iddo gyflwyno gwybodaeth mewn modd rhesymol, megis gwyddoniadur. Cyflwyno gwybodaeth, addysgu'r anwybodus a hynny mewn modd trefnus a rhesymegol yw nod y gyfrol. Er hynny, mae ganddi ddylanwad efengylaidd yn ogystal, oherwydd, fel *Pantheologia*, y nod yw cyflwyno gwybodaeth er mwyn cymell cenhadu. Dywed Morgan John Rhys wrth ddod i gasgliad ar ddiwedd y tabl fod:

> pedwar cant ac ugain myrddiwn mewn tywyllwch paganaidd. Cant a deg ar hugain o fyrddiynau yn canlyn Mahomet. Can' myrddiwn yn proffesu pabyddiaeth. Pedwar a deugain o fyrddiynau yn brotestaniaid. Deg myrddiwn ar hugain yn perthyn i eglwys Groeg ac Armenia. Ac o gylch 7 myrddiwn o Iuddewon (…) Y mae'n sicr na ddichon un cristion gwirioneddol ddarllen yr hanes uchod, heb alaru, wrth feddwl fod cynnifer o'i gyd-greaduriaid mewn tywyllwch (t. 9).

Wrth ystyried y wybodaeth yn y tabl, dyhead Morgan John Rhys yw i'r darllenydd sylweddoli cyfrifoldeb moesol a chymdeithasol ei grefydd:

> y mae galwad uchel, yn yr amser presennol, ar bob enaid byw i ddeffroi i gyfiawnder, ac i ymdrechu hyd y mae ynddo i oleuo ei gyd-greaduriaid, ym mhob gwlad, ac yn neillduol i gofio am ei gymmydogion gartref, i ddysgu plant y tlodion i ddarllen, a chynghori pob dyn o fewn ei gydnabyddiaeth i sylwi ar arwyddion yr amserau a barnu drosto ei hun, beth fydd uniawn (t. 9).

Gwelwn Radicaliaeth, Efengyliaeth a'r Oleuedigaeth yn fyw ac yn iach yn y paragraff hwn. Mae ei Radicaliaeth i'w weld yn y ffaith ei fod am i bawb ddeffro i gyfiawnder a gweithredu dros gyfiawnder cymdeithasol, a gwelir dylanwad yr Oleuedigaeth yn y ffaith mai 'goleuo' cyd-ddyn yw'r modd gorau i geisio cyfiawnder cymdeithasol. Gwelir Efengyliaeth Morgan John Rhys yn y ffaith iddo weld 'arwyddion yr amserau' yn nigwyddiadau ei ddydd a oedd fel petaent yn rhagfynegi cyfnod y Milflwyddiant. Oherwydd hyn dylid paratoi at hynny a phrysuro ei ddyfodiad drwy ymroi i weithredu cyfiawnder.

Arweiniodd Radicaliaeth, Efengyliaeth a Goleuedigaeth Morgan John Rhys at dri pheth yn benodol, sef Ffrainc, yr ymgyrch yn erbyn caethwasiaeth ac Unol Daleithiau America.

Ym mis Mai 1791, penderfynodd Morgan John Rhys roi'r gorau i'w weinidogaeth yn yr eglwys Fedyddiedig ym Mhen-y-garn ger Pont-y-pŵl[3] a symud i Ffrainc er mwyn hyrwyddo Protestaniaeth yng nghanol bwrlwm y Chwyldro Ffrengig. I radicaliaid fel Morgan John Rhys, cynigiai'r Chwyldro obaith am ddyfodol gwell. Gwelent y Chwyldro '*as a*

---

[3] Bu'n weinidog yno am bedair mlynedd wedi iddo ddychwelyd adref o Fryste chwe mis ar ôl cychwyn ar ei hyfforddiant yn y coleg, oherwydd i'w fam farw. Ni welodd aelodau'r eglwys ym Mhen-y-garn lawer ohono yn ystod ei weinidogaeth yno. Bu ar deithiau pregethu hir yn 1788 a 1789 gan bregethu tua hanner cant o weithiau'r mis.

*manifestation of a broader universal struggle*' gan fod '*the subjugation of the government to the will of the people in France provided hope for further religious, political and constitutional reform in Britain*' (Charnell-White, 2012: t. 9). Canodd Edward Williams ('Iolo Morgannwg' 1747–1826) yn obeithiol am sefydlu trefn newydd yng ngolau'r Chwyldro:

Ond dydd sy'n agosáu.
Dydd hyfryd i'n rhyddhau
  O'n pen a'n braw;
Dydd megis ffwrn o dân
A ddifa'r drwg yn lân,
Dyrchafwn bawb y gân,
  Y mae gerllaw.

Mae Edward Williams yn gwbl glir pwy fydd yn teyrnasu dros y drefn newydd:

O! pam, frenhinoedd byd,
Ymelwch cwyn cyd
  Mewn poethder gwŷn?
Clywch orfoleddus gainc!
Mae'r gwledydd oll fal Ffrainc
Yn rhoddi'r orsedd fainc
  I freiniau dyn.

Gorfoledd! Cwyn dy lais!
Cwymp holl deyrnasoedd trais!
  Maent ar eu crŷn.
Cawn deyrnas hardd ei gwedd,
Dan farn Tywysog Hedd,
Yn honno cwyn o'r bedd
  Holl freiniau dyn. (Charnell-White 2012, tt. 156–60)

Gwelwn felly fod radicaliaid yn gweld y Chwyldro fel digwyddiad o bwys eschatolegol. Hynny yw, roedd y chwyldro yn un o'r digwyddiadau hynny a fyddai'n arwain at sefydlu'r Milflwyddiant. Arwyddair y Chwyldro oedd 'Rhyddid, cydraddoldeb a brawdoliaeth' a gwelodd y radicaliaid y Chwyldro fel cychwyn trefn newydd a fyddai'n gweld sefydlu'r rhinweddau hyn ledled y byd. Canodd Morgan John Rhys:

Mae rhyw ysbryd yn ymdaenu
  Fel fflam danllyd yn y byd,
Cyfraith rhyddid sy'n gorchfygu,
Aiff nefol dân ymlaen o hyd
Nes goresgyn De a Gogledd,
  Dwyrain a Gorllewin faith;
Yr Oen yn Frenin ar Ei orsedd
I bob cenhedlaeth, llwyth ac iaith.

Achubodd Morgan John Rhys ar y cyfle i ymfudo i Ffrainc ac yfed o ffynnon y Chwyldro. Sefydlodd orsafoedd pregethu Saesneg yn Calais a Boulogne a dysgodd Ffrangeg cyn symud i Baris, lle y bu'n ymweld ag adfeilion y Bastille. Tra bu yno, pregethodd

a dosbarthodd Feiblau. Yr oedd yn argyhoeddedig y byddai'r chwyldroadwyr a'u hymlyniad wrth *Liberté, Egalité* a *Fraternité* a'u hawydd i 'ddiosg gormes brenhinoedd ac offeiriaid Pabyddol, yn barod – yn awyddus yn wir – i gofleidio Protestaniaeth; ond cafodd ei siomi yn yr ymateb' (James 2007: t. 8). Roedd wedi gobeithio sefydlu eglwysi Saesneg Protestannaidd a theithio i Lydaw i genhadu, ond oherwydd prinder arian dychwelodd Morgan John Rhys i Gymru cyn diwedd gwanwyn 1792 gan fynd ati i geisio codi arian ar gyfer argraffu Beiblau Ffrangeg. Penderfynodd Cymanfa'r Bedyddwyr ym Moleston ym mis Mehefin 1792 ei gefnogi tra oedd yn llywydd arni, ond ni ddychwelodd i barhau â'i genhadaeth yn Ffrainc. Roedd perthynas Prydain a Ffrainc wedi dadfeilio'n llwyr erbyn hynny. Dienyddiwyd y brenin Louis XVI yn 1793 gan codi braw ar frenhinwyr ym Mhrydain a chyhoeddwyd rhyfel yn erbyn Prydain.

Er na lwyddodd yn ei genadwri a'i ymgyrchoedd yn Ffrainc, defnyddiodd Morgan John Rhys yr argraffwasg yng Nghymru mewn modd llwyddiannus er mwyn condemnio'r fasnach mewn caethweision, galw am weithredu uniongyrchol yn erbyn y fasnach mewn caethweision, hybu dysg ymhlith y Cymry Cymraeg a chyflwyno'r efengyl Gristnogol. Yn bennaf, eir ati i roi sylw i'w bamffled *Dioddefiadau Miloedd Lawer o Ddynion Duon, mewn Caethiwed Truenus yn Jamaica a Lleoedd Eraill; Yn cael eu gosod at Ystyriaeth ddifrifol y Cymry hawddgar, er mwyn ceisio eu hennill i adael Siwgr, triagl, a Rum o law'r Cymro, Gelynol i bob Gorthrech* a ymddangosodd ar ddechrau'r 1790au.

Gwrthodwyd mesur William Wilberforce (1759–1833) i ddiddymu'r fasnach mewn caethion ym mis Ebrill 1791, ac felly aethpwyd ati i brotestio mewn modd uniongyrchol drwy beidio â phrynu siwgr, rum a thriog a wnaed gan gaethion. O ynysoedd y Caribî, yn enwedig Jamaica, y daeth llawer o gyfoeth Prydain, a hynny trwy'r fasnach mewn siwgr. Yn naturiol felly, siwgr oedd prif darged ymgyrchwyr gwrth-gaethwasiaeth. Dyma bwyslais erthygl dan y pennawd 'Hanes y grefydd Grist'nogol o ran ei llwyddiant' a ymddangosodd yn rhifyn cyntaf cylchgrawn arloesol a radical a gyhoeddwyd o dan olygyddiaeth Morgan John Rhys, sef *Y Cylchgrawn Cynmraeg.* Nid oes modd manylu yn yr erthygl hon ar y cylchgrawn arbennig hwn, ond rhaid nodi mai hynodrwydd y cylchgrawn, fel ei olygydd, oedd ei fod yn ymgorfforiad o'r syniadau radical a oedd ar droed yn y cyfnod, sef yn bennaf, Efengyliaeth a'r Oleuedigaeth. Roedd y cylchgrawn yn trafod themâu eang gan gynnwys crefydd, addysg, gwleidyddiaeth, hanes, llenyddiaeth a'r iaith. Trwy'r *Cylchgrawn* roedd Morgan John Rhys yn addysgu'r Cymry Cymraeg yn y pynciau hyn ac yn eu cymell i weithredu. Dywed Dewi Arwel Hughes mai maniffesto Morgan John Rhys oedd y *Cylchgrawn* ac mai byrdwn mawr Morgan John Rhys oedd 'fod rhywbeth mawr ar ddigwydd yn y byd, fod rhyddid gwleidyddol yn mynd i ddod ar fyrder i genhedloedd y ddaear ac y byddai'r rhyddid hwnnw yn agor y ffordd i ryddid ysbrydol a fyddai'n dilyn pregethu cyffredinol yr efengyl' (Hughes 1990: t. 33).

Ymddangosodd cerdd gan Morgan John Rhys cyn cyhoeddi *Dioddefiadau* dan y teitl *Achwynion Dynion Duon, mewn Caethiwed Truenus yn Ynysoedd y Suwgr.* Dyma gerdd sy'n 'llifo'n rhwydd ac yn effeithiol ei hergydion' (James 2010: t. 7). Yr ergyd yw bod dynion du a gwyn 'o'r un gwaed, yn frodyr i'w gilydd ac yn blant i'r un Tad nefol' (ibid.). Ynddi, adroddai caethweision hanes chwerw eu cipiad a'r driniaeth a gawsant dan law'r dyn gwyn o gymharu â melyster blas siwgr:

Gwrandewch, *Frutaniaid* mwynion,
  Achwynion dynion dû,
Sy'n goddef blin gaethiwed,
  Gwae ni, o'ch plegid chwi:
O *Affrica* fe'n dygwyd,
  Mewn modd lladradaidd gwîs,
I godi pethau melus
  Eu blas i blesio'r blys.

Pan fo'ch yn gweled Suwgr,
Oh! cofiwch fel y cawd,
Trwy lafur annaturiol
  Cystuddiol caethion tlawd:
Os yw yn felus gennych,
  Bu'n chwerw dost i ni:
Yn sydyn yr arswydech
  Pe clywech chwi ein cri.

Profodd *Dioddefiadau* fod Morgan John Rhys yn ysgrifennwr effeithiol. Dyma oedd y pamffled cyntaf yn yr iaith Gymraeg a bregethodd yn erbyn y gaethfasnach a'r bwriad oedd darlunio'r fasnach yn gignoeth er mwyn pwysleisio ei herchylltra a'i natur bechadurus. Mae'n gwbl bendant ei neges, sef fod caethiwed 'yn afresymol, yn anghyfiawn, a chwbl groes i nattur' ac yn gwbl groes i'r ffydd Gristnogol (t. 3), ac o dan y teitl ar yr wynebddalen ceir cyfeiriadau Beiblaidd er mwyn atgyfnerthu ei neges.[4] Dywed mai 'anwybodaeth a (*sic*) anystyriaeth' (t. 2) y Cymry sy'n eu harwain at brynu siwgr, ac felly byrdwn y pamffled yw addysgu a goleuo'r Cymry ynghylch y fasnach, a thrwy hynny eu hannog i weithredu. Yr oedd yn awyddus i bawb ddeall ac ymateb i'w alwad. 'Fy amcan pennaf,' meddai, 'yw darlunio pethau mor syml ac eglur, ag (*sic*) mewn iaith mor sathredig, fel y gallo pob un a ddarlleno hefyd ddeall fy meddwl' (t. 2). Mae'r pamffled yn llawn darluniau pwerus megis 'dagrau halltion' a 'ffrydiau gwaed', a chwestiynau er mwyn pigo cydwybod megis 'a allai gymmeryd y mymryn lleiaf o honynt heb fod ei galon yn dolurio?' (t. 2). Yn rhesymegol a threfnus mae Morgan John Rhys yn adrodd y camau erchyll sydd ynghlwm wrth y fasnach, sef y cipio, y fordaith, y glanio a'r gwerthu, y gweithio, trefniadau cysgu a gwisgo ac yn olaf, a'r mwyaf erchyll, y cosbi. Rhestra'n ddiflewyn ar dafod y 'torri dannedd', 'hollti ffroenau', 'torri clustiau', 'torri llaw', 'arllwys cwyr neu blwm toddedig arnynt', 'gwthio haiarn poeth rhwng eu dannedd', 'dodi benywon yn noeth i gwneud eu gwaith ar cerrig (*sic*)', 'crogi,' 'fflangellu' a 'rhwygo cnawd' (t. 9). Adroddodd am 'un meistr a rostiodd ei gaethwas yn fyw am redeg i bant,' a'i ymateb i hyn, fel y dymunai i ymateb ei ddarllenydd fod, yw galaru: 'Och Dduw! druenused peth yw fod creaduriaid rhesymmol wedi ymgaledu i'r fath radd, a gallu trin eu cyd–ddynion yn y cyfryw fodd!' (tt. 10–11). A dyma yn y bôn yw prif ddadl Morgan John Rhys, oherwydd mae'n cyhoeddi ei neges yn enw brawdoliaeth. Yn ei dyb ef, plant i'r un Duw oedd dynion gwyn a du, ac roeddent yn hollol gyfartal yn eu cymeriad a'u rhinweddau. Pwysleisiai fod y caethweision 'yr un mor hawddgar a charedig (…) yr un mor gryf a chynnes eu serchiadau a (*sic*) dynion eraill' a'u bod yr un mor 'wirion',

[4] Ecsodus 21: 16, 2: 23 a 2 Cronicl 11: 19.

'diddrwg', 'têg (*sic*)', 'cyfiawn', 'syml', 'diddichell', 'lletugar' a 'chymwynasgar' (tt. 11–12) â'r Cymro croen gwyn. Arweiniodd ei resymu at y cwestiwn terfynol, sef pam 'y gwneir yr holl lanastra yma ar greaduriaid rhesymol Duw, a'n *cydradd ninnau* ymhob ystyr o bwys?' (t. 12). Yn ogystal â hyn, atgoffir y darllenydd fod llyfr y Datguddiad yn darlunio golygfa lle y ceir cynrychiolaeth o bob llwyth ac iaith yn addoli Iesu Grist ar adeg ei Ailddyfodiad, a phan ddaw Iesu Grist yn ei ôl,[5] bydd yn barnu drwgweithredwyr ond yn gwobrwyo 'holl weithredwyr cyfiawnder a thrugaredd' (tt. 15–16). Dyma lyfr trefnus, bywiog a grymus, 'ac y mae'r pwyslais ynddo ar ein cyfrifoldeb personol ni bob un i weithredu yn erbyn anghyfiawnder a chamarfer' (James 2010, t. 10). Hefyd, mae'n enghraifft wych o'r modd yr ymgorfforai Morgan John Rhys Radicaliaeth, Efengyliaeth a'r Oleuedigaeth. Mae'n radical am ei fod yn cynnig gweithredu er mwyn gwyrdroi masnach a oedd yn sail i rym a chyfoeth yr Ymerodraeth Brydeinig, ac mae'n efengylol am fod cymhelliad yn y pamffled i drin ac i weld dynion duon fel plant i Dduw, i gyflwyno'r efengyl Gristnogol iddynt ac i weithredu'n gyfiawn er mwyn osgoi barn a llid Duw pan ddeuai Iesu Grist yn ei ôl ar adeg ei Ailddyfodiad. Mae'n bamffled sy'n llawn o ddylanwad yr Oleuedigaeth oherwydd cyflwynir toreth o wybodaeth mewn modd trefnus a rhesymegol i'r diben o addysgu'r Cymry Cymraeg.

Ym mis Ebrill neu fis Mai 1794, cyhoeddodd Morgan John Rhys *Y Drefn o Gynnal Crefydd yn Unol-Daleithiau America: Ynghyd â Darluniad Byr o Kentucky, a Rhesymau digonol i gyfiawnhau'r cyfryw sy'n myned o'r Wlad hon i America, a chyngor i'r Cymry.* Manylodd ar Kentucky oherwydd honno oedd y dalaith ddiweddaraf i gael ei sefydlu, a rhoddai gyfarwyddiadau i'r Cymry a oedd am ymfudo i'r UDA, oherwydd iddynt hwy ac i Morgan John Rhys roedd hi'n wlad llawn addewid lle y teyrnasai rhyddid a chyfiawnder. Egyr y gyfrol gan ddweud, 'Wedi treigl miloedd o flynyddoedd, ymha rai yr oedd dynolryw yn cael eu amharchu (*sic*) gan bob math o drawslywodraeth, braidd ym mhob rhan o'r byd, y mae'n hyfryd gweled byd newydd, ymha un y preswylia cyfiawnder, wedi ei sefydlu gan Dduw ar y ddaear' (t. 1). Nid syndod felly i Morgan John Rhys symud yno ym mis Awst 1794 a byw yno hyd ei farwolaeth yn 1804. Apeliodd UDA at Radicaliaeth, Efengyliaeth a Goleuedigaeth Morgan John Rhys. Dyma wlad lle y rhoddwyd rhyddid i bobl addoli fel y mynnent, lle yr oedd trafod syniadau gwleidyddol a chymdeithasol yn cael ei gymell a lle yr oedd llwythi brodorol i'w hefengyleiddio a chaethion i'w rhyddhau. Tra bu yno, sefydlodd ddau beth sy'n dangos eto'r holl rymoedd a ymgorfforai, sef *The Missionary Society of Philadelphia* a'i wladfa Gymreig, Cambria, ym Mhensylfania.

Ysgrifennodd lythyron manwl at gyfaill iddo wedi iddo gyrraedd UDA, ac yn fuan iawn daeth wyneb yn wyneb â chaethwasiaeth, yn enwedig wrth deithio drwy daleithiau'r De. Dywed:

> Sorry am I to say that the white people in the Southern States are initiated from their infancy into a system of barbarous cruelty. (Griffiths 1910, t. 105)

Wrth ymweld â Charleston, dywedodd:

> Negroes not only half naked, but totally uncovered penned up at night and awoke each morning by the music of whips. (ibid., t. 150)

Wrth ystyried caethwasiaeth UDA, mae'n rhyfedd fod Morgan John Rhys mor awyddus i ymfudo yno a gweld Cymry eraill yn gwneud yr un peth. Gellir ond tybio bod y potensial

[5] Datguddiad 7: 9.

o allu byw mewn rhyddid a chyfiawnder yn yr UDA yn drech nag erchyllterau'r fasnach mewn caethweision yn ei lygaid. Yn wir, dyma'r awgrym a gawn yn un o'i lythyron:

> The Day Star from on high has risen – the morning dawns – the sun appears – the remains of slavery shall be soon swept from the new world with the bosom of pure democracy. (ibid., t. 57)

Yn ogystal â gobeithio'n hyderus am ddymchwel y fasnach mewn caethweision, gobeithiai'n hyderus weld yr Indiaid Brodorol yn troi at Gristnogaeth. At y diben hwn, sefydlodd '*The Missionary Society of Philadelphia*'. Ymbiliodd am gefnogaeth swyddogion byddin America, a'u harweinydd Anthony Wayne (1745–96) mewn anerchiad yn Greenville ym mis Gorffennaf 1795 ac eglurodd mewn pamffled yn hyrwyddo'r gymdeithas genhadol:

> The Missionary Society of Philadelphia impressed with the importance of ameliorating the condition and augumenting the happiness of mankind, are impelled by motives of religion and benevolence to attempt the propagation of Christian and civil knowledge among the aborigines of America. (ibid., t. 30)

Wrth amlinellu rheolau a threfn y gymdeithas, dywed:

> No missionary shall be considered qualified who is not capable of practicing or teaching some useful art as well as a rational system of religion. No other test shall be required exepting evidences of piety and zeal; that he renounces all sectarian names and adopt simply that of Christian. (ibid., t. 30)

Gwelwn eto Efengyliaeth a'r Oleuedigaeth yn ymbriodi yn Morgan John Rhys. Nod y gymdeithas oedd nid yn unig efengyleiddio'r Brodorion, gan gyflawni '*the ancient prediction. "The knowledge of the Lord shall cover the earth as the waters do the sea"*'[6] (t. 31), ond hefyd eu diwyllio a'u cynorthwyo. Gwelir yn ogystal Radicaliaeth Morgan John Rhys yn y ffaith ei fod yn mynnu rhyddid crefyddol – nid oedd lle i enwadaeth yn y gymdeithas.

Menter gyffrous arall Morgan John Rhys yn yr UDA oedd sefydlu trefedigaeth Gymreig o'r enw Cambria ym Mhensylfania er mwyn bodloni ei awydd am ryddid gwleidyddol a chrefyddol. Beulah, 'Gwlad Rhyddid', oedd ei phrifddinas. Credir bod oddeutu 300 o drigolion yn byw ym Meulah ar un adeg a bod cynllun gwreiddiol y ddinas yn bedair milltir sgwâr er mwyn bod yn ddrych o gynllun dinas fawr Philadelphia. Yn y cynlluniau gwelir eglwys, dau westy, melin, ysgol a llyfrgell. Ceir strydoedd yn dwyn yr enwau '*Lamb*', '*Kid*', '*Milk*', '*Sun*' a '*Joy*'. Eglwys anenwadol oedd un Beulah a 'cred syml yn Iesu Grist ac yn y Testament Newydd fel rheol buchedd oedd unig gredo'r eglwys' (Hughes 1990: t. 34). Ni pharodd y wladfa hon ac ni lwyddodd y gymdeithas genhadol.

Serch hyn, mae i Morgan John Rhys le arbennig yn hanes Radicaliaeth, Efengyliaeth a'r Oleuedigaeth yng Nghymru a thu hwnt. Yn ei bamffledi, ei gerddi a'i ymgyrchoedd gwelir gweledigaeth radical a luniwyd gan Efengyliaeth a'r Oleuedigaeth, dau beth a ystyrir yn aml yn elynion i'w gilydd. Dyma ddyn a oedd ar dân i addysgu'r Cymry Cymraeg ynghylch materion cyfoes gan gynnwys y fasnach mewn caethion, diwinyddiaeth,

[6] Eseia 11: 9, Habakkuk 2: 14.

hanes, daearyddiaeth a gramadeg. Dyma ddyn a hiraethai am weld caethweision yn ennill eu rhyddid a phobl o bob llwyth ac iaith yn troi at Gristnogaeth, a hynny er mwyn gweld rhyddid a chyfiawnder yn teyrnasu. Mae ei bwysigrwydd yn y ffaith iddo roi gwedd radical wleidyddol i Efengyliaeth Gymreig a pharatoi'r ffordd, drwy hynny, at Radicaliaeth wleidyddol Anghydffurfiaeth y bedwaredd ganrif ar bymtheg.

**Llyfryddiaeth**


Bebbington, D. (1993), *Evangelicalism in Modern Britain: A History from the 1730s to the 1980s* (London: Routledge).

Charnell-White, C. A. (2012), *Welsh Poetry of the French Revolution 1789–1805* (Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru).

Griffiths, J. T. (1910), *Rev. Morgan John Rhys, "The Welsh Baptist hero of civil and religious liberty of the 18th century"*, 2il argraffiad (Caerfyrddin: W. M. Evans a'i Fab).

Hughes, D. A. (1990), *Meddiannu Tir Immanuel: Cymru a Mudiad Cenhadol y ddeunawfed ganrif* (Pen-y-bont: Gwasg Bryntirion).

Hughes, D. A. (1986), 'William Williams Pantycelyn's eschatology as seen especially in his *Aurora Borealis* of 1774', *Scottish Bulletin of Evangelical Theology*, 4 (1), 49–63.

James, E. W. (2013), '"Blessed Jubil!" Slavery, mission and the millennial dawn in the work of William Williams of Pantycelyn', yn Kirk, J., Brown, M., a Noble, A (goln), *Cultures of Radicalism in Britain and Ireland*, Poetry and Song in the Age of Revolution, 3 (London: Pickering & Chatto), tt. 95–112.

James, E. W. (2006), 'Caethwasanaeth a'r beirdd, 1790–1840', <http://www.cardiff.ac.uk/insrv/libraries/scolar/digital/welshballads/caethwasanaeth.html> (dyddiad cyrchu: 7 Rhagfyr 2016).

James, E. W. (2010), 'Morgan John Rhys a chaethwasiaeth Americanaidd', yn Williams, Daniel G. (gol.), *Canu caeth: y Cymry a'r Affro-Americaniaid* (Llandysul: Gwasg Gomer), tt. 2–25.

James, E. W. (2007), '"Seren Wib Olau": Gweledigaeth a chenhadaeth Morgan John Rhys (1760–1804)', *Trafodion Cymdeithas Hanes y Bedyddwyr*, 5–37.

James, E. W. (2009), 'Welsh ballads and American slavery', <http://www.cardiff.ac.uk/insrv/libraries/scolar/digital/welshballads/welsh-ballads-and-american-slavery.html> (dyddiad cyrchu: 10 Medi 2015).

James, E. W. (2002), 'Williams Pantycelyn a gwawr y Mudiad Cenhadol', yn Jenkins, Geraint H. (gol.), *Cof Cenedl*, XVII, tt. 65–101.

Murray, I. H. (1971), *The Puritan Hope: A study in revival and the interpretation of prophecy* (London: Banner of Truth).

Roberts, G. M. (1958), *Y Pêr Ganiedydd II* (Aberystwyth: Gwasg Aberystwyth).

Rhys, M. J. (c.1790), *Achwynion Dynion Duon, mewn caethiwed truenus yn Ynysoedd y Suwgr* (Caerfyrddin: I. Daniel).

Rhys, M. J. (c.1790), *Dioddefiadau miloedd lawer o ddynion Duon, mewn caethiwed truenus yn Jamaica a lleoedd eraill; Yn cael eu gosod at ystyriaeth ddifrifol y Cymry hawddgar, er mwyn ceisio eu hennill i adael siwgr, triagl, a rum* (Caerfyrddin a Brysto (Bryste): ni nodir gwasg gyhoeddi).

Rhys, M. J. (1794), *Tabl yn cynnwys maintoli, hyd, lled a rhifedi'r trigolion ynghyd a'u hamrywiol grefyddau yn holl wledydd ac ynysoedd y byd...hefyd...y moddion i ddychwelyd y Paganiaid i wybodaeth o'r Unig Un Dduw, a'r Iachawdwr Iesu Grist* (Caerfyrddin: ni nodir gwasg gyhoeddi).

Rhys, M. J. (1794), *Y Drefn o Gynnal Crefydd yn Unol-Daleithiau America: Ynghyd â Darluniad Byr o Kentucky, a Rhesymau digonol i gyfiawnhau'r cyfryw sy'n myned o'r Wlad hon i America, a chyngor i'r Cymry* (Caerfyrddin: ni nodir gwasg gyhoeddi).

Salmon, T. (1739), *Modern History: or, The present state of all nations* (London: Tho. Wotton & T. Osborne).

Williams, G. A. (1980), *The search for Beulah Land: The Welsh and the Atlantic Revolution,* (London: Holmes & Meier).

Williams, W. (1779), *Berr Hanes o'r pethau mwyaf hynod ym mywyd James Albert Ukawsaw Groniosaw, tywysog o Affrica: fel yr adroddwyd ganddo ef ei hun* (Aberhonddu: E. Evans).

Williams, W. (1762–79), *Pantheologia, neu Hanes holl grefyddau'r byd* (Caerfyrddin: E & D Powell).

# Cyfranwyr

## *Ben Screen*

Astudiodd Ben Screen tuag at radd yn y Gymraeg yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, gan ennill gradd dosbarth cyntaf. Dechreuodd ei ddiddordeb mewn technoleg cyfieithu pan aeth i weithio i Goleg Gwent trwy gynllun gwaith GO Wales, lle y bu cyfieithu i'r Gymraeg yn rhan bwysig o'i waith. Wedi gadael y brifysgol, aeth ymlaen i weithio fel Cyfieithydd dan Hyfforddiant cyn dychwelyd i Ysgol y Gymraeg i ymgymryd â gwaith ymchwil ddoethurol ym maes technoleg cyfieithu a'r Gymraeg, a hynny ar ôl derbyn ysgoloriaeth ymchwil gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Prif ddiddordebau ymchwil Ben yw'r berthynas rhwng cyfieithu proffesiynol a thechnoleg cyfieithu ynghyd ag agweddau gwybyddol ar gyfieithu.

## *Nia Davies Williams*

Yn wreiddiol o Ben Llŷn, graddiodd Nia Davies Williams mewn Cerddoriaeth ym Mhrifysgol Bangor gan fynd ymlaen i gwblhau gradd Meistr a ganolbwyntiai ar berthynas cerddoriaeth â dementia. Bu'n cydlynu grwpiau *Singing for the Brain* gan y Gymdeithas Alzheimer yng ngogledd Cymru am dair blynedd. Yn ddiweddar, penodwyd Nia yn Gerddor Preswyl yng nghanolfan newydd Gofal Dementia Bryn Seiont yng Nghaernarfon, sydd yn rhan o sefydliad Parc Pendine yn Wrecsam.

## *Gareth Evans-Jones*

Daw Gareth Evans-Jones o Farian Glas, Ynys Môn. Graddiodd mewn Cymraeg ac Astudiaethau Crefyddol o Brifysgol Bangor yn 2012 gan barhau yn y brifysgol i ddilyn cwrs MA mewn Cymraeg ac Ysgrifennu Creadigol. Bellach, mae yn ei flwyddyn olaf yn dilyn cwrs PhD dan nawdd yr AHRC ar y cyd rhwng Ysgol y Gymraeg ac Ysgol Athroniaeth a Chrefydd, Prifysgol Bangor. Teitl ei brosiect ymchwil yw `Caethwasiaeth, y Beibl a Gwasg Gyfnodol Gymraeg yr Unol Daleithiau, 1838-68'.

## *Cynan Llwyd*

Mae Cynan yn fyfyriwr PhD yn Ysgol y Gymraeg, Prifysgol Caerdydd, ac mae'n ymchwilio i athrawiaeth yr Ailddyfodiad a'r Milflwyddiant mewn Llenyddiaeth Gymraeg ynghyd â'u goblygiadau cymdeithasol yng Nghymru. Mae'n ymddiddori'n bennaf yn hanes crefyddol Cymru, yn enwedig y cyfnod modern cynnar hyd at ddiwedd y ddeunawfed ganrif. Yn ddiweddar, fe'i penodwyd yn Swyddog Plant a Phobl Ifanc gyda Llenyddiaeth Cymru.

Gwerddon
CYFNODOLYN ACADEMAIDD CYMRAEG

ISSN 1741-4261
9 771741 426008